



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cael mynediad i'r Gymraeg
yn ystod pandemig COVID-
19: heriau a chefnogaeth i
aelwydydd di-Gymraeg

Teitl: Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19:
heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg

Is-deitl: COVID-19 a mynediad i'r Gymraeg

Awdur(on): Enlli Môn Thomas, Siân Wynn Lloyd-Williams, Nia Mererid Parry, Gwilym Siôn ap Gruffudd, David Parry, Gwawr Maelor Williams, Delyth Jones, Sioned Hughes, Rhodri Aled Evans ac Anna Brychan.

I ddyfynnu o'r adroddiad hwn: Thomas, E.M., Lloyd-Williams, S. W., Parry, N.M., ap Gruffudd, G.S., Parry, D., Williams, G.M., Jones, D., Hughes, S., Evans R.A., a Brychan, A. (2021). *Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19: heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Yr Athro Enlli Thomas

Ysgol Gwyddorau Addysgol

Safle'r Normal

Prifysgol Bangor

LL57 2PZ

Ffôn: 01248383053

E-bost: enlli.thomas@bangor.ac.uk

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg/ This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron 2022 WG43988 ISBN 978 1 80391 792 4

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau	2
Rhestr Termiau	4
1. Cyflwyniad/Cefndir	6
2. Methodoleg	13
3. Canfyddiadau'r Holiaduron i Athrawon	31
4. Canfyddiadau'r Holiaduron i Rien	58
5. Canfyddiadau o Gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda staff a myfyrwyr AGA	92
6. Prif Ganfyddiadau	114
7. Argymhellion	121
8. Adran gyfeiriadau	127
9. Atodiad A: Vignettes o arferion diddorol enghreifftiol	129

Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Sampl Athrawon (Data Holiaduron)	20
Tabl 2.2: Blynyddoedd gwasanaeth	20
Tabl 2.3: Cyfran yr athrawon oedd â phrofiad o addysgu ar-lein cyn y cyfyngiadau symud	22
Tabl 2.4: Cyfran yr athrawon a gafodd hyfforddiant ar addysgu ar-lein cyn y cyfyngiadau symud	22
Tabl 2.5: Cyfran yr athrawon a gafodd hyfforddiant ar addysgu ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud	23
Tabl 2.6: Oedran yr oedolion ar bob aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)	23
Tabl 2.7: Statws gwaith pob oedolyn ar bob aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)	24
Tabl 2.8: Lefelau addysg uchaf yr oedolion ar bob aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)	24
Tabl 2.9: Rhywedd yr oedolion ar yr aelwyd	25
Tabl 2.10: Sgiliau Cymraeg yr oedolion ar yr aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)	26
Tabl 2.11: Nifer ac oedran y plant ar bob aelwyd	27
Tabl 3.1: Cyfran yr athrawon a gafodd hyfforddiant penodol ar gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud	31
Tabl 3.2: Canfyddiadau athrawon o ddefnyddioldeb adnoddau ar-lein wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion	33
Tabl 3.3a: Adnoddau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu â disgyblion	36
Tabl 3.3b: Adnoddau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu â rhieni	37
Tabl 3.4: Barn athrawon ar y gwahaniaethau mewn lefelau dryswch mewn perthynas â gwaith a osodwyd cyn ac yn ystod y cyfyngiadau symud	43
Tabl 3.5: Canfyddiadau athrawon o effaith y cyfyngiadau symud ar sgiliau Cymraeg plant	43
Tabl 3.6: Canfyddiadau athrawon o'r gwahaniaeth mewn sgiliau iaith ar ôl gwyliau'r haf o gymharu ag ar ôl y cyfyngiadau symud	44
Tabl 3.7: Pryderon rhieni am addysgu eu plant gan ddefnyddio gwaith a osodwyd yn Gymraeg – ysgol cyfrwng Cymraeg	48
Tabl 3.8: Pryderon rhieni am addysgu eu plant gan ddefnyddio gwaith a osodwyd yn Gymraeg – ysgolion dwyieithog	49
Tabl 3.9: Pryderon rhieni am ddatblygiad sgiliau Cymraeg eu plentyn/plant - ysgolion cyfrwng Cymraeg	50

Tabl 3.10: Pryderon rhieni am ddatblygiad sgiliau Cymraeg eu plentyn/plant - ysgolion dwyieithog	50
Tabl 4.1: Profiad addysgu fesul oedolyn ar yr aelwyd	58
Tabl 4.2: Ymatebion i ddatganiadau ynghylch cymorth a chyfathrebu: rhieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg	61
Tabl 4.3: Yr iaith a ddefnyddiodd ysgolion i gyfathrebu â rhieni yn ôl rhieni yn y tri grŵp iaith	67
Tabl 4.4: Iaith y gwaith ysgol a osodwyd yn ôl rhieni yn y tri grŵp iaith	68
Tabl 4.5: Nifer a chyfran yr ysgolion a oedd wedi trafod yr her o helpu plant gyda chynnwys Cymraeg yn y cartref	73
Tabl 4.6: Faint o adnoddau Cymraeg a oedd gan deuluoedd yn y cartref	74
Tabl 4.7: Faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a brynwyd gan y grwpiau gwahanol o rieni yn ystod y cyfyngiadau symud	75
Tabl 4.8: Faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a argraffwyd gan rieni yn ystod y cyfyngiadau symud	76
Tabl 5.1: Codau Tiwtoriaid AGA ac Arbenigedd Sector	92
Tabl 5.2: Codau Myfyrwyr AGA	92
Tabl 5.3: Themâu o Gyfweliadau AGA (Staff) a Grwpiau ffocws (Myfyrwyr).	92

Rhestr Termau

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AGA	Addysg Gychwynol i Athrawon
Dwyieithrwydd adiol	Cyd-destunau lle mae ail iaith yn cyfrannu neu'n 'ychwanegu' at wybodaeth siaradwr yn ei iaith gyntaf neu frodorol/naturiol heb ei disodli (Baker a Wright, 2021, t. 453). Ni chaiff yr ail iaith neu'r iaith ychwanegol ei datblygu ar draul datblygiad parhaus yr iaith gyntaf (Pearson, 2008, t. 309).
Trochi	Term cyffredinol yw addysg drochi sy'n cyfeirio at amrywiaeth o fodelau addysg lle mae disgyblion yn dysgu rhai neu'r rhan fwyaf o'u pynciau drwy ail iaith.
Trawsieithu	Dull addysgegol dwyieithog lle mae disgyblion yn cael gwybodaeth mewn un iaith ac yna'n defnyddio neu'n cymhwyso'r wybodaeth honno yn yr iaith arall (Baker a Wright, 2021, t.464).
Dysgu a ddatblygir ar y cyd	Yn seiliedig ar draddodiad lluniadaethol, mae dysgu a ddatblygir ar y cyd yn cyfeirio at ddull addysgegol sy'n meithrin gwaith dysgu ar y cyd rhwng sawl partner ac sydd â'r disgybl yn ganolog iddo.
Rhieni cyfrwng Saesneg	Rhieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg
Rhieni cyfrwng Cymraeg: di-Gymraeg	Rhieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg
Rhieni cyfrwng Cymraeg: Cymraeg	Rhieni Cymraeg sydd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg

Arferion dwyn i gof	Dull dysgu sy'n annog disgyblion i gofio gwybodaeth y maent eisoes wedi'i dysgu fel ffordd o atgyfnerthu eu gwaith dysgu parhaus.
Dysgu seiliedig ar dasgau	Dull addysgegol sy'n annog disgyblion i ddatrys tasgau sy'n golygu rhywbeth yn y byd go iawn. Drwy gydweithio mewn grwpiau, mae disgyblion yn datblygu cysylltiadau dyfnach rhwng iaith a'r byd go iawn.
Cyfryngu	Fel y nodir yn y Cwricwlwm i Gymru, gweithgaredd sy'n 'Cyfathrebu ystyr o un person i berson arall o fewn iaith (aralleirio, crynhoi) neu o un iaith i iaith arall (cyfieithu, dehongli). Mae'r dysgwr yn cynorthwyo eraill i gyfathrebu gyda'i gilydd trwy rannu, esbonio neu gyfieithu gwybodaeth neu syniadau.'

1. Cyflwyniad/Cefndir

- 1.1 Mewn ymateb i bandemig COVID-19, cyllidodd Llywodraeth Cymru nifer o brosiectau ymchwil er mwyn helpu i ddeall effaith y pandemig ar ddysgu ac addysgu yn ein hysgolion. Nod y prosiectau hyn oedd nodi'r ffactorau a effeithiodd ar brofiadau rhanddeiliaid allweddol amrywiol yn ystod y pandemig ac, yn benodol, sut effeithiodd y ffactorau hyn ar ymgysylltiad ag agweddau amrywiol ar addysgu gartref ac ymdrechion i gyflwyno'r agweddau hynny.
- 1.2 Canlyniad gwaith ar y cyd rhwng tri Sefydliad Addysg Uwch (SAUau) (Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant) yw'r ymchwil a gyflwynir yn yr adroddiad hwn a chasglwyd y data o rwydwaith ysgolion partneriaeth y tri SAU.
- 1.3 Yn benodol, roedd y prosiect a gyflwynir yn yr adroddiad wedi ystyried effaith COVID-19 ar ymgysylltiad dysgwyr â'r Gymraeg a/neu'r defnydd ohoni yn y sectorau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog a chyfrwng Saesneg, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg ond a oedd yn byw ar aelwydydd di-Gymraeg.
- 1.4 Fodd bynnag, o gofio'r amrywiadau teipolegol yng nghategoriâu ieithyddol ysgolion yng Nghymru fel y maent ar hyn o bryd,¹ a'r amrywiaeth yn y modelau darparu perthnasol a ddefnyddir ganddynt, gwnaethom geisio barn unigolion sy'n cefnogi lefelau amrywiol o ymgysylltiad â'r Gymraeg, mewn cyd-destunau cyfrwng Cymraeg, dwyieithog a chyfrwng Saesneg, er mwyn cael darlun cyfannol o'r heriau sy'n wynebu darpariaeth ac addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru yn ystod pandemig.
- 1.5 O ganlyniad, mae'r adroddiad yn defnyddio ystod eang o ffynonellau data, wedi'u gwahaniaethu (i) yn ôl grŵp rhanddeiliaid (athrawon, rhieni, darlithwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), athrawon dan hyfforddiant) a (ii) yn bwysicach o fewn y grwpiau athrawon a rhieni, yn ôl iaith (categori iaith yr ysgol, a chategori iaith yr ysgol X iaith y rhieni). Gyda'i gilydd, mae'r data hyn yn cynrychioli safbwyntiau a phrofiadau athrawon (cynradd ac uwchradd), rhieni, darlithwyr AGA mewn

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/difinio-ysgolion-yn-%C3%B4l-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf> cyrchwyd 16.8.2021.

prifysgolion ac athrawon dan hyfforddiant, ac roedd gan bob un o'r rhain rôl i'w chwarae wrth gyd-ddatblygu ffyrdd o ddarparu addysg i ddisgyblion yn ystod y pandemig. Mae'r dyfyniadau Cymraeg wedi'u cynnwys air am air a'r rhai Saesneg wedi'u cyfieithu.

- 1.6 Nod yr argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yw gwella gallu ysgolion i gyflawni'r uchelgais a nodir o dan un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru,² sef bod ein holl ddisgyblion yn '*ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n... gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg.*' Os cânt eu rhoi ar waith, gallai'r argymhellion hyn hefyd weithredu fel galluogwyr strategol i ategu'r camau gweithredu sydd ar waith i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a dyblu nifer yr unigolion sy'n barod i ddefnyddio'r iaith bob dydd ac sy'n gallu gwneud hynny.³ Yn fwy penodol, mae gwneud cysylltiadau rhwng ieithoedd, y mae'r Cwricwlwm yn cyfeirio ato fel *lluosieithrwydd*, yn thema greiddiol ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm i Gymru.⁴ Mae defnyddio gwybodaeth ieithyddol, ni waeth pa mor ddatblygedig fo'r wybodaeth honno, yn y naill iaith neu'r llall, yn helpu disgyblion i wneud cynnydd ym mhob un o'u hieithoedd, ac mae datblygu sgiliau iaith da yn gosod y sylfaen ar gyfer dysgu effeithiol gan fod '*medru trin iaith yn effeithiol o gymorth i ddysgwyr ddeall cysyniadau ar draws y cwricwlwm.*' Yr hyn y mae'r pandemig wedi'i wneud yw amlygu cyfosodiad naturiol ieithoedd o fewn cyd-destunau dysgu dilys – ar y lefelau micro (o fewn yr unigolyn), meso (o fewn rhyngweithio rhwng yr athro a'r plentyn neu'r athro a'r rhiant) a macro (o fewn amgylchedd ehangach y plentyn) – gan bwysleisio'r angen i ddeall yn well sut y gellir defnyddio lluosieithrwydd yn effeithiol i wella dysgu. Felly, mae ein hargymhellion yn awgrymu camau gweithredu a all arwain at ddwyieithrwydd adiol i bob dysgwr, gan fabwysiadu dull dysgu cyfannol a ddatblygir ar y cyd.

² [Datblygu gweledigaeth ar gyfer dylunio cwricwlwm - Hwb \(llyw.cymru\)](#) cyrchwyd 17.8.2021

³ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf> cyrchwyd 17.8.2021

⁴ [Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Cyflwyniad - Hwb \(llyw.cymru\)](#) cyrchwyd 17.8.2021

Cyd-destun yr astudiaeth

- 1.7 Yn ddiamau, bydd canlyniadau pellgyrhaeddol yn sgil pandemig COVID-19 ac ymateb pawb i'r heriau yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang. Mae hwn, yn wir, yn gyfnod eithriadol sy'n galw am fesurau eithriadol. Fodd bynnag, er y gallai'r mesurau hyn fod yn seiliedig ar egwyddorion egalitaraidd, mae canlyniadau pellgyrhaeddol, yn anffodus, yn sgil eu rhoi ar waith. Mae'n hollbwysig deall y canlyniadau posibl, a sut y gellir eu rheoli yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir, er mwyn adfer yn rhannol o leiaf y lefelau o sefydlogrwydd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yr oeddem yn gyfarwydd â nhw cyn i reoliadau'r cyfyngiadau symud ddod i rym.
- 1.8 Dwy agwedd bwysig ar gymdeithas Cymru sydd wedi cael eu herio gan y pandemig hwn - gyda chanlyniadau hirdymor posibl - yw addysg a'r Gymraeg. Bu'n rhaid i ysgolion yng Nghymru roi'r gorau i weithredu o dan amodau arferol ar 23 Mawrth 2020, gan aros ar agor i gefnogi teuluoedd gweithwyr rheng flaen a disgyblion agored i niwed yn unig. Heb gymorth eu profiadau, eu gwybodaeth a'u hyfforddiant fel addysgwyr ystafell ddosbarth, bu'n rhaid i athrawon fynd ati'n gyflym i gyflwyno model addysgu newydd sbon, heb unrhyw hyfforddiant na chanllawiau penodol, mewn sefyllfa nad oedd neb wedi dod ar ei thraws o'r blaen. Roedd y model hwn yn cynnwys lluo o lwyfannau digidol y bu'n rhaid i ysgolion a rhieni/disgyblion ymgyswngi â nhw'n gyflym.
- 1.9 Nid yw modelau dysgu o bell na dulliau dysgu digidol yn newydd ac fe'u defnyddiwyd yn dra llwyddiannus ym myd addysg ers sawl blwyddyn (gweler Kozma 2011, er enghraifft), weithiau fel cyrsiau rhithwir, cyflawn (Heart, Berger, Jacob, Loeb, a Hill, 2019) ac weithiau fel rhan o waith dysgu cytunol (De George-Walker a Keeffe, 2010). Yn y sectorau cynradd ac uwchradd, fodd bynnag, defnyddiwyd technoleg ddigidol fel arfer i *ategu a chefnogi* yn hytrach na *disodli* dysgu wyneb yn wyneb (Harju, Koskinen a Pehkonen, 2019). Arweiniodd y newid sydyn hwn i fodel 'newydd' at nifer o heriau, gan gynnwys yr her o ddatblygu cyfleoedd dysgu effeithiol a sicrhau mynediad cyfartal i addysg i bawb.
- 1.10 Mae sicrhau ymarfer effeithiol a darparu mynediad i addysg yn arbennig o heriol ar gyfer mathau penodol o ddisgyblion sy'n agored i niwed (plant ag anghenion dysgu

ychwanegol, plant sy'n byw mewn tlodi, plant ar aelwydydd treisgar ac ati) y byddai cymorth ychwanegol/amgen ar gael iddynt fel arfer.

- 1.11 Un her mwy annisgwyl, ond a allai arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i gymdeithas, yw'r cymorth i blant nad yw iaith eu haddysg yr un peth ag iaith eu cartref o reidrydd. Dyma oedd ffocws yr astudiaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

Materion yn ymwneud â'r Gymraeg

- 1.12 Yn ôl data Cyfrifiad 2011, mae 8% o unigolion sy'n byw yng Nghymru a Lloegr yn siarad un o blith 600 o ieithoedd heblaw Saesneg fel eu prif iaith, a'r Gymraeg - gyda 562,000 o siaradwyr - yw'r iaith fwyaf cyffredin o blith y rhain. Ym myd addysg yng Nghymru ar hyn o bryd, mae amrywiaeth cymhleth o fodelau ieithyddol sy'n cynnwys modelau trochi sy'n canolbwyntio ar y Gymraeg yn bennaf ar y naill law, a modelau cyfrwng Saesneg sy'n addysgu Cymru fel pwnc yn unig ar y llall, gydag amrywiaeth o fodelau dwyieithog hefyd (Thomas, Gathercole a Hughes, 2013; gweler Llywodraeth Cymru, 2007). Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth ieithyddol gyfoethog sydd wedi dod yn fwyfwy amlwg yn ein cymdeithas yr un mor amlwg yn yr ystafell ddosbarth, ni waeth pa fodel ieithyddol a fabwysiadir.
- 1.13 Yn ystod blwyddyn academaidd 2019/2020, roedd cyfanswm o 89,970 o blant wedi'u cofrestru mewn ysgolion prif ffrwd (yn y sector cynradd, canol ac uwchradd) lle mai'r Gymraeg oedd y brif iaith neu'r unig iaith addysgu, ac roedd 12,095 yn rhagor o blant yn mynychu ysgolion lle defnyddiwyd y Gymraeg fel cyfrwng i addysgu rhan o'r cwricwlwm (StatsCymru, 2020).⁵ Felly, mae cyfran sylweddol o blant – dros 102,000 o blant yng Nghymru – yn dod i gysylltiad rheolaidd â'r Gymraeg yn ystod pob diwrnod ysgol. Fodd bynnag, o'r plant sy'n mynychu ysgolion cynradd, canol ac uwchradd yng Nghymru (ym mhob cyfrwng iaith), mae'n debyg mai dim ond 41,705 sy'n siarad o leiaf rhywfaint o Gymraeg gartref (StatsCymru, 2020).⁶ Mae'r cyd-destun ysgol, felly, yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod plant o

⁵ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/pupilswelshclasses-by-localauthority-welshcategory>. Cyrchwyd 17.08.2021.

⁶ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/Welsh-Language/speakingwelshhomepupils5andover-by-year-sector-category>. Cyrchwyd 17.08.2021.

gefndiroedd di-Gymraeg yn dod i gysylltiad digonol â'r Gymraeg i'w galluogi i ystyried nodweddion gramadegol y Gymraeg ar wahân i'r mewnbwn a datblygu eu cymhwysedd a'u hyder i ddefnyddio'r iaith (Thomas a Gathercole, 2007; Thomas et al., 2014; Maratsos, 2000).

- 1.14 Am y rheswm hwnnw, mae darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion trochi neu gyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ideolegau lluniadaethol o gaffael dwyieithrwydd. Yn ôl safbwyntiau lluniadaethol ar ddysgu iaith (gweler Gathercole, 2017, er enghraifft) caiff iaith ei llywio gan fewnbwn yn bennaf a rhoddir pwyslais mawr ar ba mor aml y bydd unigolyn yn dod i gysylltiad ac yn ymgysylltu ag iaith benodol (gweler hefyd safbwyntiau seiliedig ar ddefnydd – Tomasello, 2000).
- 1.15 Mae nifer o astudiaethau wedi dangos bod pa mor aml y mae plant yn dod i gysylltiad ag iaith, fel iaith gyntaf ac fel ail iaith, yn effeithio ar eu hyfedredd yn yr iaith honno (Gathercole a Thomas, 2009; Thomas et al., 2014; Binks & Thomas, 2019), ac y gall diffyg mewnbwn digonol arwain at gaffael anghyflawn (Montrul, 2008).
- 1.16 Mae sicrhau cysylltiad digonol ag iaith yn ystod y Blynyddoedd Cynnar yn enwedig yn cynyddu cysylltiad cronol dros amser (Unsworth, 2013), ac mae'r pwyslais ar y Gymraeg yn y Blynyddoedd Cynnar yn cysylltu â'r dybiaeth hirsefydlog bod y broses o ddysgu iaith yn dilyn amserlen fiolegol ragddiffiniedig sy'n gysylltiedig â hyblygrwydd yr ymennydd, sy'n golygu bod y blynyddoedd cynnar yn gyfnod hynod o arwyddocaol ar gyfer dysgu iaith (Johnson a Newport, 1989; ond gweler Hakuta, Bialystok, a Wiley, 2003, er enghraifft, am safbwyntiau eraill). Felly, caiff trochi cynnar ei ystyried yn ffactor allweddol wrth hwyluso cymhwysedd yn yr iaith yn ddiweddarach, ac mae'n ymddangos mai yn ystod y cyfnod hwn ym mywyd plentyn y bydd dysgu iaith ar ei hawsaf.
- 1.17 Mae'r pryderon uniongyrchol am COVID-19, felly, yn ymwneud â'r lleihad sydyn yn amllder cysylltiad disgyblion â Chymraeg lafar naturiol, a'r graddau y mae disgyblion – sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn enwedig – wedi cael y cyfle, yr anogaeth a'r gefnogaeth i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg llafar eu hunain mewn ffyrdd ystyrllon. Mae'n debyg y gallai hyn beri mwy o bryder mewn perthynas â disgyblion y Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Derbyn, a Blynyddoedd 1 a 2), lle mae

cysylltiad cynnar â'r iaith yn helpu i feithrin y cymhwysedd a'r hyder sylfaenol sydd eu hangen ar blant er mwyn dechrau defnyddio'r iaith yn hyderus yn ddiweddarach, gan gyfrannu at nod Llywodraeth Cymru i greu siaradwyr Cymraeg gydol oes (Llywodraeth Cymru, 2017 - Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg). Fodd bynnag, gallai diffyg sgaffaldwaith ieithyddol, fel sydd i gael yn yr ystafell ddosbarth (drwy gyfoedion Cymraeg iaith gyntaf, adnoddau Cymraeg a/neu'r athro), effeithio hefyd ar ddisgyblion Cymraeg ail iaith hŷn sy'n gorfod gwneud cryn dipyn o waith annibynnol, mewn pynciau amrywiol, gan ddefnyddio taflenni gwaith, terminoleg a dogfennau sydd wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg. Mae hyn yn golygu y bydd y pandemig wedi effeithio ar bob plentyn, ni waeth beth fo'i oedran neu lefel addysg.

- 1.18 O ganlyniad, mae rhai o'r pryderon allweddol a dilys mewn perthynas ag arferion addysgu gartref plant yn ystod COVID-19 yn ymwneud â'r canlynol:
- diffyg cysylltiad â Chymraeg lafar naturiol;
 - y ffaith nad oedd angen cyfathrebu yn yr iaith mewn cartref di-Gymraeg;
 - cyfyngiadau ar allu athrawon i osod gwaith llafar a gweithgareddau grŵp sy'n hwyluso defnydd iaith wedi'i dargedu;
 - gallu/hyder rhieni/gwarcheidwaid di-Gymraeg i osod y gwaith ysgol a ddarparwyd ar gyfer eu plant os yw'r gwaith a'r adnoddau yn Gymraeg;
 - gallu rhieni/gwarcheidwaid di-Gymraeg i helpu (neu 'addysgu') eu plant wrth iddynt wneud y gwaith;
 - rhieni'n gofidio am yr addysg y gwnaethant ei dewis ar gyfer eu plentyn (plant).
- 1.19 Fodd bynnag, nid yw'r heriau hyn yn gwbl ddi-droi'n-ôl ar yr amod bod mesurau priodol yn cael eu rhoi ar waith. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn mabwysiadu model trochi lle daw plant i gysylltiad â'r Gymraeg 90% o'r amser i ddechrau yn ystod y Cyfnod Sylfaen, cyn symud yn aml tuag at 50-50% Cymraeg a Saesneg erbyn diwedd Blwyddyn 6. Felly, math o addysgu dwyieithog – nid unieithog – yw addysgu cyfrwng Cymraeg, a defnyddir dulliau addysgegol fel trawsieithu a dysgu seiliedig ar dasgau (Thomas, Apolloni a Parry, 2018; Fitzpatrick et al., 2018). Mewn rhannau o Gymru lle mai addysg cyfrwng Cymraeg yw'r unig fath o addysg

sydd ar gael, mae Llywodraeth Cymru'n ariannu Unedau Iaith Gymraeg sy'n rhoi profiad trochi dwys i hwyrddyfodiaid (plant sy'n cyrraedd Cymru yn 7 oed neu'n hŷn). Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi'r profiad dal i fyny angenrheidiol i blant er mwyn cael eu trochi'n llawn mewn addysg brif ffrwd. Yn ogystal, mae ffyrdd o gynyddu ymgysylltiad disgyblion â'r Gymraeg drwy ddefnyddio Saesneg – boed hynny gan y disgybl, yr athro a/neu'r rhiant – ond, ar hyn o bryd, ychydig a wyddom am y graddau y mae unrhyw fesurau lliniaru o'r fath ar gael neu'n hysbys i athrawon/rhieni/gwarcheidwaid neu'n cael eu defnyddio ganddynt, y graddau y mae'r negeseuon cefnogol priodol yn cael eu trosglwyddo er mwyn lleddfu pryderon rhieni/disgyblion a/neu athrawon am y mater, a'r graddau y mae cyd-destunau gwahanol yn dysgu gan ei gilydd (prif ffrwd ac Unedau Iaith). Rydym yn gwybod, fodd bynnag, fod gwerth cronol addysg Gymraeg yn yr hirdymor i blant o deuluoedd di-Gymraeg yn fwy na chost unrhyw darfu ar gysylltiad yn yr ystafell ddosbarth yn y tymor byr, ar yr amod bod mesurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith. Nod y prosiect oedd nodi pa fath o heriau a ddaeth i'r amlwg i deuluoedd ac athrawon yn ystod y cyfnodau pan fu'n rhaid i'r rhan fwyaf o ddisgyblion dderbyn eu haddysg gartref a'r mathau o strategaethau ac ymyriadau a ddefnyddiwyd i fynd i'r afael â'r heriau hynny.

Amcanion yr astudiaeth

- 1.20 Amcanion yr astudiaeth hon oedd nodi sut yr ymatebodd ysgolion yng Nghymru i'r heriau ieithyddol a gododd yn sgil COVID-19, er mwyn ceisio nodi'r prif rwystrau a wynebwyd, y cyfyngiadau a grëwyd gan y sefyllfa, ac enghreifftiau o ymarfer diddorol. Nod yr astudiaeth oedd adnabod a gwerthuso effeithiolrwydd canfyddedig a phosibl y ddarpariaeth a gynigiwyd ar y pryd, ac ystyried goblygiadau posibl y canfyddiadau er mwyn dysgu o'r sefyllfa bresennol fel y gellir datblygu argymhellion ar gyfer arferion dwyieithog arloesol sydd o fudd i ddysgwyr iaith yn y tymor hir ac yn llywio gwaith cynllunio polisiâu iaith, ar ôl COVID-19.

2. Methodoleg

Cynllun y gwaith ymchwil

- 2.1 Er mwyn cyflawni amcanion yr astudiaeth, o gofio'r amserlen dynn, y cynllun gwreiddiol oedd mabwysiadu *cynllun dulliau cymysg cydamserol* (Creswell a Clark, 2011), lle byddai data o holiaduron (meintiol/ansoddol) a chyfweliadau (ansoddol) yn cael eu casglu yn ystod un cam er mwyn nodi elfennau tebyg a gwahanol a phatrymau ymateb cyffredinol yn y data a ddarperir gan athrawon, rhieni, darlithwyr AGA a myfyrwyr AGA.
- 2.2 Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pwysau ychwanegol ar ysgolion a rhieni yn ystod amserlen yr astudiaeth hon, yn ogystal â'r pwysau ar staff SAU ac esblygiad y pandemig (gweler yr adran Cyfyngiadau, 2.49-2.56), gwnaethom addasu ein cynllun er mwyn defnyddio *dulliau cymysg esboniadol* (Creswell a Clark, 2011) mewn perthynas â data rhieni ac athrawon, ar ddau gam gwahanol: Cam 1, yn cynnwys casglu a dadansoddi data drwy holiaduron (ansoddol/meintiol), a Cham 2, yn cynnwys cyfweliadau dilynol er mwyn helpu i esbonio canfyddiadau Cam 1. O dan y cynllun hwn byddai modd samplu unigolion yn fwriadus ar gyfer y cyfweliadau dilynol yn seiliedig ar y patrymau data sy'n dod i'r amlwg. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pwysau ychwanegol ar ysgolion a rhieni nes i'r ysgolion ailagor ym mis Mawrth 2021, a'r sail ddata gyfoethog a gafwyd drwy'r holiadur, penderfynwyd nad oedd hi'n ymarferol cynnal rhagor o gyfweliadau ag athrawon a rhieni.
- 2.3 Yn lle hynny, gwnaethom drefnu cyfres o bortreadau byr (*vignettes*) ymhlith ymarferwyr a ddarparodd enghreifftiau o ymarfer diddorol i gefnogi rhai o ganfyddiadau'r astudiaeth. Caiff y rhain eu cyflwyno ar ddiwedd yr adroddiad (gweler Atodiad A).
- 2.4 Yn yr un modd, o gofio'r pwysau ychwanegol ar ddarlithwyr a myfyrwyr AGA ar y pryd, addaswyd y cynllun gwreiddiol er mwyn cynnal cyfres o gyfweliadau ag unigolion a grwpiau ffocws lle bo angen. Yn y cyfweliadau hyn cafwyd mewnwelediad i'r anawsterau a wynebwr wrth baratoi athrawon dan hyfforddiant ar gyfer yr her o gefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg disgyblion yn y cyd-destun addysgol presennol. Cafwyd mewnwelediad yn y cyfweliadau hyn hefyd i brofiad myfyrwyr o ddelio â'r heriau hyn ac enghreifftiau o ymarfer diddorol.

- 2.5 Cafodd y methodolegau arfaethedig a'r adnoddau casglu data ar gyfer pob cam casglu data eu cymeradwyo gan Fyrddau Moesegol Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, cyn i'r astudiaeth ddechrau.
- 2.6 Cafodd data ysgolion a rhieni/gwarcheidwaid⁷ eu casglu yn ystod tymor cyntaf blwyddyn ysgol 2020/21. Fel hyn, gallai athrawon a rhieni fyfyrion ar heriau'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud a myfyrion rhywfaint ar y cyfnod ail-addasu pan groesawodd yr ysgolion y disgyblion i gyd yn ôl i'r dosbarth. Roedd yr holiaduron ar gael i'w hateb hyd at fis Ionawr 2021. Cafodd staff a myfyrwyr AGA eu cyfweld yn ddiweddarach ym mis Mawrth 2021, fel y gallai'r myfyrwyr fyfyrion ar eu cyfnod ar leoliad mewn ysgol wrth ymateb i'r cwestiynau.

Holiaduron

- 2.7 Cafodd yr holiaduron i rieni ac athrawon eu datblygu gan y tîm ymchwil ac yna cawsant eu hadolygu gan aelodau enwebedig o ESTYN ac aelodau o Is-Grŵp Addysg Cyngor Partneriaeth y Gymraeg, Llywodraeth Cymru.
- 2.8 Cafodd yr holiadur i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ei lunio yn Gymraeg. Roedd yr holl holiaduron eraill ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel y gallai'r cyfranogwyr ddewis ym mha iaith yr hoffent ymateb.
- 2.9 Roedd yr holiaduron ar gael ar-lein ac roeddent yn cynnwys cyfuniad o gwestiynau ymateb caeedig a gynlluniwyd yn ofalus ac a oedd yn cynnwys opsiynau ymateb sgalar neu gategorigal, yn ogystal â chwestiynau penagored a oedd yn rhoi cyfle i gyfranogwyr ymhelaethu ar eu hymatebion.
- 2.10 Cafodd holiaduron cyffredinol ar gyfer athrawon a rhieni/gwarcheidwaid eu haddasu'n bwrpasol yn unol â chyfrwng iaith yr ysgol/unigolyn. Roedd yr holiaduron i athrawon a oedd yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn cynnwys 34 o gwestiynau gwahanol. Roedd yr holiaduron i athrawon a oedd yn addysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn cynnwys 35 o gwestiynau gwahanol.
- 2.11 Ym mhob achos, roedd yr holiaduron i athrawon yn casglu gwybodaeth gefndir berthnasol am yr ysgol (statws iaith swyddogol yr ysgol, polisiau iaith yr ysgol,

⁷ Er mai gwarcheidwaid plant oedd rhai o'r oedolion a ymatebodd i'r holiadur, gan na wnaethom ofyn am yr wybodaeth honno, byddwn yn defnyddio'r term 'rhiant' drwy gydol yr adroddiad hwn.

dulliau cyfathrebu â rhieni, ethos iaith, y defnydd o fentrau Cymraeg i helpu disgyblion i ddefnyddio a dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) ac am brofiadau'r athrawon (nifer y dosbarthiadau a addysgir ganddynt, blwyddyn ysgol y dosbarth, nifer y plant yn y dosbarth, cyfran y disgyblion yn y dosbarth o gefndir Cymraeg o gymharu â chyfran y disgyblion o gefndir di-Gymraeg, blynyddoedd yn y swydd, profiad blaenorol o addysgu ar-lein a chyfleoedd dysgu proffesiynol⁸).

- 2.12 Yn dilyn y cwestiynau cefndirol, roedd cyfres o gwestiynau a luniwyd yn benodol i ystyried amcanion penodol y prosiect hwn. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau am y trafodaethau roedd yr ysgol wedi'u cael ar y ffordd orau o gefnogi plant o gartrefi di-Gymraeg wrth iddynt wneud gwaith yn Gymraeg; arferion cyfathrebu â disgyblion a'u rhieni; pa gymorth a ddarparwyd ar gyfer rhieni; sut y cafodd gwaith ei osod ar gyfer plant o gefndiroedd ieithyddol gwahanol; pa fath o waith a osodwyd er mwyn helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg; pa mor aml y gosodwyd y gwaith hwn a sut yr ymatebodd y disgyblion iddo; sut aeth ysgolion ati i ddatblygu sgiliau siarad, ysgrifennu, darllen a deall Cymraeg; beth, yn eu barn nhw, oedd y model dysgu cyfunol delfrydol i gefnogi datblygiad deallusol ac ieithyddol disgyblion ac annog plant o gartrefi di-Gymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg; pa adnoddau Cymraeg oedd ar gael ac a gafodd eu gosod, a pha mor ddefnyddiol oedd y rhain yn eu barn nhw.
- 2.13 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, holwyd athrawon yn benodol am fentrau/cefnogaeth i rieni er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion fel pwnc ac annog eu plant i ddefnyddio Cymraeg. Gofynnwyd i'r athrawon hefyd a oeddent wedi sylwi ar unrhyw effeithiau hirdymor ar sgiliau Cymraeg (a Saesneg, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg) disgyblion, p'un a oedd gwahaniaethau amlwg yn sgiliau Cymraeg y rhai a addysgwyd gartref a'r rhai a barhaodd i gael eu haddysg yn yr Hybiau ysgol a ph'un a welwyd unrhyw wahaniaethau pan wnaeth y disgyblion ddychwelyd i'r ysgol o gymharu â phan fyddant yn dychwelyd i'r ysgol fel arfer ar ôl gwyliau'r haf. Mewn perthynas â'r cwestiynau hyn, gofynnwyd i'r athrawon a ydynt fel arfer yn defnyddio unrhyw strategaethau penodol i gefnogi'r disgyblion hynny a allai fod wedi datgysylltu wrth y Gymraeg dros wyliau'r haf pan fyddant yn

⁸ Roedd llawer o'r drafodaeth ynghylch dysgu proffesiynol yn cyfeirio at 'hyfforddiant'. Am y rheswm hwnnw, defnyddir y term 'hyfforddiant' drwy gydol yr adrannau canlyniadau.

dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi, a oeddent wedi rhoi rhywbeth penodol ar waith ar ôl iddynt dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfyngiadau symud cyntaf a pha gymorth oedd ar gael i ymdrin ag unrhyw gyfnodau eraill i ffwrdd o'r ysgol am fod angen hunanynysu ac ati. Gofynnwyd i'r athrawon beth fyddai'n hanfodol ei gynnwys mewn cyrsiau AGA yn eu barn nhw er mwyn paratoi athrawon dan hyfforddiant ac ANGau ar gyfer yr her o addysgu yn ystod pandemig. Yn olaf, gofynnwyd i'r athrawon a oedd rhieni wedi codi unrhyw bryderon am y Gymraeg a/neu eu gallu i gefnogi sgiliau Cymraeg eu plentyn ar unrhyw adeg yn ystod y pandemig.

- 2.14 Yn yr un modd, cafodd yr holiaduron cyffredinol i rieni eu haddasu'n bwrpasol yn unol â'u galluoedd ieithyddol eu hunain a ph'un a oedd eu plentyn/plant wedi'i gofrestru/eu cofrestru mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog neu gyfrwng Saesneg. Roedd yr holiaduron yn cynnwys 34 o gwestiynau gyda chyfres ychwanegol o 21 o ddatganiadau ar raddfa debyg i raddfa Likert ar gyfer rhieni â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Yn yr un modd â'r holiaduron i athrawon, ar ddechrau pob holiadur roedd cyfres o gwestiynau yn gofyn am wybodaeth gefndir fel oedran, rhyw, sgiliau iaith, profiad addysgu, statws gwaith a lefel addysg uchaf yr oedolion yn y cartref a pha oedolion oedd yn ymwneud ag addysgu gartref; oedran y plentyn/plant yn y cartref; p'un a oedd eu plentyn/plant yn cael prydau ysgol am ddim, ar y gofrestr ADY, neu'n dilyn rhaglen Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy; a thrwy ba gyfrwng ieithyddol roedd y plentyn/plant yn dysgu yn yr ysgol. Yna, roedd cyfres o gwestiynau a luniwyd yn benodol i fynd i'r afael ag amcanion y gwaith ymchwil hwn. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau am sut roedd ysgolion wedi cyfathrebu â rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud, pa mor aml, ac ym mha iaith; p'un a gafwyd unrhyw sgysiau penodol ynghylch yr heriau sy'n gysylltiedig ag addysgu gartref gyda gwaith a oedd wedi'i osod yn Gymraeg; pa gymorth a ddarparwyd a pha gymorth a fyddai wedi cael ei werthfawrogi; natur gohebiaeth ddwyieithog; pa fath o waith a osodwyd a pha fathau o adnoddau a oedd gan deuluoedd yn barod neu a gafodd eu darparu gan ysgolion; faint o'r gwaith a osodwyd a argraffwyd gan y rhieni; pa gymorth arall y byddent wedi'i werthfawrogi; a ph'un a oedd gallu eu plentyn wedi gwaethygu neu wella yn ystod y cyfyngiadau symud, yn eu barn nhw.

- 2.15 O gofio cylch gwaith comisiynu'r prosiect hwn a'r cyfyngiadau amser, mae'r data o holiaduron y rhieni yn seiliedig ar ymatebion i'r cwestiynau caeedig. Nid oedd yn ymarferol cynnal dadansoddiad manwl o'r data ansoddol ar y pryd. Fodd bynnag, cafodd ymatebion i'r cwestiynau penagored eu cynnwys mewn dadansoddiad thematig, a gynhaliwyd gan ddefnyddio theori luniadaethol, a chafodd y naw prif thema a ddeilliodd o'r dadansoddiad hwnnw eu defnyddio i brofi a chefnogi'r patrymau a welwyd yn y data meintiol. Gyda'i gilydd, mae'r data a ddadansoddiwyd yn y ddwy set ddata hyn – meintiol ac ansoddol – yn cynnig sail dystiolaeth gadarn er mwyn datblygu argymhellion ar gyfer y dyfodol.
- 2.16 Mae'n werth rhybuddio, wrth ddehongli canlyniadau'r dadansoddiad, fod angen ystyried llawer o newidynnau cyd-destunol. Mae'r rhain yn cynnwys (ymhlith eraill) cywirdeb yr atgofion, amwysedd ymatebion, ymatebion sy'n gymdeithasol dderbyniol, gwahaniaethau mewn profiadau yn ystod gwahanol gamau a chyfnodau cyfyngiadau symud ac epidemioleg COVID-19 mewn lleoliadau daearyddol.

Cyfweliadau lled-strwythuredig

- 2.17 Mabwysiadwyd cynllun cyfweld lled-strwythuredig ar gyfer y cyfweliadau ag unigolion a'r cyfweliadau â grwpiau ffocws o ddarlithwyr AGA a myfyrwyr AGA. Defnyddiwyd dull lled-strwythuredig er mwyn sicrhau cysondeb yng nghwestiynau'r cyfwelwyr yn y tri lleoliad gwahanol (Aberystwyth, Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant). Er mwyn sicrhau cysondeb ymhellach, cafodd cyfres o bromptiau a gynlluniwyd (McCracken, 1988) eu cymeradwyo ymlaen llaw a'u cynnwys yn y protocol cyfweld. Mae promptiau o'r fath yn ddefnyddiol er mwyn annog ymatebion ychwanegol/penodol ac, er y gallant helpu i sicrhau cysondeb rhwng cyfwelwyr unigol, nid ydynt wedi'u sgriptio, sy'n golygu eu bod yn cynnig rhywfaint o hyblygrwydd (Leech, 2002).
- 2.18 Cafodd y grwpiau ffocws lled-strwythuredig ar gyfer darlithwyr AGA a myfyrwyr AGA eu datblygu a'u cynnal gan is-grŵp o'r tîm a oedd yn cynnwys arbenigwyr AGA o bob un o'r tair prifysgol (Aberystwyth, Bangor a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant).

- 2.19 Dilynwyd model tebyg wrth gynnal y cyfweiliadau lled-strwythuredig â'r samplau gwahanol (darlithwyr AGA a myfyrwyr AGA). Roedd y model yn cynnwys cyfres o gwestiynau demograffig, cefndirol, ac yna cyfres o gwestiynau penagored, penodol.
- 2.20 Ar gyfer darlithwyr AGA, canolbwyntiai'r cwestiynau hyn ar ddysgu proffesiynol (y cyfeirir ato fel 'hyfforddiant' mewn llawer o'r ymatebion a gyflwynir yn y canlyniadau) a sut roeddent yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y realiti o addysgu ar-lein a mynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n gysylltiedig ag addysgu plant o gartrefi di-Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gofynnwyd i'r darlithwyr AGA sut roeddent yn paratoi myfyrwyr AGA ar gyfer yr her o (i) gosod gwaith, (ii) cysylltu â'u dosbarth, (iii) ymateb i waith y disgyblion, a (iv) rhoi adborth. Edrychai cyfres arall o gwestiynau ar yr arweiniad roeddent yn ei gynnig mewn perthynas â'r mathau o dasgau Cymraeg llafar y gallent eu gosod, y ffyrdd amrywiol y gallai myfyrwyr roi adborth dwyieithog ar waith y disgyblion, a sut i helpu pob disgybl, yn enwedig disgyblion o gartrefi di-Gymraeg, i ymdrin ag unrhyw waith a osodwyd yn Gymraeg.
- 2.21 Ar gyfer myfyrwyr AGA, canolbwyntiai'r cwestiynau hyn ar yr hyfforddiant roeddent wedi'i gael yn y brifysgol a sut roeddent wedi ymdrin â sefyllfaoedd amrywiol yn ystod eu lleoliad. Gofynnwyd i'r myfyrwyr sut roedd y brifysgol wedi helpu i'w paratoi ar gyfer (i) cysylltu â'u dosbarth, (ii) gosod gwaith y byddai disgyblion yn ei wneud gartref, (iii) cyflwyno gwersi'n fyw a recordio gwersi ymlaen llaw, a gofynnwyd cyfres o gwestiynau am (iv) sut roedd disgyblion yn ymateb i'r gwaith a osodwyd, (v) faint o dasgau llafar y maent yn eu gosod ar gyfer eu disgyblion, (vi) pa heriau sy'n gysylltiedig â gosod tasgau llafar, (vii) y dulliau a'r iaith y maent yn eu defnyddio i roi adborth ar waith disgyblion, a ph'un a oeddent yn targedu'r adborth hwnnw at y disgybl neu'r disgybl a'r rhiant, (viii) sut roeddent yn olrhain cynnydd disgyblion, a (ix) p'un a oeddent yn teimlo eu bod yn gallu cefnogi pob disgybl, yn enwedig y rhai o gefndiroedd di-Gymraeg, yn effeithiol.
- 2.22 Cynhaliwyd pob cyfweiliad lled-strwythuredig ar-lein ar Teams ac fe'u recordiwyd er mwyn gallu trawsgrifio'r cynnwys a chodio a dadansoddi'r data yn hwylus ar ôl y sesiwn.
- 2.23 Cafodd data ansoddol eu codio gan ddefnyddio ATLAS.ti (fersiwn 9) – meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer codio data o ymchwil ansoddol – er mwyn cynhyrchu

adroddiadau o godau a wnaed â llaw a chodau awtomatig. Cafodd prosesau codio cychwynnol, codio â ffocws a chategoreiddio eu cymhwysio i'r data, gan ddefnyddio Theori Luniadaethol, er mwyn grwpio unrhyw themâu a oedd yn dod i'r amlwg a'u rhannu yn brif themâu ac is-themâu a lleihau'r risg o duedd anfwriadol neu gynhenid yn deillio o safbwyntiau, bwriadau, gwybodaeth flaenorol neu ddiwylliant ymchwilwyr unigol wrth iddynt ddehongli'r data meintiol (Charmaz, 2020).

- 2.24 Cynhaliwyd pob cyfweiliad yn Gymraeg a chawsant eu trawsgrifio'n llawn gan ymchwilydd Cymraeg iaith gyntaf, profiadol.

Y cyfranogwyr

- 2.25 Cafodd yr holiaduron ar gyfer athrawon a rhieni eu rhannu â'r ysgolion yn y rhwydweithiau partneriaeth ysgolion a ddatblygwyd ym mhob un o'r tair prifysgol a oedd ynghlwm wrth yr astudiaeth (Aberystwyth, Bangor, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant). Cafodd taflen wybodaeth am yr astudiaeth a chyfres o ddolenni i fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r holiaduron a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer athrawon/rhieni disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (cynradd ac uwchradd) ac athrawon/rhieni disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (cynradd ac uwchradd) eu hanfon i bob ysgol er mwyn eu rhannu ymhlith eu staff a rhieni. Roedd yr athrawon eu hunain yn nodi yn yr holiadur a oeddent yn gweithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol ddwyieithog neu ysgol cyfrwng Saesneg. Yn yr un modd, roedd rhieni yn nodi yn yr holiadur a oedd eu plentyn/plant wedi'i gofrestru/eu cofrestru mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, ysgol ddwyieithog neu ysgol cyfrwng Saesneg.⁹

Athrawon

- 2.26 Ymatebodd 98 o addysgwyr¹⁰ i'r holiadur. Daeth tua hanner o'r ymatebion gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg (54%), a daeth y 46% arall gan

⁹ Roedd y categorïau hyn wedi'u seilio'n fras ar y system categoreiddio fwy cymhleth a ddefnyddir ar hyn o bryd: (gweler <https://lyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/diffinio-ysgolion-yn-%C3%B4l-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg.pdf> cyrchwyd 16.8.2021) ond roeddent wedi'u symleiddio er mwyn gwneud pethau'n haws i'r rhieni.

¹⁰ Rydym yn defnyddio'r term 'athro' yn hytrach nag 'addysgwr' drwy gydol yr adroddiad, oherwydd darparwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan unigolion a oedd yn athrawon yn ystod y pandemig. Er bod nifer bach o'r ymatebwyr yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg yn cyflawni rolau rheoli, mae'n aneglur p'un a oedd yr unigolion hyn hefyd yn gyfrifol am grwpiau addysgu. Fodd bynnag, am i bob un ohonynt ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, caiff eu hymatebion eu cyflwyno gyda'i gilydd.

athrawon mewn ysgolion dwyieithog lle defnyddiwyd y Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg (12%) neu ysgolion lle mai Cymraeg oedd prif iaith yr addysg (34%).

- 2.27 Roedd y mwyafrif o'r athrawon yn gweithio yn y sector cynradd (65%), ac mae'n debygol bod hynny o ganlyniad i'r nifer uchel o ymatebion a gafwyd gan athrawon yn y sector cynradd cyfrwng Saesneg (85% o ymatebion y sector cyfrwng Saesneg). Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg (55%) a dwyieithog (58%) yn gweithio yn y sector uwchradd (55%).¹¹

Tabl 2.1: Sampl Athrawon (Data Holiaduron)

	Y math o Ysgol			Cyfanswm
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg	
Cynradd	15 (45%)	5 (42%)	45 (85%)	65 (66%)
Uwchradd	18 (55%)	7 (58%)	8 (15%)	33 (34%)
Cyfanswm	33 (34%)	12 (12%)	53 (54%)	98 (100%)

- 2.28 Roedd y sampl yn cynnwys unigolion a oedd wedi bod yn addysgu am gyfnodau amrywiol, gan amrywio o'r rhai a oedd yn eu blynyddoedd cyntaf yn y proffesiwn i'r rhai â mwy nag 20 mlynedd o wasanaeth. Roedd hyn wedi ein galluogi i asesu barn athrawon a oedd yn gymharol newydd i'r proffesiwn yn ogystal â'r rhai sydd wedi bod yn y proffesiwn am nifer o flynyddoedd.

Tabl 2.2: Blynyddoedd gwasanaeth

	Y math o Ysgol			Cyfanswm
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg	
0-5	2 (6%)	1 (8%)	4 (8%)	7
6-10	13 (39%)	1 (8%)	8 (15%)	22
11-15	4 (12%)	2 (17%)	12 (23%)	18
16-20	3 (9%)	3 (25%)	12 (23%)	18
20-25	8 (24%)	4 (33%)	11 (20%)	23
26+	3 (9%)	1 (8%)	6 (11%)	10

¹¹ Roedd amserlen y prosiect yn golygu nad oedd modd codio pob ymateb penagored i ddangos p'un a oedd yn perthyn i athro ysgol gynradd neu uwchradd neu riant oedd â phlentyn mewn ysgol gynradd neu uwchradd (neu'r ddwy fath o ysgol). Dim ond yn yr adran Canlyniadau, lle bo hynny'n bosibl, y cyfeirir at ysgolion cynradd ac uwchradd.

Cyfanswm:	33	12	53	98
2.29	Yn y sector cynradd, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (ac eithrio aelodau o dîm rheoli'r ysgol) yn gyfrifol am un dosbarth o ddisgyblion fel arfer. Yn y sector uwchradd, roedd yr athro yn gyfrifol am rhwng 2 a 35 o ddosbarthiadau.			
2.30	Roedd cefndir ieithyddol y disgyblion yn y dosbarthiadau a addysgwyd gan yr athrawon a ymatebodd i'r holiadur yn gymysg. Ychydig iawn o athrawon (21/329 = 6% o'r sampl gyfan) a ddywedodd eu bod yn addysgu dosbarthiadau lle roedd mwy na 70% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg neu gartrefi lle roedd rhywfaint o Gymraeg yn cael ei siarad. Dywedodd 45% arall (148/329) eu bod yn addysgu dosbarthiadau lle roedd rhwng 1 a 40% o'r disgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg neu gartrefi lle roedd rhywfaint o Gymraeg yn cael ei siarad.			
2.31	Yn ddiddorol, at ddibenion yr astudiaeth hon, dim ond 3% (5/169) o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddywedodd eu bod yn addysgu dosbarthiadau lle roedd dros 70% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle roedd o leiaf rywfaint o Gymraeg yn cael ei siarad. Roedd 8% arall (14/169) yn addysgu dosbarthiadau lle roedd 41-70% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle roedd o leiaf rywfaint o Gymraeg yn cael ei siarad, ac roedd yr 88% arall (148/169) yn addysgu dosbarthiadau lle roedd 1-40% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle roedd o leiaf rywfaint o Gymraeg yn cael ei siarad. Yn yr un modd, dim ond dau athro mewn ysgolion dwyieithog a ddywedodd eu bod yn addysgu dosbarthiadau lle roedd dros 70% o'r disgyblion yn clywed rhywfaint o Gymraeg yn y cartref.			
2.32	Nid oedd gan y mwyafrif o'r athrawon unrhyw brofiad o addysgu ar-lein cyn i gyfyngiadau symud COVID-19 ddod i rym (gweler Tabl 2.3). O'r rheini oedd â rhywfaint o brofiad blaenorol, dywedodd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod wedi defnyddio <i>Google Classrooms</i> a <i>Hwb</i> , weithiau am fod eu pwnc yn cael ei addysgu mewn sawl lleoliad ond ei ffrydio o un safle, ac weithiau at ddibenion adolygu, marcio a/neu osod gwaith cartref. Nododd un ymatebydd fod yr ysgol wedi bod yn cysylltu ag Athrawon Bro drwy Teams/Skype ers nifer o flynyddoedd, a soniodd athro arall ei fod wedi ymgymryd ag addysgu ar-lein ei hun drwy gyrsiau'r Brifysgol Agored. Dywedodd ymatebydd arall fod sesiynau tiwtora preifat wedi bod yn cael eu cynnal ar Zoom ers dechrau'r pandemig.			

Tabl 2.3: Cyfran yr athrawon oedd â phrofiad o addysgu ar-lein cyn y cyfyngiadau symud

	Y math o Ysgol		
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg
Ie	21% (n=7)	42% (n=5)	9% (n=5)
Na	79% (n=26)	58% (n=7)	91% (n=48)

2.33 Roedd cyfrannau'r athrawon nad oeddent wedi cael hyfforddiant cyn y cyfyngiadau symud yn gyson uwch na'r rhai a oedd wedi cael hyfforddiant yn y sector cynradd (86% [57/66] o gymharu â 26% [9/35]) a'r sector uwchradd (74% [57/66] o gymharu â 14% [9/66]).

2.34 Er nad oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr brofiad o addysgu a dysgu ar-lein cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, roedd mwy o staff mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wedi cael hyfforddiant ar ddysgu ar-lein cyn COVID-19 (38%) nag oedd yn addysgu ar-lein yn weithredol (21%) (gweler Tablau 2.3 a 2.4). Mewn ysgolion dwyieithog a chyfrwng Saesneg, roedd cyfrannau tebyg o staff wedi cael profiad o addysgu ar-lein cyn COVID-19 ac wedi cael hyfforddiant ar hynny.

Tabl 2.4: Cyfran yr athrawon a gafodd hyfforddiant ar addysgu ar-lein cyn y cyfyngiadau symud

	Y math o Ysgol		
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg
Ie	38% (n=16)	42% (n=5)	6% (n=3)
Na	62% (n=26)	58% (n=7)	94% (n=50)

2.35 Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd cyfran yr athrawon a oedd wedi cael hyfforddiant yn uwch yn y sector uwchradd (56% [10/18]) nag yn y sector cynradd (40% [6/15]). Gwelwyd yr un duedd mewn ysgolion dwyieithog (74% [5/7] yn y sector uwchradd o gymharu â 0% yn y sector cynradd). Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd cyfran yr athrawon a oedd wedi cael hyfforddiant yn isel yn y ddau sector (14% [1/7]) yn y sector uwchradd a 4% [2/45] yn y sector cynradd).

2.36 Roedd llawer o'r hyfforddiant hwn yn ymwneud â sut i ddefnyddio llwyfannau gwahanol ac fe'i darparwyd gan gydweithwyr yn bennaf (weithiau gan staff o'r adran TG, weithiau gan y pennaeth), ac weithiau gan gonsortia lleol yn ystod sesiynau

hyfforddiant mewn swydd. Fodd bynnag, ni ddywedodd unrhyw un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio llwyfannau o'r fath at ddibenion addysgegol, dim ond yr agweddau ymarferol.

- 2.37 Yn ystod y cyfyngiadau symud, fel y gellid disgwyl, cafodd pawb fwy o hyfforddiant ar addysgu ar-lein:

Tabl 2.5: Cyfran yr athrawon a gafodd hyfforddiant ar addysgu ar-lein yn ystod y cyfyngiadau symud

	Y math o Ysgol		
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg
Ie	58% (n=19)	67% (n=8)	40% (n=21)
Na	42% (n=26)	33% (n=4)	60% (n=32)

- 2.38 Er bod y cynnydd yn y gyfran yn galonogol, mae'r ffigurau'n awgrymu **na** chafodd 56% (62/110) o staff unrhyw hyfforddiant atodol ar yr agwedd ar-lein ar addysgu yn ystod y cyfyngiadau symud. Unwaith eto, roedd y math o hyfforddiant a gafwyd yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r llwyfannau amrywiol yn hytrach na thrafod sut y gellir defnyddio'r nodweddion hynny at ddibenion addysgegol. Felly, roedd athrawon yn amhrofiadol ym maes addysgu ar-lein i raddau helaeth cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym, ac roedd hyfforddiant yn ystod y cyfyngiadau symud yn gymharol brin. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddehongli canlyniadau'r astudiaeth hon.

Rhieni

- 2.39 Ymatebodd 536 o rieni i'r holiadur. Roedd pob person a gwblhaodd holiadur wedi ymateb ar ran yr uned deuluol. Roedd pob uned deuluol yn cynnwys hyd at chwe oedolyn unigol/brodyr a chwiorydd ychwanegol, gydag ystodau oedran, statws gwaith a chyraeddiadau addysgol amrywiol, fel y dangosir yn Nhablau 2.6, 2.7 a 2.8 isod:

Tabl 2.6: Oedran yr oedolion ar bob aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)

	Oedran				
	<25 oed	26-36 oed	36-45 oed	46-55 oed	55+ oed
Oedolyn 1 (n=526)	3% (n=17)	15% (n=79)	44% (n=231)	31% (n=161)	7% (n=38)

Oedolyn 2 (n=468)	3% (n=13)	15% (n=70)	40% (n=188)	36% (n=167)	6% (n=30)
Oedolyn 3 (n=74)	70% (n=52)	8% (n=6)	4% (n=3)	11% (n=8)	7% (n=5)
Oedolyn 4 (n=26)	73% (n=19)	15% (n=4)	-	8% (n=2)	4% (n=1)
Oedolyn 5 (n=8)	75% (n=6)	13% (n=1)	-	13% (n=1)	-
Oedolyn 6 (n=3)	66% (n=2)	33% (n=1)	-	-	-

Tabl 2.7: Statws gwaith pob oedolyn ar bob aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)

	Statws Gwaith				
	Llawn amser	Rhan amser	Ffyrlo	Ddim yn gweithio	Arall
Oedolyn 1 (n=534)	59% (n=314)	13% (n=72)	9% (n=49)	11% (n=58)	8% (n=41)
Oedolyn 2 (n=468)	57% (n=266)	15% (n=72)	7% (n=33)	12% (n=58)	8% (n=39)
Oedolyn 3 (n=70)	30% (n=21)	11% (n=8)	16% (n=11)	20% (n=14)	23% (n=16)
Oedolyn 4 (n=21)	29% (n=6)	5% (n=1)	14% (n=3)	24% (n=5)	29% (n=6)
Oedolyn 5 (n=6)	33% (n=2)	-	33% (n=2)	-	33% (n=2)
Oedolyn 6 (n=3)	33% (n=1)	33% (n=1)	-	-	33% (n=1)

Tabl 2.8: Lefelau addysg uchaf yr oedolion ar bob aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)

	Lefel Addysg Uchaf a Gyflawnwyd				
	TGAU/NVQ	Safon Uwch	Diploma/gradd	Ôl-raddedig	Arall
Oedolyn 1 (n=530)	29% (n=156)	10% (n=51)	41% (n=216)	12% (n=64)	8% (n=43)
Oedolyn 2 (n=453)	30% (n=136)	11% (n=49)	42% (n=190)	11% (n=49)	6% (n=29)

Oedolyn 5 (n=68)	35% (n=24)	32% (n=22)	21% (n=14)	3% (n=2)	9% (n=6)
Oedolyn 4 (n=16)	56% (n=9)	19% (n=3)	6% (n=1)	6% (n=1)	13% (n=2)
Oedolyn 5 (n=4)	50% (n=2)	25% (n=1)	-	-	25% (n=1)
Oedolyn 6 (n=2)	100% (n=2)	-	-	-	-

- 2.40 Fel y gellir gweld yn Nhablau 2.6, 2.7 a 2.8, roedd mwyafrif yr oedolion a nodwyd fel Oedolyn 1 neu Oedolyn 2 yn yr ystod oedran 36-55 oed, yn gweithio'n llawn amser, ac wedi cael addysg hyd at lefel diploma/gradd. Roedd mwyafrif yr oedolion ychwanegol yn perthyn i'r categori <25 oed a chofnodwyd 'ddim yn gweithio' neu 'arall' ar gyfer llawer ohonynt. Ar gyfer y rhai a ddewisodd 'arall', nodwyd 'myfyriwr' ac 'yn y brifysgol' fel rhesymau mewn 26 o achosion, sy'n awgrymu ei bod yn debygol mai brodyr neu chwiorydd hŷn oedd llawer o'r 'oedolion ychwanegol' hyn. Cefnogir hyn gan y ffigurau yn Nhabl 2.8 sy'n dangos cyfrannau uwch o Oedolion 4-6 ar y lefel 'TGAU/NVQ', ac Oedolion 3-5 yn y categori 'Safon Uwch'.
- 2.41 Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, nid oedd mwy na dau oedolyn yn addysgu unrhyw blant/plentyn gartref, gydag un oedolyn yn ymwneud â gwaith ysgol y plant mewn 49% o aelwydydd (n=254) a dau oedolyn yn cyfrannu mewn 48% o aelwydydd (n=250). Yn y 2% o aelwydydd eraill (n=13) roedd tri oedolyn yn cyfrannu at y gwaith ysgol, ac roedd pedwar oedolyn yn cyfrannu at yr addysgu yn yr 1% o aelwydydd a oedd yn weddill (n=2). Mae'r data a gyflwynwyd gan Oedolyn 1 ac Oedolyn 2 yn ganolog felly i'r cwestiynau a ofynnir yn yr astudiaeth hon.
- 2.42 Roedd y sampl yn gymharol gytbwys o ran nifer y dynion a menywod oedd ymhlith yr oedolion yn y cartref. Gan dybio y cafodd mwyafrif yr holiaduron eu cwblhau gan Oedolyn 1, caiff llais dynion a menywod ei gynrychioli'n gymharol gyfartal yn y data:

Tabl 2.9: Rhywedd yr oedolion ar yr aelwyd

Rhywedd		
Gwryw	Benyw	Gwell gennyf beidio â dweud

Oedolyn 1 (n=532)	53% (n=281)	47% (n=251)	-
Oedolyn 2 (n=469)	41% (n=190)	59% (n=279)	-
Oedolyn 3 (n=76)	47% (n=36)	51% (n=39)	1% (n=1)
Oedolyn 4 (n=27)	30% (n=8)	70% (n=19)	-
Oedolyn 5 (n=8)	50% (n=4)	50% (n=4)	-
Oedolyn 6 (n=3)	-	100% (n=3)	-

2.43 O safbwynt sgiliau Cymraeg, er bod gan gyfran uchel o'r sampl sgiliau L1 (Oedolyn 1: 31%, n=165; Oedolyn 2: 25%, n=114) cofnodwyd bod gan gyfran sylweddol o oedolion rywfaint o Gymraeg (Oedolyn 1: 24%, n=129; Oedolyn 2: 23%, n=111) neu fawr ddim Cymraeg (Oedolyn 1: 20%, n=108; Oedolyn 2: 23%, n=108). Dim ond 87 o oedolion (68 Oedolyn 1 a 9 Oedolyn 2) a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg:

Tabl 2.10: Sgiliau Cymraeg yr oedolion ar yr aelwyd (hyd at 6 fesul aelwyd)

	Sgiliau Cymraeg				
	L1 Cymraeg	L2 Cymraeg	Rhywfaint o Gymraeg	Ychydig iawn o Gymraeg	Dim Cymraeg
Oedolyn 1 (n=531)	31% (n=165)	11% (n=61)	24% (n=129)	20% (n=108)	13% (n=68)
Oedolyn 2 (n=465)	25% (n=114)	16% (n=73)	24% (n=111)	23% (n=17)	13% (n=9)
Oedolyn 3 (n=72)	31% (n=22)	14% (n=10)	19% (n=14)	24% (n=17)	13% (n=9)
Oedolyn 4 (n=19)	42% (n=8)	-	11% (n=2)	42% (n=8)	5% (n=1)
Oedolyn 5 (n=7)	-	29% (n=2)	29% (n=2)	43% (n=3)	-
Oedolyn 6 (n=3)	66% (n=2)	-	-	33% (n=1)	-

2.44 Mewn llawer o aelwydydd (n=513) roedd mwy nag un plentyn yn cael ei addysgu gartref. Roedd gan y mwyafrif o'r rhain ddau blentyn (n=371), ac roedd gan 112 dri phlentyn, roedd gan 21 bedwar plentyn, roedd gan wyth aelwyd bum plentyn ac

roedd gan un aelwyd chwe phlentyn. Roedd gan 163 o aelwydydd un plentyn a oedd yn cael ei addysgu gartref. Roedd mwyafrif y plant rhwng 8 a 14 oed, ond roedd nifer sylweddol hefyd yn y categori 2 i 7 oed a'r categori 15 i 16 oed:

Tabl 2.11: Nifer ac oedran y plant ar bob aelwyd

	<3 oed	3-7 oed	8-11 oed	12-14 oed	15-16 oed	17-18 oed
Plentyn 1 (n=534)	1% (n=8)	15% (n=79)	22% (n=115)	29% (n=156)	23% (n=122)	10% (n=54)
Plentyn 2 (n=371)	4% (n=16)	24% (n=88)	33% (n=122)	28% (n=105)	9% (n=33)	2% (n=7)
Plentyn 3 (n=112)	11% (n=12)	38% (n=43)	32% (n=36)	12% (n=13)	6% (n=7)	1% (n=1)
Plentyn 4 (n=21)	14% (n=3)	38% (n=8)	24% (n=5)	5% (n=1)	14% (n=3)	5% (n=1)
Plentyn 5 (n=8)	38% (n=3)	38% (n=3)	12% (n=1)	-	12% (n=1)	-
Plentyn 6 (n=1)	-	100% (n=1)	-	-	-	-

- 2.45 O'r 981 o blant a oedd yn byw ar yr aelwydydd amrywiol y darparwyd setiau data cyflawn ar eu cyfer (h.y. y rhai a gafodd eu cynnwys mewn unrhyw waith dadansoddi), roedd y mwyafrif yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg (65% = 634/981; 50% Cynradd, 50% Uwchradd), gyda 14% (n=137; 36% Cynradd, 64% Uwchradd) yn mynychu ysgolion dwyieithog a 21% (n= 210) yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg (40% Cynradd, 60% Uwchradd).
- 2.46 Fodd bynnag, gan fod gan lawer o aelwydydd fwy nag un plentyn, gyda phob plentyn yn mynychu ysgolion gwahanol, a oedd yn aml yn defnyddio arferion ieithyddol gwahanol a/neu gyfryngau iaith gwahanol ar gyfer addysgu, caiff y data eu dadansoddi yn unol â chanfyddiadau rhieni oedd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg, rhieni Cymraeg oedd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a rhieni di-Gymraeg oedd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg. Caiff y tri grŵp hyn eu cynrychioli yn y dadansoddiadau isod fel 'Rhiant CS', 'Rhiant CC: Cymraeg' a 'Rhiant CC: di-Gymraeg' yn y drefn honno.

- 2.47 Dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni eu bod yn berchen ar argraffydd (417 'oes', 108 'nac oes', 7 'arall'), ac nid oedd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfrannau'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt neu nad oedd ganddynt argraffydd yn y tri grŵp ($\chi^2(6, N=534) = 6.61, p > .05$). Er i'r rhan fwyaf ddweud eu bod yn berchen ar argraffydd, mae'n bosibl bod y ffaith bod 108 o deuluoedd heb argraffydd wedi dylanwadu ar eu gallu i ymgysylltu ag agweddau ar y gwaith a oedd yn galw am wneud copïau caled. Yn ogystal, dywedodd y rhan fwyaf o'r rhieni bod ganddynt gysylltiad digonol â'r rhyngwyd i allu cael gafael ar yr adnoddau a oedd ar gael (430 'oes', 80 'weithiau', 19 'nac oes'), ac nid oedd gwahaniaethau sylweddol yng nghyfrannau'r ymatebwyr a ddywedodd fod ganddynt gysylltiad digonol bob amser, weithiau neu ddim o gwbl yn y tri grŵp ($\chi^2(6, N=534) = 4.53, p > .05$). Fodd bynnag, roedd 108 o deuluoedd nad oeddent yn gallu argraffu adnoddau ar gyfer eu plant, a oedd wedi dylanwadu ar eu gallu i addysgu gartref mewn ffyrdd amrywiol (gweler adran 4 isod).
- 2.48 Yn olaf, dim ond cyfran fach o aelwydydd oedd â phlant a oedd naill ai'n dilyn cynllun Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (36/529=7%), ar y gofrestr ADY (43/526=8%), neu'n cael prydau ysgol am ddim (44/533=8%). Nid oedd unrhyw wahaniaethau yn y ffigurau rhwng y tri grŵp iaith rhieni o ran cynlluniau Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy ($\chi^2(4, N=534) = 4.64, p > .05$) nac ADY ($\chi^2(4, N=534) = 4.1, p > .05$). Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth sylweddol o ran prydau ysgol am ddim ($\chi^2(6, N=534) = 29.98, p < .001$), gyda phlant y mwyafrif o'r rheini a oedd yn cael prydau ysgol am ddim (n=27) yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg. Er bod y niferoedd yn isel iawn, dylid ystyried y gwahaniaeth hwn wrth ddehongli unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau yn y dadansoddiadau.

Cyfyngiadau

- 2.49 Er bod yr astudiaeth hon yn darparu sail ddata gyfoethog er mwyn llunio casgliadau cychwynnol a chynnig argymhellion ar gyfer y dyfodol, mae yna rai cyfyngiadau y dylid eu hystyried wrth ddehongli'r canlyniadau. Amlinellir y cyfyngiadau hyn isod.

Samplu

- 2.50 Roedd y data yn gyfyngedig i brofiadau ysgolion a theuluoedd mewn tair set o rwydweithiau ysgolion SAU. Er bod y rwydweithiau hyn yn cwmpasu tair ardal ddaearyddol fras yng Nghymru (gogledd – CaBan; canolbarth – Prifysgol Aberystwyth; de – Prifysgol Y Drindod Dewi Sant), ni chafodd ysgolion y tu allan i'r rwydweithiau hyn eu gwahodd i gymryd rhan.
- 2.51 Yn yr un modd, roedd profiadau darlithwyr prifysgolion ac athrawon dan hyfforddiant ar gyrsiau AGA wedi'u cyfyngu i'r tri SAU. Ni chaiff profiadau'r rhai a oedd yn dilyn neu'n addysgu cyrsiau AGA mewn SAUau eraill eu cynnwys yn yr astudiaeth hon.
- 2.52 Oherwydd amseriad y prosiect, a'r ffaith bod y prosiect hwn yn cael ei gynnal ar yr un pryd â phrosiectau COVID-19 eraill a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, roedd y cyfraddau ymateb i'r holiaduron yn isel. Felly, dylai canlyniadau'r astudiaeth hon, a ddaeth i law gan 98 o athrawon, 536 o rieni, 6 darlithydd ac 18 o athrawon dan hyfforddiant, gael eu hystyried fel sampl o ymatebion posibl, ac ni ddylid ystyried eu bod yn gynrychioliadol o'r profiad cyfan yn ystod y cyfnod hwn.

Cyfyngiadau dylunio o ganlyniad i COVID-19

- 2.53 Fel yr amlinellir uchod, roedd dyluniad yr astudiaeth wedi esblygu'n barhaus oherwydd ffactorau allanol yn ymwneud â'r rheolau a'r rheoliadau ynghylch COVID-19, a'r pwysau ychwanegol cysylltiedig ar ysgolion a SAUau. Roedd hyn wedi amharu ar ein bwriad i gynnwys y disgyblion eu hunain yn yr ymchwil, sy'n golygu nad yw'r astudiaeth yn cynnwys llais y disgyblion. Roedd hyn hefyd wedi cyfyngu ar ein gallu i 'fesur' neu gael profiad o sgiliau Cymraeg y disgyblion y tu hwnt i farn oddrychol athrawon a disgyblion ar gynnydd y disgyblion yn ystod ac ar ôl y cyfyngiadau symud.
- 2.54 Roedd cyfyngiadau COVID-19 hefyd wedi amharu ar ein gallu i rannu a thrafod gwahanol adnoddau ag ysgolion a rhieni a gweld sut roedd yr adnoddau hyn yn gweithio'n ymarferol.
- 2.55 Oherwydd y nifer o astudiaethau a oedd yn cael eu cynnal mewn ysgolion ar adeg yr astudiaeth hon, roedd angen sicrhau bod yr arolygon yn fyr ac yn berthnasol. Roeddem hefyd yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod yr unigolion a oedd yn ymateb i'n harolygon yn gwbl ddiennw, gan gynnwys sicrhau bod yr ysgol yn cael ei

chadw'n anhysbys. Roedd y pethau hyn yn cyfyngu ar nifer y newidynnau a gafodd eu cynnwys yn yr holiaduron a'u math, a wnaeth gyfyngu i ryw raddau ar ein gallu i briodoli ymatebion penodol i fathau penodol o ysgolion neu unigolion.

- 2.56 Dyluniwyd yr holiaduron i ganolbwyntio ar faterion penodol yn ymwneud ag addysgu Cymraeg (fel pwnc neu fel cyfrwng addysgu, neu'r ddau). O ganlyniad, ymatebodd gwahanol gohortau o athrawon neu wahanol gohortau o rieni i holiaduron gwahanol (neu setiau gwahanol o gwestiynau), ond gofynnwyd rhai cwestiynau i fwy nag un cohort. Mae hyn yn golygu y caiff y data eu trafod weithiau yn nhermau grwpiau penodol o samplau (e.e. cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, cyfrwng Saesneg) ond weithiau yn nhermau grwpiau eraill (e.e. Rhiant CS, Rhiant CC: Cymraeg, Rhiant CC: di-Gymraeg – gweler 2.46). Ffactor arall a wnaeth ychwanegu at y cymhlethdod o ran data rhieni oedd bod gan rai aelwydydd blant yn y sector cynradd a phlant yn y sector uwchradd, ac roedd gan eraill blant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog a phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd hyn wedi cyfyngu ar ein gallu i ganfod, yn yr achosion hynny, a oedd yr ymatebion yn ymwneud ag un math o leoliad neu unigolyn neu leoliad neu unigolyn arall.

Crynodeb

- 2.57 Mae'r amrywiaeth o brofiadau, safbwyntiau a barn a welir yn y samplau hyn o gyfranogwyr yn darparu ffynhonnell gyfoethog o ddata sy'n adlewyrchu cynifer o arferion, heriau a chyflawniadau a ddaeth i'r amlwg wrth ddarparu a/neu dderbyn addysg yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae'r dadansoddiadau canlynol yn rhoi trosolwg o safbwyntiau athrawon, rhieni, darlithwyr AGA a myfyrwyr AGA.

3. Canfyddiadau'r Holiaduron i Athrawon

Cyflwyniad

- 3.1 Caiff y data a gafwyd o ymatebion athrawon i'r holiadur eu cyflwyno isod o dan y themâu canlynol: (i) hyfforddiant ar gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion; (ii) adnoddau ar-lein; (iii) polisïau ac arferion cyfathrebu; (iv) strategaethau cyfathrebu yn ystod y cyfyngiadau symud; (v) datblygu Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; (vi) datblygu Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg; (vii) effaith dysgu gartref ar sgiliau Cymraeg disgyblion; (viii) pryderon rhieni; (ix) strategaethau ac arferion addysgu ar gyfer mynd i'r afael â'r addysg a gollwyd ar ôl cyfnodau estynedig o absenoldeb o'r ysgol; (x) effeithiau hirdymor y pandemig ar sgiliau Cymraeg; a (xi) goblygiadau i AGA.
- 3.2 Er y caiff y data eu dadansoddi a'u cyflwyno yn ôl cyfrwng iaith yr ysgol (cyfrwng Cymraeg, dwyieithog, cyfrwng Saesneg), mewn rhai achosion, caiff data o ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog eu cyflwyno gyda'i gilydd.

Thema 1: Hyfforddiant ar y ffordd orau o gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion

- 3.3 Cwestiwn pwysig mewn perthynas â hyfforddiant oedd p'un a oedd athrawon wedi cael unrhyw arweiniad penodol mewn perthynas â chefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, edrychai'r cwestiwn hwn ar i ba raddau roedd athrawon wedi cael cynnig hyfforddiant/trafodaethau a oedd yn canolbwyntio ar roi'r cymorth priodol i blant o gartrefi di-Gymraeg yn ystod y cyfnod pan fu'n rhaid iddynt ddysgu gartref. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd y cwestiwn yn canolbwyntio mwy ar gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion (y tu hwnt i'r Gymraeg fel pwnc) yn ystod y cyfyngiadau symud. Yn y mwyafrif o'r achosion (65%, n=64), nododd yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw drafodaethau/hyfforddiant o'r fath.

Tabl 3.1: Cyfran yr athrawon a gafodd hyfforddiant penodol ar gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud

	Y math o Ysgol		
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg
le	36% (n=12)	33% (n=4)	20% (n=10)
Na	48% (n=16)	58% (n=7)	78% (n=39)
% ddim yn siŵr	15% (n=5)	8% (n=1)	2% (n=1)

- 3.4 Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn yr achosion hynny lle cafwyd trafodaethau/hyfforddiant (36% o achosion: n=8 yn y sector uwchradd a n=4 yn y sector cynradd), gwnaed hynny ar ffurf cyfarwyddiadau polisi a bennwyd gan y pennaeth/uwch dîm rheoli (n=2), trafodaethau ynghylch y ffordd orau o gefnogi rhieni di-Gymraeg (n=2), paratoi gwybodaeth ddwyieithog (n=4), sut i gynnig cyfleoedd ieithyddol – sesiynau bugeiliol a hyrwyddo Cymreictod (n=1), trafodaethau ag *Athrawon Bro* (n=1) a chymorth gan y consortia addysg lleol (n=1).
- 3.5 Mewn ysgolion dwyieithog, dim ond yn y sector uwchradd y cafwyd y trafodaethau/hyfforddiant hyn ac, fel arfer, roeddent yn cynnwys trafodaethau ysgol gyfan ar y ffordd orau o gyflwyno'r gwaith (n=2), a phwysigrwydd sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflwyno'n ddwyieithog er mwyn rhoi cymorth i rieni yn ystod y cyfnod dysgu gartref (n=3).
- 3.6 I'r gwrthwyneb, mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, ni chafwyd y trafodaethau hyn yn y sector uwchradd, dim ond yn y sector cynradd.
- 3.7 Yn gyffredinol, felly, ni wnaeth ysgolion drafod canlyniadau ymarferol posibl sefyllfaoedd lle roedd rhieni di-Gymraeg yn cefnogi addysg eu plentyn/plant mewn unrhyw fanylder, a oedd yn golygu nad oedd athrawon wedi cael eu paratoi na'u cefnogi i raddau helaeth yn hynny o beth.

Thema 2: Adnoddau Ar-lein

- 3.8 Gofynnwyd i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a oeddent yn teimlo bod digon o adnoddau o ansawdd ar gael i ddiwallu anghenion ieithyddol plant o aelwydydd di-Gymraeg. Roedd 67% (29/43) o'r farn **nad** oedd digon o adnoddau ar gael i gefnogi disgyblion o'r fath, roedd 28% (12/43) yn teimlo bod digon, a dywedodd un athro arall ei fod yn teimlo bod gormod o adnoddau, a oedd yn peri dryswch ac yn ei gwneud yn anodd gwybod ble i ddechrau. (Mewn sylw arall, nododd yr athro fod hyn yn amherthnasol iddo gan mai datblygu a gosod arholiadau oedd ei brif waith.)
- 3.9 Gofynnwyd i athrawon roi barn ar addasrwydd yr adnoddau ar-lein a ddarparwyd i ddisgyblion wrth ddatblygu agweddau amrywiol ar eu sgiliau iaith. Teimlai'r rhan fwyaf o athrawon fod yr adnoddau'n ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn, yn enwedig ar gyfer sgiliau darllen a deall. Roedd llai ohonynt yn teimlo bod yr

adnoddau'n addas ar gyfer sgiliau llafar, a nododd 32% o'r holl athrawon nad oedd yr adnoddau'n ddefnyddiol iawn neu nad oeddent yn ddefnyddiol o gwbl mewn perthynas â datblygu sgiliau llafar.

Tabl 3.2: Canfyddiadau athrawon o ddefnyddioldeb adnoddau ar-lein wrth ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion

	Defnyddiol iawn	Defnyddiol	Ddim yn siŵr	Ddim yn ddefnyddiol iawn	Ddim yn ddefnyddiol o gwbl
Ysgrifennu	CC:13% (4)	59% (19)	19% (6)	9% (3)	0%
	D:27% (3)	45% (5)	18% (2)	9% (1)	0%
	CS:4% (2)	17% (8)	33% (15)	24% (11)	22% (10)
Cyfanswm:	10% (9/89)	36% (32/89)	26% (23/89)	17% (15/89)	11% (10/89)
Darllen	CC:6% (2)	63% (20)	13% (4)	16% (5)	3% (1)
	D:18% (2)	45% (5)	27% (3)	9% (1)	0%
	CS:9% (4)	30% (14)	35% (16)	13% (6)	13% (6)
Cyfanswm:	9% (8/89)	44% (39/89)	26% (23/89)	13% (12/89)	8% (7/89)
Deall	CC:13% (4)	69% (22)	9% (3)	9% (3)	0%
	D:18% (2)	64% (7)	18% (2)	0%	0%
	CS:9% (4)	22% (10)	35% (16)	20% (9)	15% (7)
Cyfanswm:	11%(10/89)	44% (39/89)	24% (21/89)	13% (12/89)	8% (7/89)
Siarad	CC:9% (3)	41% (13)	22% (7)	22% (7)	6% (2)
	D:9% (1)	36% (4)	18% (2)	36% (4)	0%
	CS:7% (3)	29% (13)	31% (14)	20% (9)	13% (6)
Cyfanswm:	8% (7/88)	34% (30/88)	26% (23/88)	23% (20/88)	9% (8/88)
Cyfanswm:	10% (34/355)	39% (140/355)	25% (90/355)	17% (59/355)	9% (32/355)

3.10 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nododd 50% (n=26) o athrawon eu bod wedi paratoi dolenni i adnoddau ar-lein a fyddai'n helpu rhieni i ddatblygu sgiliau Cymraeg eu plentyn. Nododd 35% arall (n=18) nad oeddent wedi paratoi dolenni o'r

fath, a dywedodd y 15% (n=8) arall nad oeddent yn siŵr. Roedd y rhan fwyaf o'r adnoddau hyn yn cynnwys amrywiaeth o apiau (e.e. AM, Duolingo), a llwyfannau digidol (e.e. Hwb, BBC Bitesize, Twinkle) yr oedd rhieni'n cael eu hannog i'w lawrlwytho a'u defnyddio gyda'u plentyn/plant:

'Awgrymais y dylai rhieni lawrlwytho ap Tric a Chlic er mwyn helpu plant gyda'u darllen. Creais ganllawiau addas i'r rhieni gan ddefnyddio rhai o adnoddau Twinkle'

- 3.11 Creodd llawer o athrawon eu hadnoddau eu hunain yn lle dibynnu ar adnoddau ar-lein. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dywedodd 93% o athrawon eu bod wedi creu rhai adnoddau (41%: n=31) neu lawer o adnoddau (59%: n=19):

'Roeddwn yn gosod fy ngwaith fy hun drwy Teams, Powerpoint, etc. Dim angen rhaglenni Cymraeg/Dwyieithog, ayb.'

'Roeddwn yn creu taflenni fy hun er mwyn sicrhau fod y disgyblion yn ymarfer y Gymraeg adref'

- 3.12 Yn ogystal, nododd athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg rai bylchau amlwg, yn enwedig mewn perthynas â llythrennedd, ac awgrymwyd y dylid datblygu rhaglenni darllen Cymraeg, fel y rhai sy'n gweithio'n dda yn Saesneg (e.e. Reading Eggs a Headsprout). Nododd athrawon mewn ysgolion dwyieithog eu bod yn hyblyg gan gynnig adnoddau dwyieithog yn ôl yr angen.

Thema 3: Polisiau ac arferion cyfathrebu yn ystod y cyfyngiadau symud

- 3.13 Gofynnwyd i'r holl athrawon a oedd gan eu hysgolion bolisi penodol mewn perthynas â'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu **â rhieni**. Er i 44% (38/87) ddweud bod ganddynt bolisi o'r fath, a 18% (15/87) ddweud nad oedd ganddynt bolisi o'r fath, dywedodd y 49% arall (43/87) nad oeddent yn siŵr. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd 59% (n=19) yn gwybod bod gan eu hysgol bolisi o'r fath ond nid oedd 34% (n=11) yn siŵr (nid oedd y 6% [n=2] arall yn gwybod a oedd polisi o'r fath yn bodoli ai peidio). Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, roedd 25% (n=13) yn ymwybodol o bolisi ond nid oedd 49% (n=13) yn siŵr (nid oedd y 26% (n=14) arall yn ymwybodol o bolisi o'r fath). Roedd hanner yr athrawon mewn ysgolion dwyieithog (n=6) yn ymwybodol o bolisi o'r fath ond nid oedd yr hanner arall yn siŵr.

- 3.14 Pan ofynnwyd iddynt am egwyddorion y polisi, dywedodd mwyafrif yr athrawon a oedd yn gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg (67%, n=12) fod angen iddynt gyfathrebu â rhieni'n ddwyieithog, a chyfeiriodd y gweddill at brosbectws yr ysgol a'r polisi iaith ar draws y cwricwlwm (22%, n=4), Cymraeg yn gyntaf (6%, n=1) a'r polisi iaith – gwefan yr ysgol (6%, n=1). Yn y tri ymateb a gafwyd gan athrawon a oedd yn gweithio mewn ysgolion dwyieithog, cyfeiriwyd at brosbectws yr ysgol, defnyddio'r Gymraeg pan fo unrhyw riant yn siarad Cymraeg, a'r angen i gyfathrebu'n ddwyieithog, er mai'r Gymraeg yw'r iaith weinyddol. Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nododd y mwyafrif o'r ymatebion (n=5) mai'r Saesneg a ddefnyddiwyd i gyfathrebu a chafwyd sylw arall at ddilyn polisi'r AALI. Cyfeiriodd tri arall at ddefnyddio dehonglwyr lle bo angen (e.e. pan nad Cymraeg na Saesneg oedd iaith y cartref). Gan gyfeirio'n benodol at y Gymraeg, cyfeiriodd un athro at ei defnyddio mewn cyd-destun polisi - 'mae'n rhaid i'r wefan gynnwys penawdau Cymraeg' – ond awgrymodd y ddau ymateb arall mai Saesneg a ddefnyddiwyd yn awtomatig, ond eu bod yn hapus i gyfathrebu yn Gymraeg lle bo hynny'n briodol neu ar gais.
- 3.15 Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ynghylch a oedd gan yr ysgol bolisi iaith cyffredinol (nid polisi penodol ar gyfathrebu â rhieni). Dywedodd 67% (n=35) fod ganddynt bolisi o'r fath, a dywedodd 25% (n=13) nad oeddent yn siŵr. Dim ond 8% (n=4) a ddywedodd nad oedd ganddynt bolisi iaith cyffredinol ar waith ar gyfer yr ysgol gyfan. Cafwyd nifer o ymatebion (n=24) yn ymhelaethu ar y polisiâu hyn, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cyfeirio at y strategaethau addysgegol a ddefnyddir i annog plant i ymgysylltu â'r Gymraeg (n=9) – e.e. Cymraeg Bob Dydd, Siarter Iaith, Helpwr Heddiw, Cymraeg Campus. Cafwyd rhai cyfeiriadau at ddwyieithrwydd (n=3), a chafwyd dau gyfeiriad at roi sylwadau dwyieithog ar waith plant, a hynny mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:
- 'Dwyieithog o ran marcio/adborth a sgysiau bob dydd'
- 'Defnyddio Cymraeg llafar wrth sgwrsio, a'i chynnwys yn yr adborth ysgrifenedig a roddir i fyfyrwyr'
- 3.16 Cafwyd rhai sylwadau'n ymwneud ag annog y defnydd o'r Gymraeg (n=6) a chyfeiriodd un o'r sylwadau hynny at amlygrwydd gweledol y Gymraeg a'i harwyddocâd diwylliannol:

‘Rydym yn ceisio sicrhau bod y Gymraeg i'w gweld yn amlwg o gwmpas yr ysgol ac rydym yn annog rhyngweithio yn Gymraeg gymaint â phosibl. Mae ein hysgol yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn byw yng Nghymru.’

- 3.17 Cyfeiriodd un athro at y gyfran o'i amserlen sydd wedi'i neilltuo i gynnig darpariaeth Gymraeg (30% o'r amserlen) drwy bynciau sylfaen, ac eglurodd un arall fod ei ysgol wedi'i dynodi'n ysgol cyfrwng Saesneg gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI). Cafwyd sylw arall ei bod yn amhriodol rhannu polisiau ysgol.
- 3.18 Felly, mae athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ymwybodol ar y cyfan o'r strategaethau sydd ar gael ac y mae disgwyl iddynt eu dilyn er mwyn annog disgyblion i ymgysylltu â'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd traean o'r staff yn ymwybodol o'r strategaethau hyn nac unrhyw ddisgwyliadau mewn perthynas â defnyddio neu hyrwyddo'r Gymraeg.

Thema 4: Strategaethau cyfathrebu yn ystod y cyfyngiadau symud

- 3.19 Roedd athrawon wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyfathrebu â rhieni a disgyblion. Nododd y mwyafrif o'r athrawon – 49% (79/162) – eu bod wedi cyfathrebu â disgyblion gan ddefnyddio llwyfannau trafod fel Google Classrooms, Zoom ac ati, naill ai gyda sesiynau byw neu hebddynt. I'r gwrthwyneb, roedd 53% (50/94) o'r athrawon wedi cysylltu â rhieni naill ai drwy apiau ar-lein, fel see-saw (26%, 24/94) neu dros y ffôn (28%, 26/94):

Tabl 3.3a: Adnoddau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu â disgyblion

	Y math o Ysgol		
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg
Ap (e.e. see-saw)	15% (n=9)	6% (n=1)	22% (n=19)
Llwyfannau trafod byw ar-lein (e.e. Google Classroom, Zoom)	38% (n=23)	59% (n=10)	26% (n=22)
Llwyfannau ar-lein heb unrhyw sesiynau byw	13% (n=8)	6% (n=1)	18% (n=15)
Dros y ffôn	20% (n=12)	18% (n=3)	15% (n=13)
Llythyr	7% (n=4)	6% (n=1)	12% (n=10)
Arall	7% (n=4)	6% (n=1)	7% (n=6)

Tabl 3.3b: Adnoddau a ddefnyddiwyd i gyfathrebu â rhieni

	Y math o Ysgol		
	Cyfrwng Cymraeg	Dwyieithog	Cyfrwng Saesneg
Ap (e.e. see-saw)	25% (n=8)	18% (n=2)	27% (n=14)
Llwyfannau trafod byw ar-lein (e.e. Google Classroom, Zoom)	3% (n=1)	18% (n=2)	6% (n=3)
Llwyfannau ar-lein heb unrhyw sesiynau byw	3% (n=1)	0%	22% (n=11)
Dros y ffôn	34% (n=11)	36% (n=4)	22% (n=11)
Llythyr	13% (n=4)	9% (n=1)	4% (n=2)
Arall	22% (n=7)	18% (n=2)	20% (n=10)

- 3.20 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, defnyddiwyd yr adnoddau hyn yn Saesneg yn unig wrth gyfathrebu â rhieni ac, yn y rhan fwyaf o achosion (94%: n=47), yn Saesneg yn unig wrth gyfathrebu â disgyblion hefyd. Dim ond tri athro (6% o'r ymatebion) a nododd fod yr adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n ddwyieithog, weithiau gan ddefnyddio gwasanaeth cyfieithu, weithiau gan ddefnyddio cyfarchion Cymraeg, ac weithiau er mwyn cefnogi dysgwyr sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol (SIY).
- 3.21 Hefyd, gofynnwyd i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog pa mor aml roeddent yn cadw mewn cysylltiad â disgyblion a rhieni. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd athrawon yn cysylltu â disgyblion bob dydd (73%, n=33) neu bob wythnos (22%, n=10), ond roedd dau ymatebydd wedi dweud eu bod yn cyfathrebu'n llai aml (3%, n=1) neu wedi dewis 'arall' (3%, n=1). I'r gwrthwyneb, roedd y mwyafrif o'r athrawon yn cysylltu â rhieni bob wythnos (31%, n=13) neu'n llai aml na hynny (43%, n=18). Dim ond 5 athro (1%) a ddywedodd eu bod yn cyfathrebu â rhieni bob dydd, ac atebodd y 4 sy'n weddill (9%) 'arall', a oedd yn cynnwys siarad â rhieni os nad oedd disgyblion ar gael, eu bod yn cysylltu â'u dosbarth cofrestru (o ganlyniad i'w rôl fugeiliol) ond nid eu disgyblion pwnc, a

chyfeiriodd athrawon eraill at ddefnyddio rhai dulliau cyfathrebu yn amlach nag eraill (e.e. defnyddio'r ffôn yn amlach nag e-bost).

3.22 Mewn ysgolion dwyieithog, nododd un athro nad oedd wedi cyfathrebu â rhieni/gwarcheidwaid yn ystod y cyfyngiadau symud, a dywedodd athro arall nad oedd cyfathrebu â rhieni yn rhan o rôl athro ac mai uwch aelodau o'r staff ddylai wneud hynny.

3.23 Yn gyffredinol, felly, ychydig iawn o gyswllt a oedd rhwng ysgolion a rhieni.

Thema 5: Datblygu Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

3.24 Mae'n ddiddorol nodi bod cyfran yr athrawon a oedd yn gwahaniaethu gwaith dosbarth ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig am y gwaith dosbarth ar sail iaith aelwyd y disgyblion yn gymharol isel. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dim ond 33% (n=10) a nododd eu bod yn gwahaniaethu lle bo hynny'n bosibl a 15% (n=5) a nododd eu bod yn gwneud hynny pan fo angen, tra dywedodd 45% (n=15) nad oeddent yn gwahaniaethu am fod popeth yn ddwyieithog. Dim ond 9% (n=3) a ddywedodd nad oeddent yn gwahaniaethu o gwbl. Ar yr un pryd, nododd 39% (12/31) o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fod ganddynt gynllun bwriadus i gynnwys ymarferion llafar ac ysgrifenedig er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion. Nid oedd gan 39% (12/31) gynllun o'r fath, ac nid oedd y 23% (7/31) arall yn siŵr.¹² Ymhlith yr ymatebwyr a oedd yn gweithio mewn ysgolion dwyieithog, dim ond un athro a nododd ei fod yn gwahaniaethu gwaith ar sail cefndir ieithyddol y disgyblion a'i fod yn gwneud hynny'n gyson drwy bennu tair lefel o her. Yn yr un modd, dim ond 25% (n=3) o athrawon mewn ysgolion dwyieithog a nododd fod ganddynt gynllun bwriadus i gynnwys ymarferion llafar ac ysgrifenedig er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau Cymraeg disgyblion, gyda 58% (n=7) yn dweud nad oeddent yn siŵr a 17% (n=2) yn dweud nad oedd ganddynt gynllun o'r fath.

3.25 Roedd athrawon mewn ysgolion dwyieithog wedi darparu rhestr amrywiol o enghreifftiau o'r cymorth roeddent wedi'i roi i rieni wrth osod gwaith i'w gyflawni yn Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys gosod y gwaith ei hun yn ddwyieithog (n=4),

¹² Efallai bod tasgau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu cynnwys ym mhob rhan o'r cwricwlwm yn hytrach nag fel cynllun ar ei ben ei hun. Rhaid cymryd gofal wrth ddehongli'r ymatebion i'r cwestiwn hwn.

rhoi cyfarwyddiadau dwyieithog syml i gyd-fynd â'r gwaith (n=4), fideo i egluro'r dasg (n=1), galwadau ffôn/negeseuon e-bost wythnosol (n=2), hysbysu rhieni am y botwm help ar Hwb (n=1), ac ap pwrpasol i gefnogi rhieni (n=1):

‘Bu i sawl rhiant gysylltu drwy ap am gymorth pellach, ac roedd aelod o staff bob amser yn barod i geisio cysylltu gyda hwy i'w cynorthwyo’

- 3.26 Yn gyffredinol, felly, roedd athrawon wedi tueddu i drin pob disgybl yr un peth, ac nid oeddent wedi gwahaniaethu gwaith ar sail sgiliau Cymraeg y disgyblion.

Thema 6: Datblygu Cymraeg disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg

- 3.27 Gan feddwl am y cyfnod cyn cyfyngiadau symud COVID-19, dywedodd 92% (n=49) o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg eu bod yn defnyddio strategaethau addysgu yn rheolaidd i helpu eu disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg. Dim ond cyfran fach iawn (4%, n=2) a ddywedodd nad oeddent fel arfer yn gwneud hynny, ac nid oedd y 4% (n=2) arall yn siŵr.
- 3.28 Yn bennaf, roedd y strategaethau hyn yn cynnwys Helpwr Heddiw (n=31), Cymraeg Campus (n=21), Cymraeg bob Dydd (n=10), Criw Cymraeg (n=9) a Siarter Iaith (n=9). Ymhlith y strategaethau eraill a gafodd eu crybwyll roedd Cenhadon y Gymraeg (n=1), Pod Antur (n=1), Siaradwr Cymraeg yr wythnos (n=1), Cymro/Cymraes yr wythnos (n=1), brawddeg yr wythnos (n=3), Ticw (n=1), Cofrestr a helpwr y bore yn Gymraeg (yn seiliedig ar y Macarena yn Gymraeg) (n=1), slot drilio (n=3), cyfnodau sabothol Cymraeg (n=1), cynllun darllen Tric a Chlic (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen) (n=1), Urdd (n=1), Clwb Cymraeg (n=1), Eisteddfod (n=2), tocyn aur (n=1), Cymraeg ar dy dafod (n=2), gemau buarth (n=1), Jambori (n=2), prosiect darllen Dil a Del (n=2), Iaith ar gân (n=2), Adfer Iaith Sir Ddinbych (n=1), Naid Ymlaen ac Ymestyn Iaith (n=1), a phe cyn Dewch i chwarae (n=1). Dywedodd athro arall y byddai staff fel arfer yn cyfrannu at wersi Cymraeg llafar ond nad oedd hyn wedi digwydd yn ystod y cyfyngiadau symud.
- 3.29 Gofynnwyd i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg hefyd a oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant neu drafodaethau ynghylch sut i gefnogi sgiliau Cymraeg disgyblion (y tu hwnt i'r Gymraeg fel pwnc) wrth baratoi dysgu ar-lein/cyfunol. Dywedodd 21% (n=1) eu bod wedi cael rhywfaint o gymorth a dywedodd 2% (n=1)

nad oeddent yn siŵr, ond dywedodd y 77% (n=41) arall nad oeddent wedi cael unrhyw drafodaethau na chymorth yn hynny o beth.

- 3.30 Gofynnwyd i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg pa mor bwysig oedd hi, yn eu barn nhw, i sicrhau bod sgiliau Cymraeg disgyblion yn parhau i gael eu datblygu wrth osod tasgau iddynt i'w cwblhau gartref yn ystod y cyfyngiadau symud. Nid yw'n syndod, o ystyried amlygrwydd y Saesneg yn y sector cyfrwng Saesneg, fod barn yr ymatebwyr yn gymysg. Teimlai 43% ei bod yn bwysig (n=7 pwysig iawn, n=16 pwysig), teimlai 47% nad oedd yn bwysig (n=16 ddim yn bwysig iawn, n=5 pwysig) a dywedodd y 9% (n=5) arall nad oeddent yn siŵr. O'r 18 o sylwadau a gafwyd yn ymhelaethu ar yr ymatebion, cyfeiriodd y mwyafrif ohonynt (n=8) at y mathau o weithgareddau a gynlluniwyd i annog disgyblion i ymgysylltu â'r Gymraeg mewn ffydd amrywiol e.e.

‘Roeddwn i a chydweithiwr arall sy'n rhannu Cymraeg wedi darllen storïau, wedi cael trafodaethau, wedi canu caneuon, wedi addysgu patrwm yr wythnos. Roeddem yn ffilmio ein hunain ac yn ei rannu â'r ysgol gyfan bob wythnos. Roedd yn llawer o hwyl.’

‘...dolenni i gylchgrawn Bore Da sy'n galluogi plant i chwarae gemau yn Gymraeg ar lefelau amrywiol’

‘...ychwanegu her Gymraeg at ein dysgu cyfunol ym Mlwyddyn 6’

‘Rhoddodd X gyfres briodol o ganeuon (gyda chymorth Powerpoint) i mi i warcheidwaid eu defnyddio gyda'u plant. Roedd brodyr a chwiorydd hŷn wedi helpu a chefnogi eu brodyr a'u chwiorydd iau yn effeithiol. Rhoddodd X gynlluniau darllen digidol i mi gyda chwestiynau â chymorth sain.’

- 3.31 Cyfeiriodd pedwar ymatebydd arall at rieni yn benodol. Nododd un o'r ymatebwyr hyn ‘rhieni di-Gymraeg adref’, a oedd naill ai'n awgrymu ei fod wedi paratoi tasgau ychwanegol gan ystyried gallu ieithyddol y rhieni, neu nad oedd wedi paratoi tasgau o'r fath am nad oedd gan y rhieni ddigon o sgiliau Cymraeg. Nododd yr ymatebwyr eraill:

‘...roedd diffyg gwybodaeth ymhlith y rhieni yn broblem gan fod gwybodaeth y plant yn well ac am eu bod yn ifanc, roedd angen cymorth rhiant arnynt.’

'Ni fyddai'r rhan fwyaf o rieni yn gallu helpu eu plant i ddysgu Cymraeg.'

3.32 Roedd pump ymatebydd arall wedi rhoi rhesymau amrywiol i egluro pam na roddwyd pwyslais penodol ar ddatblygu Cymraeg disgyblion yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y rhesymau hyn yn cynnwys y flaenoriaeth isel a roddwyd i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod hwnnw:

'Nid oedd defnyddio'r Gymraeg yn flaenoriaeth i ni'

'Nid yw wedi bod yn flaenoriaeth yn fy ngwersi ar-lein'

'Roedd plant yn cael problemau â sgiliau iaith yn eu hiaith gyntaf, felly'r rhain oedd y flaenoriaeth'

3.33 Cyfeiriodd eraill at bwysigrwydd cynnal lles staff a disgyblion, gan awgrymu y byddai rhoi unrhyw bwysau ychwanegol neu bwyslais ar y Gymraeg yn creu baich ychwanegol mewn sefyllfa a oedd eisoes yn ddigon heriol:

'Rhaid gwneud y plant yn hapus a helpu efo gwaith Saesneg a numeracy'

'Mae lles staff ac ymgysylltiad disgyblion yn fwy pwysig'

3.34 Dywedodd athro arall nad oedd y Gymraeg yn flaenoriaeth uchel oherwydd:

'Nid oedd yn berthnasol ar y pryd am fod y Cwricwlwm Cenedlaethol wedi cael ei atal dros dro.'

3.35 Er nad oedd rhai ymatebwyr eraill wedi blaenoriaethu'r Gymraeg o bosibl yn ystod y cyfnod hwn, roeddent yn teimlo, serch hynny, ei bod yn bwysig ac wedi gwneud rhyw ymdrech i gynnwys y Gymraeg yn eu cynlluniau neu, wrth edrych yn ôl, byddent wedi hoffi cynnwys mwy o Gymraeg:

'Wrth edrych yn ôl, byddem wedi rhoi mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Gymraeg. Roeddem wedi meddwl ar y dechrau y byddai'r cyfyngiadau symud yn fyrrach nag yr oeddent ac roeddem wedi canolbwyntio ar Saesneg a Mathemateg.'

'Roeddem yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gyflwyno cynnwys ein cwrs, roeddem yn dal i geisio defnyddio Cymraeg bob dydd, ond nid oedd unrhyw ddisgwyliadau.'

3.36 Yn ddiddorol, cyfeiriodd un sylw at yr angen am gymorth allanol parhaus gan Athrawon Bro:

'Yn y gorffennol, roeddem yn gallu gofyn am help a chymorth gan ein tîm o Athrawon Bro, ond maent i gyd wedi ymddeol neu wedi rhoi'r gorau i'w swyddi erbyn hyn.'

3.37 Fodd bynnag, roedd y graddau roedd disgyblion wedi ymateb i waith a gynlluniwyd yn benodol er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud ac ymgysylltu â'r gwaith hwnnw wedi amrywio o un ysgol i'r llall. Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd ymatebwyr (n=18) fod ymgysylltiad disgyblion yn isel iawn, a damcaniaethodd un fod disgyblion bob amser yn dewis gweithgaredd cyfrwng Saesneg cyn gweithgaredd cyfrwng Cymraeg:

'Roedd rhai disgyblion wedi ymgysylltu. Fodd bynnag, roedd disgyblion yn dewis gweithgareddau cyfrwng Saesneg cyn y Gymraeg. Pan roedd gwersi'n cael eu gosod, ceisiwyd atgyfnerthu patrymau brawddegau a gosod gwaith llafar.'

3.38 Awgrymodd athro arall ei bod yn 50-50, a dywedodd un arall fod rhai yn ymgysylltu llawer tra bod eraill yn gwrthod ymgysylltu o gwbl. Dywedodd 6 arall nad oeddent yn siŵr a gafwyd sylwadau fel a ganlyn:

'Roedd pob gweithgaredd yn ddibynnol ar gyfraniad rhiant'

'Ddim yn siŵr oherwydd ni ddychwelodd y mwyafrif i'r dosbarth ac, o ganlyniad i oedran y plant, gwaith llafar a osodwyd, felly nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig'

'Dim ffordd o wybod yn bendant gan fod popeth ar-lein ond roedd rhai plant wedi sôn am y gemau pan wnaethant ddychwelyd i'r ysgol'

'Cawsant eu cyfeirio at wefannau Cymraeg, ond nid oes modd gwybod yn bendant sut, pryd ac os y gwnaethant ddefnyddio'r dolenni'

3.39 Fodd bynnag, cyfeiriodd pump ymatebydd at duedd fwy cadarnhaol, gan nodi fod pawb (n=1), y mwyafrif (n=2), neu tua 60% (n=1) wedi cwblhau'r gwaith, a dywedodd ymatebydd arall fod y gwaith wedi'i gwblhau y rhan fwyaf o wythnosau (n=1).

3.40 Mae'n ymddangos, felly, bod disgyblion yn datgysylltu'n eithaf hawdd â'r Gymraeg pan roddir cyfle iddynt droi at y Saesneg.

Thema 7: Effaith dysgu gartref ar sgiliau Cymraeg disgyblion

3.41 Gofynnwyd i athrawon am eu barn ynghylch a oedd disgyblion yn teimlo bod y gwaith yn ystod y cyfyngiadau symud wedi bod yn fwy dryslyd nag y byddent fel arfer yn yr ysgol. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, roedd barn gymysg gyda 48% o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn teimlo bod disgyblion yn fwy dryslyd a 48% yn teimlo nad oeddent yn fwy dryslyd. Mewn ysgolion dwyieithog, roedd 50% o'r farn bod disgyblion yn teimlo bod y gwaith yn fwy dryslyd, tra bod 33% yn anghytuno (nid oedd 17% yn siŵr).

Tabl 3.4: Barn athrawon ar y gwahaniaethau mewn lefelau dryswch mewn perthynas â gwaith a osodwyd cyn ac yn ystod y cyfyngiadau symud

	Gwahaniaeth mawr	Rhywfaint o wahaniaeth	Ddim yn siŵr	Dim llawer o wahaniaeth	Dim gwahaniaeth o gwbl
Cyfrwng Cymraeg	13% (n=4)	38% (n=12)	3% (n=1)	38% (12)	13% (n=4)
Dwyieithog	17% (n=2)	33% (n=4)	17% (n=2)	33% (n=4)	0%

3.42 Gan ganolbwyntio ar sgiliau Cymraeg, gofynnwyd i athrawon a oeddent yn teimlo bod y cyfyngiadau symud wedi effeithio ar sgiliau iaith disgyblion pan wnaethant ddychwelyd i'r ysgol. Y tro hwn, teimlai mwy o'r athrawon fod y cyfyngiadau symud wedi cael effaith ar sgiliau iaith disgyblion, gyda 67% o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 55% o athrawon mewn ysgolion dwyieithog wedi gweld gwahaniaethau yn sgiliau iaith disgyblion ar ôl y cyfyngiadau symud.

Tabl 3.5: Canfyddiadau athrawon o effaith y cyfyngiadau symud ar sgiliau Cymraeg plant

	Gwahaniaeth mawr	Rhywfaint o wahaniaeth	Ddim yn siŵr	Dim llawer o wahaniaeth	Dim gwahaniaeth o gwbl
Cyfrwng Cymraeg	34% (n=11)	34% (n=11)	6% (n=2)	28% (n=9)	0%
Dwyieithog	18% (n=2)	36% (n=4)	9% (n=1)	27% (n=3)	9%% (n=1)

3.43 Dewisodd un athro o ysgol ddwyieithog 'arall', gan nodi fel a ganlyn:

'Dim pob disgybl sydd gennyf sydd yn fodlon neu yn awyddus i ddysgu...mae hyn yn amlwg yn creu argraff mawr ar y canlyniad'

3.44 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gofynnwyd i athrawon a oeddent wedi gweld unrhyw welliannau yn sgiliau Cymraeg neu Saesneg disgyblion ar ôl y cyfyngiadau symud. Dim ond 4% (n=2) a oedd wedi gweld rhai gwelliannau, a dywedodd 8% (n=4) nad oeddent yn siŵr. Nid oedd yr 88% (n=44) arall wedi gweld unrhyw welliannau penodol yn sgiliau iaith disgyblion. Roedd y rhesymau a roddwyd fel a ganlyn:

'Mae bodau dynol yn greaduriaid cymdeithasol ac mae angen iddynt gyfathrebu wyneb yn wyneb - mae'r syniad bod technoleg yn 'grêt' yn bryderus iawn.'

'Mae'n deg dweud bod modd adfer a chadw'r rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm, ond mae'n anodd iawn ceisio cael disgyblion i ail-ymgysylltu â'r Gymraeg - yn enwedig os ydynt wedi cofrestru i fynychu ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg y flwyddyn nesaf'

'Mae ysgrifennu wedi dioddef am nad oedd rhaglenni ffonig yn cael eu dilyn gartref'

3.45 Yn dilyn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i athrawon a oedd y gwahaniaethau hyn yn fwy amlwg ar ôl i ddisgyblion fod i ffwrdd o amgylchedd yr ysgol dros y cyfyngiadau symud o gymharu â phan fydd plant i ffwrdd o'r ysgol dros wyliau'r haf. Roedd y gwahaniaeth yn eithaf amlwg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, oherwydd nododd pob athro ei fod wedi gweld o leiaf ryw wahaniaeth yn sgiliau Cymraeg disgyblion:

Tabl 3.6: Canfyddiadau athrawon o'r gwahaniaeth mewn sgiliau iaith ar ôl gwyliau'r haf o gymharu ag ar ôl y cyfyngiadau symud

	Gwahaniaeth mawr	Rhywfaint o wahaniaeth	Ddim yn siŵr	Dim llawer o wahaniaeth	Dim gwahaniaeth o gwbl	Arall
Cyfrwng Cymraeg	38% (n=12)	3% (n=1)	13% (n=4)	38% (n=12)	3% (n=1)	6% (n=2)

Dwyieithog	25% (n=3)	0%	33% (n=4)	0%	25% (n=3)	% (n=2)
Cyfrwng Saesneg	51% (n=26)	49% (n=23)	0%	0%	0%	0%

3.46 O'r rhai a nododd 'arall', roedd dau yn newydd i'w hysgol bresennol ac felly ni allent wneud unrhyw gymariaethau. Nododd un athro o ysgol cyfrwng Cymraeg, gan fod pob disgybl wedi dychwelyd, nad oedd unrhyw wahaniaethau o ran effaith y cyfyngiadau symud. Nododd yr athro arall fod gwahaniaethau i'w gweld ond nid ym mhob achos:

'Gwahaniaeth i'w weld, mawr mewn rhai o'r disgyblion, a dim llawer mewn eraill'

3.47 Mae'n ddiddorol gweld bod rhai o'r sylwadau ychwanegol a gafwyd gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn amrywiol, gyda rhai ymatebion cadarnhaol, fel a ganlyn:

'Mae'r rhai sy'n ei siarad gartref yn dal ati fel arfer'

'Mae'n syndod nad oes fawr ddim gwahaniaeth – maen nhw wedi ailgydio'n gyflym'

'Mae'r plant i gyd yn frwdfrydig dros siarad Cymraeg'

'Fel athro derbyn, maen nhw ond yn dechrau datblygu eu gwybodaeth, felly roedd hi'n hawdd i mi ddal i fyny drwy ddefnyddio Helpwr Heddiw a gwersi bob dydd, '

3.48 Canolbwyntiodd eraill ar allu rhieni i siarad Cymraeg a diffyg hyder disgyblion fel rhesymau dros y dirywiad (n=3):

'Am nad yw rhieni yn ei siarad gartref'

'Diffyg hyder am nad oedd yn cael ei defnyddio'

'Maen nhw wedi colli llawer o hyder'

3.49 Cyfeiriodd rhai ymatebion at y ffaith nad oedd disgyblion wedi dod i gysylltiad â'r Gymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud:

'Rwy' bob amser yn dweud wrth y staff - dim ond yn yr ysgol y mae'r plant yn clywed Cymraeg.'

'Nid oeddent yn dod i gysylltiad â'r iaith bob dydd. Wel, nid y mwyafrif ohonynt beth bynnag am nad oeddent yn defnyddio'r ddarpariaeth ar-lein.'

3.50 Dywedodd athro arall ei bod yn bryderus cyn lleied o Gymraeg oedd gan y plant ar ôl iddynt ddychwelyd, a chafwyd sylw ingol gan un arall:

'Mae disgyblion yn delio â thrawma, ac mae hyn wedi effeithio ar bob agwedd ar ddysgu. Ar hyn o bryd, mae teimlo'n ddiogel yn hynod o bwysig i ddisgyblion, dim ond pan fydd disgyblion yn gallu ymlacio a theimlo'n ddiogel y gallant ailddechrau dysgu.'

3.51 Yn yr un modd, gofynnwyd i athrawon nodi a oeddent wedi gweld unrhyw wahaniaethau amlwg o gymharu'r disgyblion hynny a oedd wedi derbyn eu haddysg gartref â'r rhai a oedd wedi parhau i dderbyn eu haddysg yn yr ysgol. O'r 24 o ymatebion a gafwyd gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dywedodd 13 nad oeddent wedi gweld gwahaniaeth neu nad oeddent wedi gweld gwahaniaeth mawr, a dywedodd pedwar eu bod wedi gweld gwahaniaeth neu wahaniaeth bach. Cafwyd atebion amrywiol gan y gweddill gan gynnwys nad oedd modd mesur hyn (n=1), nad oeddent yn addysgu yn yr ysgol yn ystod y cyfyngiadau symud (n=1) neu nad oedd llawer o blant yn mynychu'r ysgol bryd hynny (n=2). Dywedodd dau athro nad oedd disgwyl iddynt addysgu disgyblion yn yr ysgol bryd hynny:

'Dim gwahaniaeth mawr, oherwydd "gwarchod" oedd yr athrawon yn ystod y cyfnod hwn'

'Dim gwahaniaeth. Hefyd, y cyfarwyddyd a gafwyd oedd mai dim ond cynorthwyo NID addysgu yr oeddem yn yr Hybiau Gofal, ar wahân i'r wythnos olaf cyn Nadolig 2020.'

3.52 Dywedodd un arall fod angen atgoffa disgyblion i wneud y gwaith yn Gymraeg, a hynny o bosibl am nad oedd gan y rhieni sgiliau Cymraeg. Cafwyd tri sylw arall a oedd yn rhoi mewnwelediad i'r gwahaniaethau posibl rhwng y ddau gohort o ddisgyblion:

'Oedd ychydig gan fod y disgyblion yn yr ysgol y cael ymarfer eu Cymraeg drwy'r dydd ac nid mewn cyfarfodydd wythnosol ar lein.'

'Rhai mwy tueddol o droi i'r Saesneg ar ôl bod adref am gyfnod hir'

'Y disgyblion hynny yn clywed llawer mwy o'r Gymraeg'

- 3.53 Mewn ysgolion dwyieithog, o'r 7 ymateb a ddarparwyd, dywedodd 6 nad oeddent wedi gweld gwahaniaeth a nododd un mai dim ond nifer bach iawn o blant o'i ddsbarth a oedd yn yr ysgol, gan awgrymu nad oedd yn briodol cymharu.
- 3.54 Mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, o'r 42 o ymatebion a ddarparwyd, nododd 37 nad oeddent wedi gweld gwahaniaeth a dywedodd un '*ydw – mae'r rhai yn yr ysgol yn well*'. Yn yr un modd ag ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfeiriodd un athro at y ddarpariaeth yn yr ysgol fel darpariaeth gofal plant ac nad oedd angen addysgu'r disgyblion. Dywedodd un athro fod disgyblion wedi mwynhau canu yn Gymraeg yn yr ysgol, gan nodi '*Wn i ddim faint/pa mor aml roeddent yn defnyddio'r caneuon gartref*'. Cyfeiriodd un athro at bwysigrwydd cysondeb wrth helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn barhaus:

'Gwnaethant ddychwelyd ac nid oeddent yn gwybod y gwahaniaeth rhwng 'bore da' a 'pnawn da'! Maen nhw'n ei chael hi'n anodd, ar y gorau, os nad ydym yn defnyddio patrymau cyson ac yn ailadrodd strwythurau'n rheolaidd.'

- 3.55 Myfyriodd un athro ar ei brofiad ei hun fel rhiant di-Gymraeg wrth ymateb i'r cwestiwn hwn:

'O'm profiad personol, mae fy mab yn mynychu ysgol gyfun Gymraeg ac am ein bod yn siarad Saesneg gartref ac nad oedd yn clywed Cymraeg bob dydd, dirywiodd ei feistrolaeth ar yr iaith ac roedd yn bendant o dan anfantais pan ddychwelodd i'r ysgol ym mis Medi o gymharu â'r rhai a oedd yn dod o gefndir Cymraeg. Mae fy mab ym Mlwyddyn 11, ac roedd hyn yn gwneud pethau hyd yn oed yn fwy pryderus am fod arholiadau/gwaith cwrs pwysig yn ei aros y tymor hwn.'

Thema 8: Pryderon rhieni

3.56 Gofynnwyd i athrawon a oedd unrhyw rieni wedi mynegi unrhyw bryderon iddynt am eu gallu i addysgu eu plant gartref drwy ddilyn gwaith a osodwyd gan yr ysgol yn Gymraeg. Dywedodd 47% (n=15) o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg fod rhieni wedi mynegi pryderon, dywedodd 28% (n=9) nad oeddent yn siŵr, a dywedodd 25% (n=8) nad oeddent wedi cael unrhyw ohebiaeth gan rieni yn mynegi pryderon o'r fath. Mewn ysgolion dwyieithog, roedd 27% (n=3) wedi cael gwybod gan rieni am bryderon, dywedodd 18% (n=2) nad oeddent yn siŵr a dywedodd y 55% (n=6) arall nad oeddent wedi cael gwybod am bryderon gan rieni yn hyn o beth. Caiff y pryderon a fynegwyd, ac ymateb yr ysgol iddynt, eu nodi isod:

Tabl 3.7: Pryderon rhieni am addysgu eu plant gan ddefnyddio gwaith a osodwyd yn Gymraeg – ysgol cyfrwng Cymraeg

Natur y pryderon	Sut y cawsant eu datrys
Ddim yn deall y cyfarwyddiadau	Sicrhau bod y staff yn rhoi canllawiau dwyieithog yn ôl yr angen
Ddim yn deall y gwaith, felly methu â helpu'r plentyn	Rhoi cyfarwyddiadau syml yn Saesneg ond roedd y chweched dosbarth yn eithaf annibynnol
Dim ond wedi digwydd unwaith neu ddwywaith. Nid yw eu plentyn yn deall y gwaith, ac nid ydynt yn deall y gwaith yn Gymraeg ac felly ni allant helpu.	Wedi rhoi cyfarwyddiadau Saesneg ar yr hyn roedd angen ei wneud.
Methu â deall y gwaith, methu â chymell y plentyn i weithio.	Rhoi arweiniad ac esboniadau i'r rhieni, cyswllt cyson â'r teuluoedd hynny dros y ffôn ac e-bost ac ati
Methiant i ddeall testunau heriol o safbwynt yr iaith	Tasgau wedi'u gwahaniaethu
Methiant i ddeall y gwaith o bryd i'w gilydd, yn enwedig mathemateg	Rhoi cymorth, cyfarwyddiadau ac arweiniad ychwanegol i rieni
Disgyblion yn methu ag egluro i'w rhieni beth sydd angen ei wneud. Angen gwella sgiliau digidol disgyblion i ddefnyddio Microsoft Teams	Wedi creu a rhannu fideos i ddisgyblion er mwyn egluro sut i wneud y pethau nad oeddent yn gallu eu gwneud e.e. sut i lanlwytho eu gwaith ar gyfer aseiniadau yn Microsoft Teams
methu â helpu, disgyblion ddim yn cael cymorth gan eu rhieni	Cymell; esbonio tasgau yn Saesneg

Rhieni yn teimlo nad ydynt yn gallu helpu eu plant angen mwy o esboniad yn Saesneg

Roedd pawb yn gwerthfawrogi'r amser a fuddsoddwyd yn cyfieithu popeth - y broblem oedd gweithio gartref ac addysgu'r plant ar yr un pryd

Dywedodd disgybl nad oedd yn deall y gwaith, a dywedodd y rhiant am fod y gwaith yn Gymraeg (ac am nad oedd yn dda gyda mathemateg ei hun) nad oedd yn gallu helpu ei blentyn.

Cadw sylw plant, a'r ffaith nad oeddent yn gallu rhoi cymorth mewn perthynas â'r iaith

Dim ond egluro nad oeddent yn gallu helpu llawer gyda'r gwaith Cymraeg.

Nid oeddent yn gallu esbonio na thrafod y dasg yn Gymraeg â'u plant ac nid oeddent yn gallu darllen Cymraeg

Mwy o gyfarfodydd a chymorth ar Microsoft Teams

Wedi darparu'r holl ddeunydd yn ddwyieithog.

y peth pwysicaf i ni fel ysgol oedd lles a hapusrwydd y plant

Anfon dolen i fideo ar YouTube gydag esboniad yn Saesneg.

Rhodddwyd sicrwydd i rieni nad oedd angen iddynt roi pwysau ar eu plant, gan ganolbwyntio'n unig ar yr hyn y gallent ei wneud

Dywedwyd wrth y rhieni nad oedd disgwyl iddynt addysgu eu plant, dim ond eu cefnogi.

Cyfeirio rhieni at yr apiau Cymraeg sydd ar gael

Tabl 3.8: Pryderon rhieni am addysgu eu plant gan ddefnyddio gwaith a osodwyd yn Gymraeg – ysgolion dwyieithog

Pryderon rhieni	Sut y cafodd y mater ei ddatrys
ddim yn deall y camau - diffyg sgiliau iaith	Wedi cyfieithu'r tasgau
ddim yn deall y gwaith	Wedi cyfieithu'r gwaith i'r Saesneg
Problemau technegol yn bennaf. Roedd rhieni yn gefnogol iawn o'r rhan fwyaf o'r gwaith a osodwyd ar gyfer y plant.	Wedi cynnig cymorth i rieni gan ddefnyddio'r ap rydym yn ei ddefnyddio i gysylltu â rhieni neu dros y ffôn.

3.57 Gofynnwyd i athrawon hefyd a godwyd unrhyw bryderon penodol am sicrhau bod sgiliau Cymraeg plant yn cael eu datblygu. Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dim ond 25% (n=8) a ddywedodd fod rhieni wedi mynegi pryderon, dywedodd 16% nad

oeddent yn siŵr a dywedodd 59% (n=19) nad oedd rhieni wedi mynegi unrhyw bryderon.

Tabl 3.9: Pryderon rhieni am ddatblygiad sgiliau Cymraeg eu plentyn/plant - ysgolion cyfrwng Cymraeg

Natur y pryderon	Sut y cawsant eu datrys
Ddim yn siarad yr iaith gartref	Wedi cynnal gwersi byw fel bod y plant yn clywed yr iaith ar lafar
Methiant i helpu'r plentyn/chwilio am gyfleoedd i glywed a defnyddio'r Gymraeg Rhieni a oedd yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf	Wedi'u cyfeirio at gyfleoedd/adnoddau posibl
Methu â darllen i'r plant	Rhoi sicrwydd a chefnogaeth mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed
Rhai rhieni yn poeni nad oedd eu plant yn gallu gweithio'n annibynnol a bod angen cymorth arnynt â'r Gymraeg bob amser	Wedi creu fideos a recordio storïau
Rhieni ddim yn gwybod faint o waith ddylai'r plant fod yn ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg – poeni nad yw'r plant yn cael cyfle i drafod yn Gymraeg.	Darparu mwy o gymorth ar Hwb a Teams
Dim ond rhai a ddywedodd nad oes digon o lyfrau darllen diddorol ar gael i'w plant yn Gymraeg a bod angen help arnynt i gadw diddordeb eu plant a'u hannog i ddarllen llyfrau Cymraeg yn hytrach na llyfrau Saesneg.	Egluro bod llawer o bobl yn yr un sefyllfa.
	Cyflwyno dysgwyr i nofel dosbarth. Egluro y gellid benthycu llyfrau o'r llyfrgell neu lyfrgell ar-lein (BorrowBox)

Mewn ysgolion dwyieithog, dim ond dau athro a gyfeiriodd at bryderon gan rieni:

Tabl 3.10: Pryderon rhieni am ddatblygiad sgiliau Cymraeg eu plentyn/plant - ysgolion dwyieithog

Pryderon rhieni	Sut y cafodd y mater ei ddatrys
dim cyfleoedd i sgwrsio yn Gymraeg	wedi siarad â'r plant dros y ffôn
Wedi gofyn am gadarnhad y byddai'r gwaith yn ddwyieithog	Wedi darparu'r gwaith yn ddwyieithog

3.58 Gofynnwyd i athrawon hefyd a oedd unrhyw rieni wedi mynegi pryderon iddynt am sgiliau Cymraeg eu plentyn/plant ers i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfyngiadau symud. Atebodd y rhan fwyaf o ymatebwyr gan ddweud 'na' (20/33 cyfrwng Cymraeg, 5/8 dwyieithog a 52/53 cyfrwng Saesneg). Ymhelaethodd rhai ar eu hymateb a chafwyd un sylw a oedd yn awgrymu bod rhieni wedi mynegi pryder, ond nid mwy nag y maent yn ei wneud fel arfer pan fydd plentyn yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

'Oes, un rhiant yn dweud bod ei merch yn pryderu ei bod yn cael trafferth dilyn gwaith y dosbarth oherwydd ei bod wedi anghofio llawer o'i Chymraeg'

3.59 Dywedodd athro arall fod rhieni wedi mynegi pryderon ar ôl i'r athrawon eu hunain fynegi pryderon am sgiliau llythrennedd disgyblion ar ôl cyfres o brofion, ac roedd eraill wedi mynegi pryderon dros y ffôn yn ystod nosweithiau rhieni. Fodd bynnag, er gwaethaf y pryderon hyn, awgrymodd rhai fod rhieni yn llawer hapusach nawr bod eu plentyn/plant yn ôl yn yr ysgol:

'Dim llawer – rhai wedi son ar y ffon ond pethau positif – dweud ei bod nhw'n hapus eu bod nhw'n trafod yn Gymraeg eto'

3.60 Dywedodd athro arall mai addysg yw prif bryder rhieni, nid y Gymraeg.

Thema 9: Strategaethau addysgu ar ôl dychwelyd i addysg Gymraeg

3.61 Gofynnwyd i athrawon a oeddent fel arfer yn defnyddio strategaethau penodol gyda disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg pan roeddent yn dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r haf er mwyn eu helpu i ail-ymgysylltu â'u sgiliau Cymraeg. Dim ond 9% (n=3) o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a ddywedodd eu bod yn gwneud hynny, gyda 50% (n=16) yn dweud ei fod yn dibynnu ar y disgybl, 34%(n=11) yn dweud nad ydynt yn gwneud dim byd penodol, a 3% (n=1) a ddewisodd 'arall', a nododd y dylai rhaglen diwylliant Cymraeg gael ei mabwysiadu bob amser. Mewn ysgolion dwyieithog, nododd 67% (n=8) ei fod yn dibynnu ar y disgybl, a dywedodd 33% (n=4) nad ydynt yn defnyddio strategaethau o'r fath fel arfer. Nid oedd athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn tueddu i ddefnyddio strategaethau o'r fath (53%: n=26), ond roedd rhai ohonynt (18%: n=8) yn gwneud hynny, a dywedodd y 29% (n=14) arall ei fod yn dibynnu ar y plentyn. Mae hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau Cymraeg er mwyn helpu

disgyblion i ailymgysylltu â'r Gymraeg pan fyddant yn dychwelyd i'r dosbarth ar ôl gwyliau'r haf os a phryd y bydd angen gwneud hynny, ac yn enwedig felly mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

- 3.62 Fodd bynnag, ar ôl dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfyngiadau symud, cynyddodd cyfran yr athrawon a ddywedodd eu bod wedi defnyddio strategaethau penodol er mwyn helpu disgyblion i ailymgysylltu â'r Gymraeg i 45% (n=14) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, 64% (n=7) mewn ysgolion dwyieithog a 35% (n=17) mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Ymhlith yr enghreifftiau o strategaethau a roddwyd roedd ailgyflwyno sgiliau Cymraeg sylfaenol, fel amser y ferf a nifer, treigladau a darllen, siarad mwy o Gymraeg â disgyblion mewn ysgolion dwyieithog, grwpiau ymyrryd ychwanegol i gefnogi sgiliau Cymraeg, athro ychwanegol er mwyn helpu grwpiau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg, a chyflwyno rhaglenni teledu, llyfrau a chaneuon Cymraeg i'r disgyblion.
- 3.63 Ar ôl arsylwi ar allu ieithyddol disgyblion ar ôl iddynt dychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfyngiadau symud, roedd 41% o athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a 50% o athrawon mewn ysgolion dwyieithog yn teimlo bod y profiad hwn wedi tynnu sylw at yr angen i ysgolion ddatblygu ymyriadau penodol er mwyn helpu disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg i ail-ymgysylltu â'u Cymraeg ar ôl y gwyliau haf arferol.

Thema 10: Effeithiau hirdymor posibl y pandemig ar sgiliau Cymraeg

- 3.64 Gofynnwyd i athrawon fyfyrion ar a oedd y cyfnod o ddysgu gartref wedi cael effaith ar sgiliau Cymraeg disgyblion, yn eu barn nhw. Mewn rhai achosion, roedd canlyniadau arsylwadau mesuredig o alluoedd disgyblion wedi dylanwadu ar y myfyrdodau hyn ond, yn y rhan fwyaf o achosion, roedd myfyrdodau athrawon ar gynnydd disgyblion yn ystod ac ar ôl y cyfyngiadau symud yn oddrychol i raddau helaeth. Felly, dylid cofio hyn wrth ddehongli'r myfyrdodau hyn. O'r 29 o ymatebion a gafwyd gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, roedd y mwyafrif (66%: n=19) wedi gweld dirywiad i raddau amrywiol yn sgiliau Cymraeg eu disgyblion, boed hynny'n sgiliau darllen, ysgrifennu a/neu siarad. Roedd rhai o'r sylwadau'n cyfeirio at duedd disgyblion i droi at eu hiaith gyntaf (cf. Thomas a Roberts, 2011):

'Eithaf tipyn-llai o Gymraeg ar y coridorau. Dirywiad mewn iaith ysgrifenedig hefyd yn amlwg'

'Yn bendant. Saesneg y mae plant fy nosbarth presennol yn siarad, yn cyfathrebu â'i gilydd. Mae wir angen rhywbeth er mwyn ail gydio yn y Gymraeg'

- 3.65 Cyfeiriodd eraill yn benodol at agweddau amrywiol ar sgiliau iaith a oedd fel pe baent wedi dirywio dros gyfnod y cyfyngiadau symud, e.e.:

'Dirywiad mewn iaith ysgrifenedig hefyd yn amlwg'

'Problemau sillafu, dim defnydd digonol o dermau pwnc penodol

'Mae sgiliau darllen disgyblion wedi dirywio'n sylweddol (yn enwedig ym ml.7)'

'Yn bendant - safonau darllen Cymraeg a safon iaith lafar disgyblion wedi dirywio yn sylweddol'

'Sgiliau darllen a llafar wrth gwrs'

'Pan ddychwelodd y plant ym mis Medi, roedd rhai ohonynt bach yn 'stiff' yn siarad y Gymraeg - yn ystod y tymor, mae pwyslais wedi bod ar ddatblygu sgiliau darllen a llafaredd y plant'

- 3.66 Canolbwyntiodd ymatebwyr eraill ar effaith lefelau cyswllt ac ymgysylltiad is â'r Gymraeg, gan gynnwys patrymau cyswllt blaenorol â'r iaith:

'Y disgyblion oedd yn newydd i'r ysgol a heb gael llawer o gefndir o'r Gymraeg cynt. Mae y disgyblion hynny yn gweld dysgu yn y Gymraeg yn her eleni'

'Effaith mawr ar disgyblion sy'n dod o ardaloedd lle does dim llawer o Gymraeg tu allan i'r ysgol.'

'Does dim modd hyrwyddo a bwydo sgiliau Cymraeg hanner cymaint ar lein, ac yn enwedig i'r disgyblion sydd heb wneud fawr o waith dros y cyfnod clo, ni fyddan nhw wedi defnyddio'r iaith yn ddigonol ac felly wedi colli'

- 3.67 Dim ond 7 ymatebydd a wnaeth sylwadau cadarnhaol ar sgiliau Cymraeg plant, gan ganolbwyntio'n bennaf ar y ffaith bod disgyblion wedi llwyddo i adfer eu sgiliau'n gyflym. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan un athro am ei fod wedi cael ei leoli mewn ysgol lle'r roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod o deuluoedd Cymraeg, ond dywedodd hefyd nad yw dysgu gartref yr un peth a'i bod yn amhosibl herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu:

‘Nid wyf yn bryderus y bydd yno effaith hirdymor barhaus ar sgiliau Cymraeg y disgyblion gan eu bod wedi cyflawni nifer o dasgau yn y Gymraeg ac fod nifer o deuluoedd yr ysgol yn Gymraeg iaith gyntaf. Wedi dweud hynny, mae gwahaniaeth mawr yn safon yr hyn mae nhw yn ei gyflawni yn annibynnol adref mewn unrhyw bwnc, nid dim ond y Gymraeg. Mae modd herio a cheisio cael gwaith o'r safon uchaf posib wrth weithio gyda'r dysgwyr yn y dosbarth gan fod yr amgylchiadau yn gwbl wahanol.’

- 3.68 Er bod un athro wedi gwneud sylwadau cadarnhaol ar allu disgyblion i ddal i fyny, nododd hefyd fod disgyblion yn parhau i gael anhawster ag agweddau ar gystrawen a bod angen ‘mynd n’ôl i’r dechrau’:

‘Mae y rhan fwyaf o'r disgyblion sydd yn fy nosbarth wedi ymdopi hefo ail gydiad yn y Gymraeg, er fod rhai yn straffaglu a chystrawen ers y cyfnod clo, ac angen ail ymweld a strwythur frawddeg.’

- 3.69 Cafwyd 10 ymateb gan athrawon mewn ysgolion dwyieithog. Roedd tri o'r sylwadau hyn yn gadarnhaol, gyda dau yn canolbwyntio'n benodol ar amser, gan awgrymu y gall disgyblion ddal i fyny dros amser. Teimlai athro arall, er nad oedd wedi gweld unrhyw effaith ar sgiliau Cymraeg disgyblion o gartrefi Cymraeg, roedd sgiliau Cymraeg disgyblion o gartrefi di-Gymraeg wedi dirywio rhywfaint yn sicr. Teimlai ymatebydd arall y byddai rhai effeithiau hirdymor, felly byddai canolbwyntio ar sgiliau iaith sylfaenol yn bwysig. Er nad oedd patrymau clir o ddirywiad mewn rhai agweddau ar sgiliau iaith o gymharu ag eraill, cyfeiriodd un athro'n benodol at ddirywiad mewn sgiliau ysgrifennu, cyfeiriodd un arall at ddirywiad mewn sgiliau ysgrifennu a llafar, a chyfeiriodd un arall at ddirywiad mewn sgiliau Cymraeg. Ar sail ei brofiadau ei hun, yn ieithyddol ac yn ymarferol o safbwynt yr her o weithio'n llawn amser fel athro gartref ac addysgu ei blant ei hun gartref, dywedodd un athro y byddai'n disgwyl gweld effeithiau hirdymor i'r ddau gyfeiriad, oherwydd dywedodd nad oeddent hwy fel teulu'n siarad Saesneg gartref ac y byddent yn debygol o'i chael yn anodd siarad Saesneg yn ôl yn y gwaith. Cyfeiriodd athro arall at ddiffyg cyfleoedd i ddysgu'n fyw o ganlyniad i broblemau'n ymwneud â GDPR a'r ffaith nad oedd rhieni a oedd yn gweithio'n llawn amser ar gael i oruchwylio cyswllt o'r fath.

Dyweddod ei bod yn anochel y bydd lefel is o gyswllt â'r Gymraeg yn y cartref wedi cael effaith ar gyfleoedd disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg.

- 3.70 O'r 44 o ymatebion a gafwyd gan athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, dywedodd y mwyafrif (55%: n=24) fod disgyblion wedi anghofio hanfodion y Gymraeg, yn bennaf oherwydd diffyg ymgysylltiad, cyswllt a defnydd, ond dywedodd rhai hefyd fod sgiliau iaith disgyblion wedi dirywio yn gyffredinol, yn Gymraeg ac yn Saesneg:

'Negyddol. Mae sgiliau Saesneg sylfaenol wedi dioddef yn fawr o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud blaenorol. Mae'r Gymraeg wedi cael ei rhoi ar y droed ôl.'

'Mae disgyblion wedi colli cryn dipyn o wybodaeth a sgiliau yn Gymraeg ac yn Saesneg'

'Mae disgyblion wedi colli'r arfer o ddefnyddio Cymraeg bob dydd, fel gofyn cwestiynau, defnyddio Saesneg a Chymraeg at ddibenion allweddol fel cofrestru, gofyn cwestiynau ac ati.'

'Roedden nhw ar ei hôl hi i ddechrau ond roedden nhw nôl ar y trywydd cywir yn gyflym. Fodd bynnag, nid oes pwyslais mor gryf ar y Gymraeg bellach am fod sgiliau Saesneg yn llawer gwannach nag yr oeddent yn flaenorol'

Thema 11: Model gorau ar gyfer y dyfodol

- 3.71 Gofynnwyd i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fyfyrion ar eu profiadau o addysgu yn ystod y pandemig, a chynnig syniadau ynghylch arferion da i gefnogi disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg i ddatblygu'n academiaidd ac yn ieithyddol a defnyddio'r Gymraeg ar lafar. O safbwynt datblygu sgiliau academiaidd, roedd y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn yr ymatebion yn cynnwys: (i) defnyddio sesiynau ar-lein byw yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod disgyblion yn clywed Cymraeg bob dydd, gan gynnwys oedrannau cynradd, a rhoi cyfleoedd i sgwrsio'n aml yn Gymraeg; (ii) defnyddio ieithoedd yn hyblyg, fel bod mwy o ffocws ar y Gymraeg (gyda gwybodaeth fras yn Saesneg/iaith arall) mewn rhai achosion, cydbwysedd cyfartal (e.e. darparu termau yn y ddwy iaith; creu cynlluniau dwyieithog) mewn achosion eraill, neu gymysgedd o gyfryngau (tasgau ysgrifenedig yn Gymraeg gyda recordiadau llais o'r cyfarwyddiadau yn Saesneg) mewn achosion

eraill ac ati; (iii) datblygiadau parhaus ym maes technoleg iaith, fel meddalwedd sy'n darparu troslais Saesneg ar gyfer testunau sydd wedi'u huwcholeuo yn Gymraeg neu feddalwedd sy'n gallu 'darllen' testun Cymraeg yn Saesneg, a'r angen i integreiddio adnoddau cyfieithu fel rhan o lwyfannau dysgu ac addysg a'r gallu i uwcholeuo testunau ar y sgrin wrth addysgu'n rhithiol; (iv) defnyddio chwarae rôl fel ffordd o helpu disgyblion i ddysgu, naill ai wedi'i recordio ymlaen llaw ar apiau neu fel tasg ddysgu; a (v) defnyddio llwyfannau ar-lein i addysgu grwpiau bach sy'n rhoi cyfle i ddysgu ac ail-adrodd, a chreu cyfleoedd i ddisgyblion gysylltu ag athrawon yn unigol pan fo unrhyw heriau'n codi.

- 3.72 O safbwynt sgiliau ieithyddol, gwelwyd rhai themâu ychwanegol, gan gynnwys (i) mwy o sesiynau ar-lein byw; (ii) yr angen am becynnau gwaith wedi'u gwahaniaethu; (iii) mwy o ffocws ar gyfarwyddiadau sain yn hytrach na chyfarwyddiadau ysgrifenedig – 'siarad yw'r ffordd ymlaen'; (iv) mwy o adnoddau dwyieithog ar-lein i ysgolion; (v) sesiynau gloywi iaith sylfaenol i ddisgyblion a rhieni; (vi) gefeillio ysgolion di-Gymraeg ag ysgolion cyfrwng Cymraeg; a (vii) mwy o gymorth gan yr Unedau Cymraeg i gynllunio gweithgareddau a hyrwyddo'r Gymraeg.
- 3.73 Yn olaf, o safbwynt defnydd iaith, roedd y themâu'n cynnwys: (i) mwy o sesiynau ar-lein byw; (ii) grwpiau trafod a chwarae rôl realistig er mwyn ymarfer siarad yr iaith; (iii) mwy o dasgau ymarferol; (iv) mwy o adnoddau dwyieithog ar-lein; (v) Flipgrid; (vi) gefeillio ysgolion di-Gymraeg ag ysgolion cyfrwng Cymraeg; a (vii) mwy o gymorth gan yr Unedau Cymraeg i gynllunio gweithgareddau a hyrwyddo'r Gymraeg.

Goblygiadau i AGA

- 3.74 Gofynnwyd i athrawon fyfyrion ar eu profiad o addysgu yn ystod y pandemig, a nodi'r sgiliau y dylai myfyrwyr AGA eu datblygu, yn eu barn nhw, er mwyn eu paratoi ar gyfer y posibilrwydd o addysgu cyfunol neu addysgu ar-lein yn y dyfodol. Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebion at sgiliau a hyfforddiant ym maes TG a dysgu cyfunol, a chafwyd nifer o sylwadau hefyd ar y gallu i ddatblygu adnoddau. Cafwyd sylwadau eraill yn cyfeirio at sgiliau llythrennedd a mathemateg, yr angen i baratoi cyn unrhyw sesiwn, ymgysylltu â dysgwyr a rhieni, y gallu i addasu/bod yn hyblyg, gwydnwch,

darparu adborth cryno yn syth, yr angen i sicrhau bod mentoriaid profiadol ar gael yn ogystal ag arweiniad gan arweinwyr, hyder i greu fideos diddorol, a datblygu amrywiaeth o dasgau heb roi gormod o bwyslais ar un dasg. Roedd nifer bach o sylwadau (n=3) wedi canolbwyntio mwy ar les, gyda dau yn canolbwyntio ar yr angen i osod llwyth gwaith realistig, a'r llall yn canolbwyntio ar yr angen i allu sicrhau eich iechyd a'ch lles eich hun:

‘Therapi ymddygiad gwybyddol, cwnsela, hyfforddiant, datblygiad personol o safbwynt ein lles.’

- 3.75 Dim ond rhai sylwadau a gafwyd a oedd yn ymwneud yn benodol ag anghenion iaith myfyrwyr AGA, ond roedd rhai ymatebwyr eraill wedi pwysleisio pwysigrwydd sesiynau byw (gan gynnwys caneuon gyda phlant iau) er mwyn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg

‘Ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd a'r sgil o osod cyfarwyddiadau yn glir a syml i ddisgyblion’

‘Lefel uchel o sgiliau Cymraeg i fagu hyder a defnyddio mwy o'r Gymraeg’

4. Canfyddiadau'r Holiaduron i Rieni

Cyflwyniad

- 4.1 Yn gyffredinol, roedd y rhieni a ymatebodd i'r holiadur yn ddibrofiad ym maes addysgu. **Nid** oedd gan y rhan fwyaf ohonynt unrhyw brofiad o addysgu cyn y cyfyngiadau symud (67% o blith y grŵp 'Oedolyn 1'; 'Oedolyn 2' - 69%'; 'Oedolyn 3' - 79%; 'Oedolyn 4' - 88%; 'Oedolyn 5' - 83%; 'Oedolyn 6' - 100%). Fel y gellir gweld yn Nhabl 4.1, ychydig iawn a ddywedodd eu bod yn athrawon neu eu bod wedi bod yn athrawon, neu fod ganddynt unrhyw brofiad arall o fod yn 'athro' e.e. Ysgol Sul neu ym maes chwaraeon:

Tabl 4.1: Profiad addysgu fesul oedolyn ar yr aelwyd

	Profiad blaenorol o addysgu				Cyfanswm
	Athro / Athrawes	Arfer bod yn athro	Ysgol Sul, chwaraeon ac ati	Dim	
Oedolyn 1 (n=527)	17% (n=91)	2% (n=12)	13% (n=69)	67% (n=355)	n = 527
Oedolyn 2 (n=458)	11% (n=52)	6% (n=28)	14% (n=64)	69% (n=314)	n = 458
Oedolyn 3 (n=63)	5% (n=3)	2% (n=1)	14% (n=9)	79% (n=50)	n = 63
Oedolyn 4 (n=17)	6% (n=1)	-	6% (n=1)	88% (n=15)	n = 17
Oedolyn 5 (n=6)	-	-	17% (n=1)	83% (n=5)	n = 6
Oedolyn 6 (n=3)	-	-	-	100% (n=3)	n = 3
Cyfanswm	n = 65	n = 41	n = 144	n = 742	n = 1074

- 4.2 Mae mwyafrif yr ymatebion i'r holiadur, felly, yn cynrychioli teuluoedd a oedd yn gwbl 'newydd' i addysgu, ond mae'n aneglur i ba raddau y byddai'r rhieni hyn wedi helpu eu plentyn/plant gyda'u gwaith cartref o dan amgylchiadau arferol. Roedd yn bwysig, felly, asesu safbwyntiau rhieni a oedd yn 'newydd' i addysgu, ond a oedd hefyd yn 'newydd' i'r Gymraeg (gweler pwynt 2.42 yn yr adran Methodoleg i gael gwybodaeth am alluoedd ieithyddol y rhieni).

- 4.3 Bydd yr adran ganlynol yn canolbwyntio ar brofiadau a barn rhieni/gwarcheidwaid di-Gymraeg y mae eu plentyn/plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, fel yr adlewyrchir yn eu hymatebion i gyfres o 21 o ddatganiadau (gweler Tabl 4.2).
- 4.4 Yna, caiff yr ymatebion hyn eu hategu gan ymatebion yr holl rieni i'r 34 cwestiwn arall. Roedd y 34 o gwestiynau yn cynnwys cwestiynau caeedig (data meintiol) a chwestiynau penagored (data ansoddol).
- 4.5 Roedd is-set o dîm rheoli'r prosiect wedi dadansoddi'r data ansoddol. Daeth naw prif thema i'r amlwg o'r data: (i) cyfathrebu, (ii) adnoddau ac ymgysylltu, (iii) cymorth i rieni a disgyblion, (iv) adborth ac asesu, (v) cynnydd o ran sgiliau Cymraeg, (vi) anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg gartref, (vii) lles, (viii) rhieni fel addysgwyr, a (ix) ffactorau economaidd-gymdeithasol andwyol.
- 4.6 Caiff canlyniadau cyfun (ansoddol a meintiol) y 34 o gwestiynau eraill yn yr holiadur eu trafod mewn perthynas â'r naw prif thema a amlinellir uchod.

Rhieni di-Gymraeg sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg

- 4.7 Roedd cyfres o 21 o ddatganiadau yn ceisio barn rhieni di-Gymraeg ar y graddau roeddent yn teimlo bod ysgolion wedi llwyddo i gyfathrebu â rhieni ac wedi ystyried anghenion penodol rhieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a'r heriau penodol a oedd yn eu hwynebu. Cafodd y datganiadau hyn eu cynnwys fel ffactorau mesuredig (ffactor o fewn cyfranwyr) mewn dadansoddiad chi sgwâr, gyda rhywedd, Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, Cofrestr ADY, a Chyflawniadau Addysgol¹³ wedi'u cynnwys fel newidynnau rhwng cyfranwyr.
- 4.8 Caiff ymatebion rhieni di-Gymraeg i'r datganiadau hyn eu dangos yn Nhabl 4.2 isod.
- 4.9 Ar y cyfan, roedd rhieni'n eithaf bodlon bod ysgolion yn deall yr heriau a oedd yn eu hwynebu fel rhieni di-Gymraeg, a'u bod wedi gwneud gymaint ag y gallent i'w cefnogi i helpu eu plentyn/plant i ymgysylltu â'r gwaith a osodwyd gan yr ysgol, o dan amgylchiadau anodd iawn. Roedd hyn yn cynnwys rhoi cyfarwyddiadau dwyieithog ar gyfer y gwaith a osodwyd, annog disgyblion i rannu eu gwaith â'r

¹³ Ni chafodd prydau ysgol am ddim ei gynnwys fel newidyn gan fod mwyafrif yr aelwydydd lle roedd plant yn cael prydau ysgol am ddim ymhlith disgyblion a oedd yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg.

ysgol, awgrymu adnoddau cyfrwng Cymraeg ar-lein, bod ar gael i drafod â'r disgyblion neu'r rhieni yn ôl yr angen, a rhoi cyfarwyddiadau yn Saesneg yn ôl yr angen.

- 4.10 Fodd bynnag, pan roedd gwaith yn cael ei osod yn Gymraeg yn unig, roedd rhieni di-Gymraeg yn teimlo nad oedd ysgolion o reidrwydd yn gwerthfawrogi'r her roeddent yn ei chreu (50% yn 'cytuno/cytuno'n gryf', 27% ddim yn siŵr, 23% yn anghytuno/anghytuno'n gryf). Roeddent yn teimlo hefyd nad oedd digon o gyfarwyddiadau Saesneg ar gael i'w galluogi i helpu eu plentyn/plant â'r tasgau a osodwyd (48% yn cytuno/cytuno'n gryf; 23% ddim yn siŵr; 28% yn anghytuno/anghytuno'n gryf), ond dywedodd y rhan fwyaf ohonynt fod cyfarwyddiadau Saesneg wedi cael eu rhoi lle bo hynny'n addas (53% yn cytuno/cytuno'n gryf; 22% ddim yn siŵr; 26% yn anghytuno/anghytuno'n gryf). Yn yr un modd, teimlai llawer o'r rhieni bod yr ysgol yn canolbwyntio mwy ar ddarparu popeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn hytrach na darparu popeth yn ddwyieithog er budd y rhieni (53% yn cytuno/cytuno'n gryf; 24% ddim yn siŵr; 24% yn anghytuno/anghytuno'n gryf). Roedd rhieni hefyd o'r farn nad oedd ysgolion wedi gwneud dim i fynd i'r afael â'r ffaith nad oedd y rhieni'n deall Cymraeg (58% yn cytuno/cytuno'n gryf; 23% ddim yn siŵr; 18% yn anghytuno/anghytuno'n gryf) ac ystyriwyd bod deunydd dwyieithog yn cael ei ddefnyddio i roi cymorth mwy 'arwynebol' yn hytrach nag fel adnodd i helpu rhieni di-Gymraeg (53% yn cytuno/cytuno'n gryf; 23% ddim yn siŵr; 25% yn anghytuno/anghytuno'n gryf).

Tabl 4.2: Ymatebion i ddatganiadau ynghylch cymorth a chyfathrebu: rhieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg

Datganiad	Anghytuno'n gryf	Anghytuno	Ddim yn siŵr	Cytuno	Cytuno'n gryf
i Roedd yr ysgol yn deall yr heriau a oedd yn ein hwynebu fel rhieni di-Gymraeg wrth i ni geisio annog ein plentyn/plant i ymgysylltu â gwaith mewn iaith nad oeddem yn ei deall	8% (n=20)	18% (n=43)	18% (n=44)	23% (n=56)	33% (n=79)
ii Roedd yr ysgol wedi darparu digon o gymorth i sicrhau bod rhieni di-Gymraeg yn gallu helpu eu plant â'r gwaith a osodwyd	13% (n=32)	16% (n=40)	18% (n=43)	23% (n=56)	30% (n=73)
iii Roedd yr ysgol wedi darparu taflenni gwaith dwyieithog a chyfarwyddiadau dwyieithog fel y gallai'r rhieni weithio drwy'r problemau ar y cyd â'r plentyn	12% (n=29)	13% (n=31)	16% (n=40)	23% (n=55)	36% (n=88)
iv Lle bo angen, roedd yr ysgol wedi rhoi cyfarwyddyd iaith/esboniadau Saesneg i'r rhieni hynny oedd heb fawr ddim Cymraeg	15% (n=36)	11% (n=26)	22% (n=54)	21% (n=51)	32% (n=77)
v Roedd yr ysgol yn cydymdeimlo'n fawr â sefyllfa rhieni di-Gymraeg a gwnaeth addasiadau rhesymol i'r ffordd y byddai'n dosbarthu gwaith cartref i'r disgyblion fel arfer	15% (n=34)	11% (n=27)	30% (n=73)	17% (n=41)	27% (n=65)
vi Roedd yr ysgol wedi darparu digon o weithgareddau dwyieithog fel y gallai'r rhieni weithio ar y problemau/gweithgareddau ar y cyd â'r disgybl a gofyn cwestiynau er mwyn ei ysgogi i feddwl	14% (n=34)	13% (n=32)	24% (n=57)	20% (n=49)	29% (n=69)
vii Nid oedd yr ysgol yn gwerthfawrogi pa mor anodd oedd hi i rieni di-Gymraeg geisio helpu eu plentyn â thafenni gwaith a ddarparwyd yn Gymraeg er bod taflen wybodaeth gyffredinol ddwyieithog wedi cael ei darparu	12% (n=29)	11% (n=27)	27% (n=64)	16% (n=39)	34% (n=81)
viii Nid oedd yr ysgol wedi gwneud dim i helpu rhieni nad oeddent yn deall Cymraeg	10% (n=25)	8% (n=20)	23% (n=55)	21% (n=51)	37% (n=90)

ix	Nid oedd rhieni di-Gymraeg yn cael digon o gyfarwyddyd yn Saesneg i'w galluogi i helpu eu plentyn gyda'r gweithgareddau a ddarparwyd	14% (n=34)	14% (n=36)	23% (n=58)	16% (n=41)	32% (n=81)
x	Teimlwyd bod gohebiaeth ddwyieithog yn ddi-werth ac nad oedd yn gwneud dim i helpu rhieni di-Gymraeg â'r dasg dan sylw	9% (n=21)	16% (n=37)	23% (n=55)	17% (n=39)	36% (n=84)
xi	Nid oeddwn wedi gallu ymgysylltu â'r gwaith a roddwyd felly creais fy ngweithgareddau fy hun ar gyfer fy mhlentyn	7% (n=16)	11% (n=27)	18% (n=43)	14% (n=34)	50% (n=118)
xii	Roedd yr ysgol wedi darparu llawer o ddolenni i adnoddau Cymraeg ar-lein	5% (n=12)	11% (n=28)	25% (n=60)	30% (n=72)	27% (n=65)
xiii	Roedd fy mhlentyn yn cael ei annog i rannu ei waith â'r ysgol	2% (n=6)	4% (n=10)	12% (n=29)	25% (n=60)	57% (n=139)
xiv	Roedd fy mhlentyn yn cael adborth ar y gwaith roedd yn ei gyflwyno yn Gymraeg	10% (n=24)	9% (n=23)	17% (n=41)	26% (n=63)	38% (n=93)
xv	Gallai fy mhlentyn gysylltu â'i athro yn hawdd pe bai'n cael unrhyw anawsterau â'r iaith	7% (n=16)	9% (n=22)	16% (n=38)	31% (n=76)	38% (n=93)
xvi	Roeddwn yn gallu cysylltu ag athro pe bawn i'n cael anawsterau â'r iaith	10% (n=23)	8% (n=20)	23% (n=56)	28% (n=68)	31% (n=75)
xvii	Mae gallu fy mhlentyn yn y Gymraeg wedi dirywio yn ystod y cyfyngiadau symud	14% (n=34)	29% (n=69)	22% (n=54)	14% (n=34)	21% (n=50)
xviii	Nid yw sgiliau Saesneg fy mhlentyn wedi datblygu yn ystod y cyfyngiadau symud	5% (n=11)	12% (n=29)	26% (n=62)	23% (n=54)	34% (n=82)
xix	Nid yw fy mhlentyn wedi datblygu gymaint ag y dylai o safbwynt academaidd am nad oeddwn yn gallu ei helpu gyda'i waith yn Gymraeg	14% (n=35)	24% (n=58)	21% (n=52)	18% (n=44)	22% (n=54)
xx	Roedd yr ysgol yn canolbwyntio gormod ar ddarparu popeth yn Gymraeg ac nid ar osod tasgau dwyieithog fel y gallai rhieni helpu eu plentyn drwy'r gwaith	10% (n=23)	14% (n=33)	24% (n=57)	23% (n=55)	30% (n=73)

xxi	Roedd fy mhlentyn wedi parhau i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r Gymraeg ond nid ei hyder i siarad Cymraeg	12% (n=30)	27% (n=66)	27% (n=66)	15% (n=37)	18% (n=43)
-----	---	------------	---------------	---------------	---------------	---------------

(Pob χ^2 (4, 276 - 287) = 21.15 - 285.58, pob $ps < .05$)

- 4.11 O ganlyniad, teimlai llawer o rieni fod angen iddynt greu eu tasgau eu hunain (yn Saesneg yn ôl pob tebyg) am nad oeddent yn gallu gweithio gyda'u plentyn ar y gwaith a osodwyd gan yr ysgol (64% yn cytuno/cytuno'n gryf; 18% ddim yn siŵr; 18% yn anghytuno/anghytuno'n gryf).
- 4.12 Fodd bynnag, er bod 40% o rieni o'r farn nad oedd eu plentyn/plant wedi datblygu fel y dylai/dylent o safbwynt academiaidd am nad oeddent hwy fel rhieni yn gallu ei/eu helpu â'r gwaith, roedd 38% yn anghytuno â'r datganiad hwn (nid oedd 21% yn siŵr). Gallai'r patrwm ymateb hwn adlewyrchu'r cyfarwyddyd addysgol parhaus roedd y rhieni hyn yn ei roi i'w plentyn/plant - yn Saesneg - gan ddefnyddio ffynonellau Saesneg roeddent wedi'u creu eu hunain.
- 4.13 Mae'n ddiddorol y nododd y mwyafrif o'r rhieni fod eu plant wedi cael adborth ar eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg (64% yn cytuno/cytuno'n gryf; 17% ddim yn siŵr; 19% yn anghytuno/anghytuno'n gryf), er bod ysgolion wedi darparu digon o gyfarwyddiadau dwyieithog ar gyfer y gwaith a chyfarwyddiadau Saesneg lle bo angen. Roedd hyn yn golygu na allai rhieni weld pa mor dda roedd eu plentyn yn ymdopi â'r gwaith.
- 4.14 Er gwaethaf yr heriau a oedd yn eu hwynebu, dim ond 35% o'r rhieni hyn a oedd yn teimlo bod gallu eu plentyn yn y Gymraeg wedi dirywio dros gyfnod y cyfyngiadau symud, sy'n ffigur is na'r farn a fynegwyd gan yr athrawon. Roedd 43% o'r rhieni yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn (nid oedd 22% yn siŵr). I'r gwrthwyneb, roedd rhieni yn fwy beirniadol o sgiliau Saesneg eu plentyn/plant, gyda 57% ohonynt o'r farn bod sgiliau Saesneg eu plentyn/plant wedi dirywio o gymharu â 17% a ddywedodd eu bod yn anghytuno â'r datganiad hwn. Yn olaf, roedd 28% yn anghytuno bod eu plentyn wedi colli hyder yn Gymraeg tra bod 33% yn teimlo ei fod wedi colli hyder (nid oedd 27% yn siŵr).
- 4.15 Yn y rhan fwyaf o achosion, ni welwyd bod rhywedd wedi cael unrhyw effaith. Roedd yr unig arwydd o duedd arwyddocaol yn ôl rhywedd y rhieni yn y data yn ymwneud â'r datganiad 'Roedd fy mhientyn yn cael ei annog i rannu ei waith â'r ysgol'. Yn yr achos hwn, roedd mwy o ddynion wedi dewis 'anghytuno rhywfaint' â'r datganiad hwn na menywod ($\chi^2 (10, N=254) = 22.04, p>.05$), a allai adlewyrchu'r ffaith nad oeddent hwy eu hunain wedi annog eu plentyn/plant i wneud hynny neu

ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gwaith a osodwyd gan yr ysgol. Roedd gweddill yr ymatebion i'r datganiad hwn yn gyfartal bron ymhlith dynion a menywod ac, ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn (78% o ymatebwyr).

- 4.16 Yn yr un modd, dim ond mewn perthynas â phum datganiad y gwelwyd bod y Lefel Addysg Uchaf wedi cael effaith, sef Datganiad v, ix, x, xii, and xix (pob χ^2 (25, N=254) \geq 36.96, $p < .05$) a dim ond mewn perthynas â dau ddatganiad y gwelwyd bod Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy wedi cael effaith, sef Datganiad viii a x (pob χ^2 (25, N=254) \geq 19.88, $p < .05$). Gwelwyd yr effeithiau hyn am fod rhieni ag addysg ar lefel Diploma/Gradd a'r rhai nad oedd ganddynt blant ar raglenni Gweithredu gan yr Ysgol/Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy wedi polareiddio barn yn gryfach o ran 'cytuno'n gryf' na rhieni eraill. Gwelwyd effaith ADY mewn perthynas â phob datganiad (pob χ^2 (25, N=254) \geq 7.002, $p < .05$) sy'n awgrymu nad oedd ymatebion rhieni plant ag ADY yn dilyn yr un patrwm ag ymatebion rhieni plant heb ADY, sy'n cefnogi'r syniad bod gan deuluoedd plant ag ADY anghenion unigol a phenodol sy'n galw am gymorth wedi'i wahaniaethu.
- 4.17 Mae'r adran nesaf yn cyflwyno canlyniadau'r 34 cwestiwn arall yn yr holiadur, a atebwyd gan bob rhiant. Caiff y canlyniadau o'r data ansoddol a meintiol eu cyflwyno gyda'i gilydd o dan y naw thema a amlinellir o dan 4.5 uchod.

Data gan bob rhiant

Thema 1: Cyfathrebu a gohebiaeth gan yr ysgol

- 4.18 O gofio'r angen i gyflwyno darpariaeth addysgu wyneb yn wyneb, ar y campws i blant gweithwyr rheng flaen a phlant agored i niwed ar y naill law, a darpariaeth dysgu o bell oddi ar y campws i blant a oedd yn gorfod parhau â'u haddysg gartref ar y llaw arall, roedd y cyfathrebu a'r ohebiaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn hollbwysig er mwyn sicrhau llwyddiant, ac yn enwedig o safbwynt rhieni a oedd yn 'athrawon newydd'. Mewn cyd-destunau lle nad oedd gan y rhieni unrhyw sgiliau Cymraeg ond roedd eu plant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, roedd y cyfathrebu a'r ohebiaeth hon hyd yn oed yn bwysicach er mwyn i ddisgyblion barhau i ddysgu a pharhau i ymgysylltu â'u sgiliau Cymraeg a'u defnyddio. Roedd hyn yn galw am waith cynllunio ychwanegol, fel yr amlinellwyd yn

yr ymatebion gan athrawon a nodwyd yn Adran 3 uchod. Fodd bynnag, roedd y graddau y gallai rhieni gefnogi eu plentyn/plant yn ieithyddol er mwyn ei alluogi/eu galluogi i barhau i ymgysylltu â'r Gymraeg wrth ddysgu yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys i ba raddau roeddent wedi ymgysylltu â'r cymorth a ddarparwyd a'i ddefnyddio. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu natur y cymorth a ddarparwyd, ynghyd â phrofiad rhieni o'r cymorth hwnnw a'u hymgysylltiad ag ef.

- 4.19 Rhieni â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg a gynigiodd y mwyafrif o safbwyntiau mewn perthynas â chyfathrebu a gohebiaeth, ac roedd y safbwyntiau hyn yn gadarnhaol ar y cyfan, gan adlewyrchu eu hymateb i'r datganiadau yn Nhabl 4.2. Nododd llawer fod cyfathrebu a gohebiaeth gan ysgolion a chyswllt ag ysgolion yn ddigonol, yn amrywio o negeseuon dyddiol gan y Pennaeth i fynediad aml-gyfrwng diderfyn at athrawon ac adborth gan athrawon. Dywedodd nifer sylweddol o ymatebwyr fod ysgolion yn rhagweithiol ac wedi ymateb yn dda – mewn modd amserol – i geisiadau am gymorth gan rieni, gydag ysgolion yn defnyddio ystod o ddulliau ac arferion yn amrywio o negeseuon yn dweud eu bod bob amser ar gael dros y ffôn, athrawon a phenaethiaid ar gael drwy negeseuon, rhai yn cynnig galwadau ffôn strwythuredig a chynlluniedig bob pythefnos, gydag eraill yn sicrhau eu bod ar gael drwy Microsoft Teams drwy gydol y diwrnod ysgol. Nododd un ymatebydd fod cyfle i'w blentyn siarad Cymraeg ag athro am gyfnod penodol o amser yn ystod yr wythnos. Yn wir, roedd un rhiant wedi canmol y profiad cyfan yn fawr:

'roedd hi'n hawdd cael gafael ar athrawon ...roeddem yn teimlo ein bod yn cael ein cynnwys ym mhob agwedd a dylid canmol y staff addysgu i gyd.'

- 4.20 Fodd bynnag, nid oedd y cyfathrebu a'r ohebiaeth yn ddigonol ym mhob achos, gyda rhai rhieni'n nodi y byddent wedi hoffi cael mwy:

'mwy o gyfathrebu'

'byddai galwad ffôn wedi helpu i gadw mewn cysylltiad.....roedd yr ysgol gynradd wedi gwneud hyn ond nid yr ysgol uwchradd ac roedd hyn wedi rhoi pwysau arna i fel rhiant ac wedi gwneud i mi deimlo'n ynysig'

‘Cyfathrebu gwael iawn – problem â gwaith plentyn ac roedd wedi cymryd dros 100 o ddiwrnodau i gysylltu â'r rhiant’

‘Disgwyl mwy o gyfathrebu rhwng tiwtoriaid a'r plentyn’

‘Cyswllt rheolaidd (ffôn/neges destun neu e-bost) rhwng yr ysgol â'r rhieni (nid y disgybl yn unig drwy Teams) er mwyn sicrhau bod y plentyn a'r rhiant yn gallu deall y gwaith a osodwyd yn ddigonol.’

4.21 Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd rhieni â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog fod yr ysgol wedi cyfathrebu â nhw'n ddwyieithog (71%, n=248/349) (gweler Tabl 4.3). Adleisiwyd hyn yn y data ansoddol, gyda sylwadau fel a ganlyn:

‘Anfonwyd pob aseiniad gyda chyfarwyddiadau yn Gymraeg a Saesneg, fel bod y rhieni'n gwybod beth oedd y dasg. Roedd yr athrawon ar gael i'r myfyrwyr a'r rhieni pe bai unrhyw broblemau'n codi.’

4.22 Nid yw'n glir o'r data hyn p'un a oedd hyn yn arfer cyffredin yn yr ysgol beth bynnag neu'n rhywbeth a gafodd ei gyflwyno o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud (gweler hefyd y drafodaeth ynghylch y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â pholisïau iaith ysgolion a fynegwyd gan athrawon o dan Adran 3, Thema 3, pwyntiau 3.12-3.17 uchod).

Tabl 4.3: Yr iaith a ddefnyddiodd ysgolion i gyfathrebu â rhieni yn ôl rhieni yn y tri grŵp iaith

Yr iaith a ddefnyddiodd yr ysgol i gysylltu â rhieni yn ystod y cyfyngiadau symud					
	Dim ymateb	Cymraeg	Dwyieithog	Saesneg	Arall
Rhiant CS	1	0.7% (n=4)	13% (n=70)	20% (n=106)	0.4% (n=2)
Rhiant CC: di-Gymraeg	-	3% (n=16)	35% (n=187)	9% (n=49)	0.4% (n=2)
Rhiant CC: Cymraeg	-	7%(n=36)	11% (n=61)	0%	-
Cyfanswm	n=1	n=56	n=155	% (n=1)	(n=4)

$\chi^2 (8, N=534) = 196.45, p < .001$

4.23 Fodd bynnag, roedd 56 o ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (10% o'r sampl gyfan) yn cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, ac roedd 49 o ysgolion yn cyfathrebu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Saesneg:¹⁴

'Byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael negeseuon e-bost Hwb yn ddwyieithog...methu â deall rhywfaint o'r gwaith am ei fod yn Gymraeg'

'byddai wedi bod yn ddefnyddiol cyfieithu'r gwaith i'r Saesneg'

'Yr amserlen Teams yn Saesneg!! Rwy'n credu y dylai'r holl waith fod wedi bod yn ddwyieithog fel y gallai rhieni di-Gymraeg roi cymorth ac ymgysylltu â'r gwaith a osodwyd. Doeddwn i ddim yn gwybod nad oedd fy mab wedi cyflwyno ei waith i gyd nes i mi gael yr adroddiad ffurfiol ar ddiwedd y tymor. Mae hyn yn hollol annerbyniol ac fe wnes i anfon neges e-bost i'r ysgol i gwyno'

4.24 Yn yr un modd, pan osodwyd gwaith i ddisgyblion ei gwblhau yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd yn tueddu i gyd-fynd â chyfrwng ieithyddol yr ysgol, ond roedd y mwyafrif helaeth o'r gwaith a rannwyd gan ysgolion cyfrwng Cymraeg yn ddwyieithog (78%, 210/268):

Tabl 4.4: Iaith y gwaith ysgol a osodwyd yn ôl rhieni yn y tri grŵp iaith

	Iaith y gwaith ysgol a osodwyd yn ystod y cyfyngiadau symud				
	Dim ymateb	Cymraeg	Dwyieithog	Saesneg	Arall
Rhiant CS	9	2% (n=10)	11% (n=58)	20% (n=100)	1% (n=6)
Rhiant CC: di-Gymraeg	3	13% (n=72)	29% (n=154)	0.7% (n=4)	4% (n=21)
Rhiant CC: Cymraeg	2	7%(n=35)	10% (n=56)	0%	0.7% (n=4)
Cyfanswm	n=14	22% (n=117)	50% (n=268)	19% (n=104)	6% (n=31)

χ^2 (8, N=534) = 243.22, $p < .001$)

¹⁴ Mae'n aneglur o hyd, fodd bynnag, p'un a yw rhai ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cyfathrebu ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg bob tro, sy'n golygu y gallai'r rhieni Cymraeg (y grŵp Rhiant CC: Cymraeg) yn Nhabl 4.3 adlewyrchu'r ffaith eu bod ond yn ymgysylltu â'r wybodaeth Gymraeg y maent yn ei chael a bod rhieni di-Gymraeg ond yn ymgysylltu â'r wybodaeth Saesneg (y grŵp Rhiant CC: di-Gymraeg).

4.25 Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu ar natur yr ohebiaeth ddwyieithog ynghylch y gwaith a osodwyd, nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod y gwaith fel arfer wedi'i gyfieithu'n uniongyrchol. Fodd bynnag, nododd un fod mwy o fanylion yn y fersiynau Saesneg nag yn y Gymraeg, sy'n awgrymu bod ysgolion wedi ymhelaethu ymhellach ar y tasgau ar gyfer rhieni di-Gymraeg, a dywedodd rhai bod y cyfarwyddiadau'n glir:

'Roedd [yr ysgol] wedi rhoi gwybodaeth mewn Saesneg syml a oedd wedi fy ngalluogi (darllenwr Cymraeg nad yw'n rhugl) i ddeall y dasg dan sylw yn llawn. Byddai Oedolyn 1 sy'n rhugl yn y Gymraeg yn darllen y dasg i'n plentyn yn Gymraeg bob amser'

'Rwy'n credu bod y cyfieithiad yn gyfieithiad uniongyrchol. Gan ddefnyddio'r taflenni gwaith dwyieithog, roeddwn wedi gallu helpu fy mhlant oedran cynradd yn hawdd.'

'Cymraeg a Saesneg clir. Yn aml mewn dogfennau ar wahân.'

'Oedd – roedd yr ohebiaeth yn glir ac yn hawdd ei dilyn'

'Cyfarwyddiadau dwyieithog clir'

4.26 Cyfeiriodd un rhiant at amrywiaeth rhwng athrawon:

'Roedd yn amrywio o athro i athro, weithiau cyfieithiad oedd e', weithiau fersiwn hollol wahanol'

4.27 Nododd un rhiant â phlentyn yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg fod disgyblion weithiau'n cael dewis ym mha iaith yr hoffent gwblhau eu tasgau:

'Cyfarwyddiadau clir - dewis weithiau pa iaith i wneud y gwaith gyda'r eithriad o waith 'Cymraeg' fel testun'

4.28 Er i ddau riant wneud sylwadau cadarnhaol ar ansawdd y cyfieithiadau, roedd y cyfieithiad Saesneg wedi peri rhai problemau i rai rhieni di-Gymraeg:

'Cyfieithiad o'r Gymraeg am nad oedd rhai geiriau'n eistedd yn gywir yn y testun'

‘Cyfieithiad uniongyrchol i ryw raddau. Roedd y termau Cymraeg yn anghyfarwydd iawn ac yn eithaf anodd i'r plant eu deall a'u dilyn. Nid oedd yn darllen yn rhugl ac roedd yn cymryd amser i'w ddeall.’

‘Cyfieithiad uniongyrchol ond weithiau gyda chyfarwyddiadau. Weithiau, roedd geiriau Saesneg anghywir yn y cyfieithiad.’

- 4.29 Nododd rhai rhieni fod y gwaith a/neu'r cyfarwyddiadau wedi eu darparu'n ddwyieithog ond nad oedd y deilliannau dysgu wedi'u nodi'n glir, sy'n awgrymu nad oeddent yn deall beth oedd diben y dasg:

‘Yr un wybodaeth yn Saesneg ac yn Gymraeg gan yr ysgol gynradd. Dim ond cyfarwyddiadau ar gyfer y dasg a roddwyd. Ni roddwyd nodau/deilliannau dysgu.’

‘Roedd yn gyfieithiad uniongyrchol. Ni roddwyd deilliant ar gyfer y gweithgaredd.’

‘Dim cyd-destun, yn anffodus. Cyfieithiad uniongyrchol.’

‘Cyfieithiad uniongyrchol – dim cyfarwyddyd.’

‘Roedd y tasgau cynhwysfawr yn anodd iawn eu dehongli! Pe bawn i wedi cael esboniad o'r dasg yn Saesneg, byddwn wedi teimlo'n llawer mwy hyderus wrth helpu fy mhientyn. Byddai galwad ffôn wedi rhoi hyder a sicrwydd i mi nad oeddwn ar fy mhen fy hun’

- 4.30 Er efallai nad problem iaith oedd hon i bob pwrpas, mae'n bosibl bod diffyg sgiliau Cymraeg rhieni di-Gymraeg wedi golygu eu bod yn llai ymwybodol o ddiben a chyfeiriad gweithgaredd penodol os mai dim ond y dasg ei hun a gyfieithwyd. Serch hynny, nododd un rhiant, er bod y disgwyliadau dysgu yn aneglur, fod yr wybodaeth a ddarparwyd (nad oedd yn gyfieithiad uniongyrchol) yn ddefnyddiol:

‘Efallai nad oedd yn ymwneud â'r hyn yr oedd disgwyl iddynt ei ddysgu, ond nid cyfieithiad uniongyrchol oedd e'. Roedd yn ddefnyddiol iawn.’

- 4.31 Fodd bynnag, cafwyd sylwadau cadarnhaol gan ddau riant ar y cysylltiad rhwng y cyfieithiad a'r deilliant:

‘Wedi'i gyfieithu yn ogystal â chyfeirio at yr hyn yr oedd disgwyl i'r plentyn ei ddysgu o'r gweithgaredd’

‘Roedd rhywfaint o arweiniad ynghylch amcanion’

4.32 Nododd llawer o'r rhieni fod cynghorion yn cael eu rhoi hefyd, yn ogystal â chyfieithiadau:

‘Roeddent wedi rhoi cyngor defnyddiol ar gyfer cwblhau'r gwaith’

‘Digon o gynghorion defnyddiol’

4.33 Fodd bynnag, roedd rhai achosion o hyd o ddiffyg cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r rhieni, yn enwedig mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg:

‘Roedd yr unig wybodaeth ddwyieithog yn ymwneud â'r ysgol gyfan yn hytrach na gwaith ysgol’

‘Nid yw'r ysgolion yn darparu cyfieithiadau Cymraeg. Yn y gorffennol, rwyf wedi gofyn o bryd i'w gilydd am gyfieithiadau Saesneg ac rwyf wedi cael fy ngwrthod’

‘Nid ydym yn cofio'r cyfleuster hwn [cyfieithu]’

‘Nid oeddent wedi darparu cyfieithiadau dwyieithog ar gyfer y gwaith a osodwyd, dim ond y diweddariad dyddiol gan y pennaeth’

‘Dim ond negeseuon cyffredinol i gymuned yr ysgol roedd yr ohebiaeth ddwyieithog ddyddiol ac nid oedd yn benodol i addysg ddyddiol fy merch’

‘Bu'n rhaid i mi ddefnyddio Google Translate er mwyn helpu fy mhlentyn’

‘Ni ddarparwyd gohebiaeth ddwyieithog’

‘Mae'r llythyrau gan yr ysgol yn ddwyieithog. Mae'r gwaith i gyd yn Gymraeg.’

‘Cymraeg yn unig heblaw am Saesneg [fel pwnc]’

4.34 Mewn un achos, daeth y gwahaniaeth rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i'r amlwg, a gwelwyd bod mwy o gyfieithiadau ar gael mewn perthynas â gwaith yn y sector cynradd:

‘Roedd y cynradd wedi gwneud hynny ond nid yr uwchradd’

- 4.35 Awgrymodd rhai rhieni mai'r rheswm dros hyn oedd y canfyddiad bod disgyblion uwchradd yn gallu deall y gwaith eu hunain.
- 4.36 Dywedodd rhai ymatebwyr nad oedd hi'n glir ym mha iaith yr hoffent i'w plentyn gwblhau'r gwaith a osodwyd ac y byddai eu
 'plentyn wedi'i chael hi'n anodd cwblhau'r gwaith ar ei phen ei hun yn Gymraeg ac weithiau byddai'r gwaith i gyd yn cael ei ddychwelyd yn Saesneg.'
- 4.37 Dywedodd rhai fod eu "plant yn gallu rheoli eu gwaith eu hunain". Dywedodd rhai fod eu plentyn hynaf wedi gallu helpu gyda chyfieithiadau.
- 4.38 Nododd rhieni oedd â rhai plant mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg a rhai mewn ysgolion cyfrwng Saesneg y byddent wedi hoffi cael mwy o gymorth gan yr ysgolion yn gyffredinol mewn perthynas â gwaith cartref Gymraeg a chael y gwaith yn Saesneg hefyd er mwyn gallu helpu eu plant. Teimlai rhai y byddai wedi bod yn ddigonol sicrhau bod aelod o staff ar gael i drafod y gwaith ac awgrymodd eraill "lwyfan i'r plant siarad â'i gilydd dros Zoom er mwyn ymarfer siarad Gymraeg". Aeth eraill ymhellach gan awgrymu:
 'Mae'r gwaith a roddir yn Gymraeg yn unig i'r myfyrwyr yn iawn, ond byddai'n ddefnyddiol i'r rhieni gael cyfieithiad Saesneg drwy e-bost/ar wefan yr ysgol. Cyswllt rheolaidd (ffôn/neges destun neu e-bost) rhwng yr ysgol â'r rhieni (nid y disgybl yn unig drwy Teams) er mwyn sicrhau bod y plentyn a'r rhiant yn gallu deall y gwaith a osodwyd yn ddigonol'
- 4.39 Cafodd maint y baich a roddwyd ar y dysgwr i gyfieithu tasgau a gyflenwyd yn Gymraeg yn unig ei amlygu yn y sylw hwn gan riant plentyn/disgybl ag Anghenion Dysgu Ychwanegol:
 'Eglurais, hyd yn oed cyn COVID-19, nad oeddwn yn gallu deall yr hyn yr oedd gofyn i'm merch ei wneud yn llawn am ei fod yn ymddangos yn Gymraeg yn unig yn Show my Homework. Mae ganddi awtistiaeth ac mae'n cael anawsterau â chyfarwyddiadau llafar ac os caiff traethawd ei osod ar ei chyfer, er enghraifft, rwy'n hoffi gwneud yn siŵr ei bod wedi deall y cwestiwn yn llawn.'
- 4.40 Felly, roedd y ddarpariaeth ddwyieithog a gynigiwyd gan ysgolion cyfrwng Gymraeg a dwyieithog yn amrywiol iawn. Roedd yr amrywiaeth hon yn cynnwys enghreifftiau

o arferion gwyb ar y naill law, lle roedd ysgolion wedi darparu cyfieithiadau, cynghorion a/neu ddolenni i'r deilliannau dysgu/tasg, ac enghreifftiau o gymorth anghyflawn ac amharoddrwydd i gyfieithu ar y llaw arall. Er bod yr ysgolion hynny a barhaodd i gyfathrebu yn Gymraeg yn bennaf wedi gwneud hynny o bosibl er mwyn parhau â'u hymrwymiad i ddarparu addysg drochi effeithiol, mae'r pandemig wedi codi cwestiynau dilys am y rolau gweithredol sydd gan rieni i'w chwarae o fewn model dysgu a ddatblygir ar y cyd. Yng nghyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r cwestiynau hyn yn ymwneud â'r ffordd orau o gynnwys rhieni di-Gymraeg fel cydweithwyr neu bartneriaid yn addysg eu plentyn/plant, gan sicrhau bod eu plentyn/plant yn parhau i ymgysylltu'n llawn â'r Gymraeg ac yn cael ei drochi/eu trochi yn yr iaith.

- 4.41 O gofio pa mor ddibrofiad roedd rhieni wrth addysgu eu plant eu hunain gartref, a'r ffaith bod yr amgylchedd addysgu newydd hwn yn anghyfarwydd i athrawon, gofynnwyd i rieni a oedd ysgolion wedi trafod â nhw ar unrhyw adeg ac mewn unrhyw ffordd, yr her o osod tasgau a oedd yn annog y defnydd o'r Gymraeg i deuluoedd nad oeddent yn siarad Cymraeg gartref. Yn y rhan fwyaf o achosion (54%), nid oedd ysgolion wedi trafod yr heriau hyn â rhieni, sy'n adleisio sylwadau'r athrawon eu hunain, a dywedodd 31% arall nad oeddent yn siŵr:

Tabl 4.5: Nifer a chyfran yr ysgolion a oedd wedi trafod yr her o helpu plant gyda chynnwys Cymraeg yn y cartref

	Ie	Na	Ddim yn siŵr	Arall
Rhiant CS	2% (n=9)	21% (n=113)	11% (n=60)	0.2% (n=1)
Rhiant CC: di-Gymraeg	8% (n=43)	27% (n=142)	13% (n=67)	0.4% (n=2)
Rhiant CC: Cymraeg	2% (n=9)	6% (n=34)	7% (n=38)	3% (n=16)
Cyfanswm	11% (n=61)	54% (n=289)	31% (n=165)	4% (n=19)

$\chi^2 (6, N=534) = 82.36, p < .001$

- 4.42 Fodd bynnag, mae'r patrwm arwyddocaol a welir yn y data yn awgrymu mai'r grŵp o rieni a oedd fwyaf tebygol o fod wedi cael trafodaethau o'r fath ag ysgolion oedd rhieni di-Gymraeg a oedd yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg (y rhieni 'Cymraeg').

Crynodeb o Thema 1:

- 4.43 Roedd rhieni'n fodlon ar y cyfan ar y ffordd roedd ysgolion wedi cyfathrebu a gohebu â nhw yn ystod y cyfyngiadau symud, ond roedd y trefniadau hynny wedi methu mewn rhai achosion. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi cyfathrebu â rhieni'n ddwyieithog, ond darparwyd llawer o enghreifftiau lle nad oedd ysgolion wedi cyfathrebu â rhieni mewn iaith yr oeddent yn ei deall. Roedd ysgolion cynradd wedi tueddu i ddarparu mwy o gymorth o safbwynt cyfathrebu a gohebu priodol ynghylch gwaith nag ysgolion uwchradd. Roedd tuedd i ddarparu gohebiaeth ddwyieithog ar ffurf cyfieithiadau uniongyrchol, a oedd yn gweithio'n dda mewn sawl cyd-destun. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau o achosion lle nad oedd deilliannau dysgu, cyfarwyddiadau cyffredinol na diben tasg benodol wedi cael eu rhoi mewn iaith y gallai'r rhieni ei deall er mwyn helpu eu plentyn/plant.

Thema 2: Adnoddau

- 4.44 Er mwyn ystyried ymgysylltiad rhieni ag adnoddau cyfrwng Cymraeg, gofynnwyd i rieni am yr adnoddau a oedd eisoes ar gael yn y cartref yn ogystal â'u hymgysylltiad â'r adnoddau (dwyieithog yn bennaf) a ddarparwyd gan yr ysgolion.
- 4.45 Yn gyffredinol, dywedodd rhieni nad oedd ganddynt fawr ddim adnoddau cyfrwng Cymraeg yn y cartref. Dangosodd dadansoddiadau chi sgwâr effaith sylweddol yn ymwneud â faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a oedd ar gael yn y cartref ($\chi^2 (10, N=534) = 179.85, p<.001$), sy'n awgrymu mai'r teuluoedd a oedd fwyaf tebygol o gael rhywfaint o adnoddau cyfrwng Cymraeg yn y cartref yn barod oedd y rhai â phlant yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (n=107):

Tabl 4.6: Faint o adnoddau Cymraeg a oedd gan deuluoedd yn y cartref

Faint o adnoddau Cymraeg sydd yn y cartref				
	Dim ymateb	Dim/ychydig iawn	Ddim yn siŵr	Rhywfaint/llawer
Rhiant CS	30	24% (n=126)	2% (n=11)	3% (n=16)
Rhiant CC: di-Gymraeg	20	28% (n=148)	8% (n=44)	8% (n=42)
Rhiant CC: Cymraeg	5	3% (n=15)	2% (n=12)	12% (n=65)
Cyfanswm	55	54% n=289	13% (n=67)	23% (n=123)

4.46 Gofynnodd cwestiwn dilynol faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg roedd rhieni wedi'u prynu yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud. Unwaith eto, dangosodd hyn effaith sylweddol (χ^2 (10, $N=534$) = 72.83, $p<.001$) gyda mwyafrif y rhieni'n dweud nad oeddent wedi prynu unrhyw adnoddau cyfrwng Cymraeg, ond roedd y rheini a wnaeth brynu adnoddau o'r fath yn tueddu i fod yn rhieni â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg/dwyieithog (er bod y niferoedd yn isel – $n=22$):

Tabl 4.7: Faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a brynwyd gan y grwpiau gwahanol o rieni yn ystod y cyfyngiadau symud

Faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a brynwyd yn ystod y cyfyngiadau symud					
	Dim ymateb	Dim/ychydig iawn	Ddim yn siŵr	Rhywfaint/llawer	Cyfanswm
Rhiant CS	44	25% (n=136)	0.6% (n=3)	0%	183
Rhiant CC: di-Gymraeg	55	33% (n=177)	2% (n=13)	2% (n=9)	254
Rhiant CC: Cymraeg	10	11% (n=61)	2% (n=13)	2% (n=13)	97
Cyfanswm	109	70% (n=374)	5% (n=29)	4% (n=22)	534

4.47 Yn ystod y cyfyngiadau symud, roedd yn amlwg bod ysgolion wedi bod yn weithgar iawn yn rhoi adnoddau a syniadau am adnoddau i rieni. Dywedodd y mwyafrif o rieni (63%, $n=337$), ym mhob un o'r grwpiau gwahanol (Rhiant CS - 60%, $n=109$; Rhiant CC: di-Gymraeg - 65%, $n=166$; Rhiant CC: Cymraeg - 64%, $n=62$) fod ysgolion wedi darparu rhestrau o adnoddau y gallai rhieni eu defnyddio gyda'u plant (χ^2 (6, $N=534$) = 6.71, $p>.05$).

4.48 Yn ôl y data ansoddol a ddaeth i law, roedd rhieni'n fodlon iawn ar y cymorth a gawsant gan ysgolion i ddod o hyd i adnoddau ategol i gefnogi gwaith ysgol yn y cartref (y tu hwnt i'r hyn a ddarparwyd gan ysgolion) a bod athrawon wrth law i roi cymorth hefyd. Fodd bynnag, soniodd un rhiant nad oedd adnoddau/llyfrau gwaith ar gael yn Gymraeg a'i fod wedi gofyn i'r ysgol cyn y pandemig am restr o nofelau gydag awgrymiadau oedran, ond na chafodd ymateb.

4.49 Roedd pob un o'r ymatebwyr heblaw dau wedi canmol addasrwydd yr adnoddau a ddarparwyd gan ysgolion i wneud gwaith ysgol yn y cartref gyda'u plant. Roedd y rhain yn cynnwys dolenni i wefannau, llyfrau mewn llyfrgelloedd cymunedol, gwefannau defnyddiol gan gynnwys cyfieithu, sianeli radio a rhaglenni teledu, ac apiau dysgu Cymraeg. Roedd rhai ysgolion wedi cynnig dosbarthiadau Cymraeg wedi'u teilwra ac roedd eraill wedi cynnig mynediad uniongyrchol at Gynorthwydd Cymorth Dysgu. Nododd y ddau ymatebydd arall nad oeddent wedi cael yr un lefel o gymorth gan ysgolion, fel y dangosir gan y dyfyniad uniongyrchol hwn gan riant sydd â phlentyn yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg:

'Ychydig iawn o waith a ddarparwyd, prin oedd y cyswllt a chymorth gwael iawn. Roedd plant mewn hybiau gofal plant yn llawn amser ac ni chlustnodwyd unrhyw amser i wneud gwaith ysgol, nid oedd unrhyw anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr hybiau.'

4.50 Fodd bynnag, ychydig iawn o rieni a nododd eu bod wedi argraffu unrhyw rai o'r adnoddau Cymraeg a ddarparwyd, a'r rhai a oedd fwyaf tebygol o wneud hynny oedd rhieni Cymraeg a oedd yn anfon eu plant i ysgolion cyfrwng Cymraeg (χ^2 (10, $N=534$) = 79.37, $p<.001$):

Tabl 4.8: Faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a argraffwyd gan rieni yn ystod y cyfyngiadau symud

Faint o adnoddau cyfrwng Cymraeg a argraffwyd yn ystod y cyfyngiadau symud					
	Dim ymateb	Dim/ychydig iawn	Ddim yn siŵr	Rhywfaint/llawer	Cyfanswm
Rhiant CS	37	22% (n=115)	1% (n=8)	4% (n=23)	183
Rhiant CC: di-Gymraeg	41	19% (n=101)	4% (n=23)	17% (n=89)	254
Rhiant CC: Cymraeg	7	8% (n=43)	4% (n=21)	4% (n=26)	97
Cyfanswm	85	49% (n=259)	10% (n=52)	26% (n=138)	534

4.51 Roedd y mwyafrif o'r safbwyntiau a gynigiwyd gan rieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn perthynas ag argaeledd a digonolrwydd

adnoddau â'u hymgysylltiad eu hunain â nhw pan gawsant gyfle i ymhelaethu ar eu hymatebion yn yr holiadur.

- 4.52 Er bod y safbwyntiau ynghylch adnoddau yn gadarnhaol ar y cyfan, cynigiwyd awgrymiadau ar gyfer gwella'r ddarpariaeth. Roedd yr awgrymiadau hyn yn canolbwyntio ar yr angen am wasanaethau cyfieithu, canllawiau dwyieithog a chyfarwyddiadau ar gyfer rhieni ac adnoddau llafaredd. Cymharodd un ymatebodd ddarpariaethau ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd a nododd fod tasgau ysgolion cynradd yn cael eu hesbonio'n ddwyieithog ond nad oedd digon o hyn yn digwydd yn yr ysgolion uwchradd (cf. 4.34).
- 4.53 Er enghraifft, mynegodd rhieni di-Gymraeg sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Gymraeg bryderon a straen ynghylch y ffaith nad oes digon o arweiniad i helpu rhieni ynghylch sut i wneud gwaith gyda'u plant gan na allai rhai ddeall y gwaith yn Gymraeg, ac roedd eraill am gael adnoddau gwell yn Gymraeg er mwyn sicrhau bod tasgau'n cael eu cyflawni'n briodol. Roedd y mwyafrif o'r farn bod angen gwasanaethau cyfieithu, neu
- ‘byddai galwad gan athro wedi helpu i gael gwybod sut a ble i gael gafael ar adnoddau.’
- 4.54 Roedd eraill am gael arweiniad ar
- ‘sut i gynnwys defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg a sut i gefnogi llafaredd iaith Gymraeg.’
- 4.55 Rhoddodd rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg ymatebion llai penodol a mwy cyffredinol fel *‘byddai unrhyw help a chyngor yn cael croeso mawr’*, ond eu bod yn dibynnu ar Google translate gan na fyddent yn gwybod sut i addysgu plant beth bynnag ac y byddent wedi hoffi cael yr athrawon i ynganu'r geiriau ac ymadroddion sylfaenol ac ati. Soniodd un sylw am beryglon rhieni yn ymddieithrio â'r Gymraeg fel pwnc:
- ‘Mae angen i mi wybod sut i addysgu fy mhlant mewn pynciau mwy defnyddiol.’
- 4.56 Roedd yr ymatebion a gafwyd gan rieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynd i ysgolion dwyieithog yn ystyried pa mor ddefnyddiol yw'r deunyddiau addysgu a

dysgu a ddarparwyd gan yr ysgol o ran moddolrwydd, a'r lefelau ymgysylltiad â nhw:

'Mwy o ryngweithio dros fideo rhwng y plant a'u hysgolion – yn enwedig ar gyfer y plentyn hynaf – anaml iawn yr oedd hi'n rhyngweithio'n gymdeithasol yn ystod y cyfyngiadau symud (gan ein bod ni yn y gwaith roedd ei brawd mewn canolfan gofal plant), roedd hi hefyd yn meddwl bod ymgysylltiad â gwaith ysgol yn llwyr drwy ddogfennau Word yn ddiflas, ac effeithiodd hyn ar ei chymhelliant. Roedd hyn yn wir hyd yn oed ar gyfer pynciau a addysgir drwy'r Saesneg, ond roedd yn waeth ar gyfer pynciau a addysgir drwy'r Gymraeg.'

Crynodeb o Thema 2:

- 4.57 Prin iawn oedd y teuluoedd a nododd eu bod yn berchen ar adnoddau cyfrwng Cymraeg neu wedi prynu rhai yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd y rhai oedd yn berchen ar rai neu oedd wedi prynu rhai yn tueddu i fod yn deuluoedd Cymraeg. Nododd y rhan fwyaf o'r rhieni bod yr ysgolion yn darparu digon o syniadau am adnoddau a chymorth i ddod o hyd i adnoddau. Fodd bynnag, prin iawn oedd y rhieni a oedd wedi argraffu'r adnoddau a rannwyd, a chanfu rhai bod yr adnoddau'n annigonol ac y byddent wedi gwerthfawrogi dulliau cyfathrebu amgen, yn cynnwys recordiadau i helpu â phatrymau ynganu.

Thema 3: Cymorth i rieni a disgyblion

- 4.58 Gofynnwyd i'r rhieni rannu unrhyw sylwadau mewn perthynas â'u profiadau a'u harsylwadau cyffredinol ynghylch addysgu eu plant gartref yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, yn benodol mewn perthynas â'r cymorth a gawsant gan ysgolion.
- 4.59 Ar y cyfan, roedd rhieni Cymraeg sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn llawn canmoliaeth am eu profiadau:

'Wedi mwynhau. Yr ysgol wedi bod yn wych. Nes i hefyd greu adnoddau fy hun er mwyn atgyfnerthu addysg fy mhlant'

'Yr ysgol a'r athrawon wedi gwneud popeth o fewn eu gallu'

4.60 Nododd rhai fod cyfle i gael dialog a chyfathrebu agored â'r ysgolion a'r athrawon a bod yr ysgolion yn ymateb i bryderon ac yn rhoi cymorth ar y cyfan. Soniodd un ei fod wedi datblygu

‘parch o'r newydd tuag at athrawon a'r proffesiwn addysgu.’

4.61 Ar nodyn cadarnhaol, soniodd rhai fod y cyfyngiadau symud wedi gwella sgiliau astudio annibynnol y plant. Tynnodd eraill sylw at y modd y mae'r cyfyngiadau symud wedi cyflwyno heriau o fewn teuluoedd, yn enwedig y teuluoedd hynny na allant gefnogi plant o grwpiau oedran gwahanol, deall cynnwys y cwricwlwm, monitro cynnydd yn y gwaith a gyflwynwyd, absenoldeb adborth, cyfarwyddiadau aneglur, amgylchiadau personol yn y cartref, problemau meddygol, a'r rheini a oedd yn Weithwyr Allweddol dynodedig.

4.62 Nododd rhai nad oedd angen cymorth arnynt oherwydd y gallai eu plant hynaf helpu'r plant iau, neu fod gan eu plant ddigon o gymhelliant a hyder fel nad oedd angen help arnynt. Roedd eraill yn pryderu na roddwyd digon o ddarpariaeth gan ysgolion, gan ychwanegu at y cymhlethdodau o ran rhannu technoleg yn y cartref a darpariaeth ar-lein:

‘Roedd hi'n anodd ysgogi fy mhlentyn ieuengaf i ymgymryd â'r gwaith. Ni ddarparwyd llawer o waith iddynt - roedd rhai ysgolion yn derbyn gwersi ar-lein helaeth. Nid hwn oedd ein profiad ni. Roedd fy mhlentyn hyn yn gallu cario mlaen a'i gwaith heb ymyrraeth gen i ac roeddwn yn ffyddiog ei bod yn gallu gwneud hynny yn annibynnol.’

4.63 Soniodd rhai y byddent wedi hoffi cael mwy o gymorth gan ysgolion:

‘Rwy'n credu y byddai mwy o help dwyieithog gyda dealltwriaeth well wedi helpu i roi cyfarwyddiadau gwell i'r plant. Gellid bod wedi gwneud galwad ffôn neu gynnal cyfarfod zoom i drafod problemau ieithyddol.’

4.64 Soniodd eraill am broblemau yn ymwneud â'r heriau o ran defnyddio ac ymgysylltu â'r dechnoleg a ddefnyddiwyd i ddysgu ac addysgu:

‘Roeddwn i ar goll. Roedd yn cymryd cymaint o amser i gyfieithu popeth a doeddwn i ddim yn gwybod sut i ddefnyddio Teams, a'r rhan fwyaf o'r amser

doedden ni ddim yn gallu llenwi'r atebion yn y bylchau gan nad oedd yn gweithio.'

4.65 Soniodd eraill am yr anawsterau a gafodd teuluoedd gyda phroblemau cydnawsedd a chysylltedd.

4.66 Soniodd rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion dwyieithog am faint o waith a roddwyd dros y cyfnod hwn:

'roedd gormod o waith yn cael ei roi yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf'

4.67 Soniodd eraill ei bod yn anoddach cymell y plant yn ystod yr ail gyfyngiadau symud, ac nad oeddent yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn y cyfnod hwnnw:

'Roedd fy mhlant yn casáu hynny a doeddwn i ddim yn barod i'w gorfodi i gwblhau tasgau. Wnaeth yr ysgol ddim gofyn a oeddem yn ymdopi'n iawn'

4.68 Nododd rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg na cafodd llawer o Gymraeg ei addysgu na'i siarad a bod diffyg darpariaeth Gymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud. Byddent wedi hoffi cael mwy o gymorth mewn perthynas â'r iaith Gymraeg drwy fideos yn cynnwys ynganiad ffonetig.

4.69 Fodd bynnag, roedd yr holl brofiad yn heriol i rieni sydd â phlant ag ADY:

'Roedd yn anodd iawn, yn enwedig i'm mab iau sy'n aros i gael ei asesu ar gyfer ASD'

'Mae gen i un plentyn ag ADY a gollodd rhai gwersi Cymraeg oherwydd darpariaeth ADY, felly mae hi'n ei chael hi'n anodd, ac mae'n cael anawsterau mawr gyda'r Gymraeg ers aildechrau mynd i wersi. Mae'n anodd i mi ei helpu gan fod gen i lai o Gymraeg na hi.'

4.70 Roedd un rhiant sydd â rhai plant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac eraill mewn ysgolion cyfrwng Saesneg o'r farn y gallai'r ysgol fod wedi gwneud llawer mwy i'w cefnogi:

'Ni chawsom gymaint o gefnogaeth ag y gallem fod wedi'i chael. Cawsom un alwad ffôn gan yr ysgol yn holi sut oedden ni. Roedd hyn yn syndod i mi. Bu fy mhlentyn 10 oed yn defnyddio Bitesize yn bennaf.'

4.71 Ar y cyfan, roedd rhieni di-Gymraeg am gael mwy o gymorth a chyswllt gan yr ysgolion a gwnaethant roi cyngor penodol ar ba agweddau y gellid eu gwella (cf. 3.74 uchod):

‘Byddai cael rhestr o'r pynciau a gwmpesir a'r nodau dysgu ar gyfer pob tasg, wedi'u rhestru ar wefan yr ysgol yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn adnodd gwerthfawr iawn i fyfyrwyr ac i rieni, wrth gwblhau gwaith o gartref a gwaith cartref arferol.’

4.72 Yn olaf, roedd cyfnodau pontio mewn addysg yn arbennig o anodd i blant a oedd newydd drosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg heb unrhyw help gan rieni nac athrawon.

Crynodeb o Thema 3:

4.73 Ar y cyfan, roedd rhieni Cymraeg yn llawn canmoliaeth o'r cymorth a gafwyd yn ystod y cyfyngiadau symud, er gwaethaf y ffaith bod y cyd-destun ei hun yn heriol iawn i lawer o deuluoedd. Fodd bynnag, ar y cyfan, roedd rhieni di-Gymraeg o'r farn y gallent fod wedi cael mwy o gefnogaeth, yn enwedig o ran helpu eu plant â gwaith a oedd wedi'i osod yn Gymraeg, ac wrth ddatblygu eu cymhwysedd yn y Gymraeg.

Thema 4: Adborth ac asesu

4.74 Roedd gan y rhieni safbwyntiau cymysg ynghylch adborth, gyda rhai yn nodi eu bod wedi cael adborth amserol, ac eraill yn nodi mai prin iawn oedd yr adborth a gawsant:

‘Rhoddodd y rhan fwyaf o'r athrawon waith i'r disgyblion ac adborth amserol. Gweithiodd yn dda ac ni wnaeth yr iaith Gymraeg ddiodef. Rhannodd yr athrawon ddeunydd darllen a argymhellir yn yr iaith Gymraeg’

‘Colli allan ar waith pwysig, dim lawer o adborth nol felly anodd gwybod os oedd y gwaith yn gywir’

4.75 Roedd canfyddiadau'r rheini sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn tynnu sylw at ddiffyg adborth ar y tasgau a ddarparwyd, yn benodol mewn perthynas â'r Gymraeg:

'ni roddwyd unrhyw ymarfer llafar ac ychydig iawn o adborth a roddwyd, os o gwbl'

'Roedd gwaith wedi'i osod ond ni roddwyd unrhyw adborth unwaith yr oedd wedi'i gwblhau. Ni chafodd y gwaith ei farcio ac ni chafwyd unrhyw ryngweithio gan yr ysgol'

'Rhoddwyd llawer o waith i'm mab ei wneud ar adegau ond dim ond unwaith y cafodd adborth. O ganlyniad i hyn, nid yw wedi datblygu o ran yr iaith Gymraeg gan nad yw wedi cael adborth ar unrhyw agweddau cadarnhaol na negyddol ar ei waith. Ceisiais yn ofer i gysylltu â'r ysgol a'r unig ymateb a gefais oedd bod angen i mi werthfawrogi eu bod yn ysgol Hwb. Teimlais fod y gwaith yn cael ei osod i gadw'r plant yn brysur yn hytrach na chael ei osod am fod diben iddo gan nad oedd rhywfaint o'r gwaith yn cyd-fynd â'r cwricwlwm.'

- 4.76 Soniodd rhiant arall am y diffyg adborth a'r modd yr effeithiodd hyn yn negyddol ar hyder ei mab yn y Gymraeg:

'Mae hyn wedi effeithio ar ei sgiliau a'i hyder yn y Gymraeg gan ei fod wedi treulio llawer o amser yn cyflwyno gwaith, ond ni chafodd unrhyw adborth.'

Crynodeb o Thema 4:

- 4.77 Roedd y safbwyntiau ynghylch adborth yn gymysg. Er bod rhai rhieni o'r farn bod yr adborth yn ddefnyddiol a'i fod yn cael ei ddychwelyd mewn modd amserol, roedd sawl un arall o'r farn nad oedd digon o adborth, yn enwedig o ran y Gymraeg. Teimlwyd bod hyn yn effeithio ar hyder disgyblion gan nad oedd ganddynt syniad clir o ba mor dda roeddent yn gwneud cynnydd er gwaethaf y ffaith eu bod yn rhoi llawer o ymdrech i mewn i'r gwaith.

Thema 5: Cynnydd o ran sgiliau yn yr iaith Gymraeg

- 4.78 Yn unol â'r ymatebion a gafwyd gan athrawon (gweler Adran 3, Thema 7 uchod), ac ymateb rhieni i'r datganiadau yn Nhabl 4.2 uchod, mynegodd rhai rhieni bryderon ynghylch diffyg cynnydd eu plentyn o ran yr iaith Gymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud:

'Dirywiodd safon Cymraeg fy mhentyn yn sylweddol yn ystod y cyfyngiadau symud: arafodd ei eirfa yn sylweddol, a bu ond y dim iddo roi'r gorau i fod

eisiau ymgysylltu yn Gymraeg. Dyma brif fantais lleoliad ysgol cyfrwng Cymraeg – maent yn cael eu trochi yn yr iaith ac felly yn ymdeimlo'r iaith o'u cwmpas. Collwyd hynny yn ystod y cyfyngiadau symud ac yn fy marn i byddai gwersi ... wedi bod o gymorth mawr. Rwy'n gwerthfawrogi ei fod yn newydd i athrawon hefyd, y bu'n rhaid iddynt addasu'n gyflym, felly nid beirniadaeth yw hyn, dim ond arsylwad ar gyfer y dyfodol.'

4.79 Wrth gynnig esboniad ar gyfer y dirywiad hwn, cyfeiriodd un rhiant at y ffaith nad oedd ei blant wedi arfer defnyddio unrhyw Gymraeg gartref, ac nad oeddent yn dod i gysylltiad â phlant Cymraeg:

'Rwy'n credu ei bod yn deg dweud bod ei Gymraeg llafar wedi gwaethygu – mae bob amser yn siarad Saesneg gartref a gyda'i ffrindiau ac felly mae hyn yn trosglwyddo i'w fywyd yn yr ysgol'

4.80 Fodd bynnag, yn gyffredinol, nifer bach iawn o rieni a nododd fod amodau'r cyfyngiadau symud wedi effeithio'n andwyol ar eu sgiliau iaith Gymraeg.

4.81 Wrth ymateb i gwestiwn penagored am unrhyw sgiliau iaith cyffredinol a oedd wedi gwella yn ystod y cyfyngiadau symud, nododd rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg amrywiaeth eang o welliannau nad ydynt yn rhai ieithyddol, fel lles y teulu, sgiliau astudio annibynnol plant yn cynnwys hunaneffeithlonrwydd a hunanreolaeth, a hunanddisgyblaeth a hyder plant, a sgiliau digidol plant a rhieni, yn ogystal â gwelliannau ieithyddol fel:

'ysgrifennu a brawddegau'

'ymarferion darllen a sillafu'

'Anghenion iaith y plentyn ADY. Ffocws ar ffurfio llythrennau a rhifau'

'English reading and command of the language'

4.82 Cynigiwyd safbwyntiau cryf gan rai, sy'n awgrymu bod unrhyw fanteision o ran deilliannau addysgol (darllen, yn yr enghraifft benodol hon), oherwydd eu mewnbwn eu hunain yn hytrach na mewnbwn yr ysgol:

'Dysgodd fy mhlentyn 6 oed sut i ddarllen yn iawn, ond roedd hynny drwy fy mewnbwn i, nid yr ysgol!'

- 4.83 Prin oedd yr y matebwyr a nododd na chafwyd unrhyw welliannau amlwg, a nifer llai fyth a nododd bod eu sgiliau wedi dirywio. Ni nodwyd unrhyw wahaniaethau amlwg mewn sgiliau iaith Gymraeg ymysg rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, er y gallai hyn fod oherwydd anallu rhieni di-Gymraeg i farnu. Er bod hyn yn awgrymu nad oedd sgiliau iaith Gymraeg y disgyblion hyn wedi dirywio, nododd un sylw fod y sgiliau darllen a sillafu wedi dirywio oherwydd dyslecsia a amheuir.
- 4.84 Gofynnwyd i'r rhieni hefyd a oeddent wedi arsylwi unrhyw ddirywiad cyffredinol mewn unrhyw agweddau ar sgiliau iaith yn ystod y cyfyngiadau symud. Eto, dehonglodd rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg y cwestiwn mewn modd mwy cyffredinol, gan drafod cynnydd eu plentyn mewn termau pwnc benodol – mathemateg, gwyddoniaeth – a Chymraeg (ysgrifennu, darllen a sgwrsio) a sgiliau cymdeithasol ac emosïynol [yn gymwys i gartrefi un plentyn yn benodol], yn cynnwys dirywiad mewn iechyd meddwl, a hyder o ran dychwelyd i'r ysgol.
- 4.85 Un is-thema gref oedd bod rhieni wedi arsylwi ar ddirywiad mewn sgiliau iaith Gymraeg oherwydd diffyg parhad a hyder yn siarad Cymraeg sy'n gysylltiedig ag ynysu cymdeithasol.
- 4.86 Un thema lai, ond thema a ddaeth i'r amlwg drwy setiau data oedd dirywiad sgiliau (lleferydd) ar gyfer plant ag ADY – ynghyd â sgiliau echddygol manwl ar gyfer ysgrifennu.
- 4.87 Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr/rhieni nad oeddent yn defnyddio unrhyw Gymraeg gartref ac yr oedd eu plant yn mynd i ysgolion dwyieithog nad oeddent wedi arsylwi ar unrhyw ddirywiad mewn sgiliau ieithyddol ond nododd rhai faterion o ran darllen Cymraeg a hyder yn siarad Cymraeg (yn benodol ynganu geiriau'n gywir).
- 4.88 Nododd y rhan fwyaf o'r rhieni nad oeddent yn defnyddio'r Gymraeg gartref ac yr oedd eu plant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw ddirywiad mewn sgiliau iaith ar y cyfan ond efallai bod eu gafael ar eirfa Gymraeg a Saesneg wedi dioddef.
- 4.89 Eto, roedd ADY yn is-thema gref a gododd dro ar ôl tro ymysg rhieni di-Gymraeg:
'Dirywiodd Cymraeg fy mhentyn ADY gan nad yw ei chof yn wych ar y gorau ac nid yw dysgu ar-lein yn addas iddi.'

4.90 Cyfeiriwyd at enghraifft gyntaf o blentyn mwy abl a thalentog hefyd yn y cyd-destun hwn:

‘ar gyfer myfyriwr mwy abl a thalentog – effeithiwyd yn andwyol ar ei agwedd at ddysgu gan ei bod yn rhy hawdd rhuthro drwy rai mathau o waith.’

4.91 Rhoddodd rhieni nad oeddent yn defnyddio unrhyw Gymraeg gartref ac yr oedd eu plant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg ac eraill oedd yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg sylwadau tebyg, gyda dau ddyfyniad yn nodi'r gwahaniaeth yn y safbwyntiau a gynigiwyd a'r gyfatebiaeth a nodwyd:

‘colli gafael ar waith ysgol/tablau/darllen/ysgrifennu brawddegau; cwmpo tu ôl a ddim yn cael yr her o fod mewn dosbarth’

‘Brwdfrydedd tuag eu gwaith ysgol, ddim yn hoffi'r ysgol rwan-gormod o reolau.’

4.92 Mae sylw arall yn cyfeirio at y ffaith bod gafael ar iaith wedi cael ei golli ac wedi gwaethygu yn sgil y cyfyngiadau symud ac addysgu o gartref.

‘mae ganddi atal dweud ac roedd angen iddi aildechrau therapi lleferydd ar ôl llwyddo i'w reoli yn flaenorol.’

4.93 Nododd rhai nad oeddent wedi arsylwi bod eu sgiliau wedi dirywio.

Crynodeb o Thema 5:

4.94 Er bod barn rhieni am gynnydd/dirywiad eu plentyn/plant gyda'r iaith Gymraeg yn bennaf drwy eu pryderon/canfyddiadau am agweddau eraill ar ddatblygiad, o'r sylwadau a wnaed yn benodol mewn perthynas â'r Gymraeg, ni nodwyd unrhyw deimladau llethol o enillion na dirywiad. Nododd rhai rhieni enillion mewn galluoedd ieithyddol a nododd eraill agweddau ar ddirywiad a fyddai'n debygol o gael eu gwrth-droi unwaith y byddent yn dychwelyd i gyd-destun trochi.

Thema 6: Anogaeth i ddefnyddio'r Gymraeg

4.95 Heriwyd yr arfer o glywed a defnyddio'r Gymraeg, yn benodol ar gyfer plant sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg, gan y cyfyngiadau a ddaeth yn sgil y pandemig.

4.96 Aed i'r afael â'r her hon hefyd yn yr Hybiau a ddarparodd addysg barhaus ar y campws i blant Gweithwyr Allweddol a phlant o deuluoedd sy'n agored i niwed (cf. ymatebion athrawon yn 3.50 o dan Adran 3):

‘Dim anogaeth weithredol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr hybiau’

4.97 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd y plant yn byw mewn teuluoedd lle nad oedd yr un o'r rhieni yn siarad nac yn deall Cymraeg. Er bod ymgysylltiad â'r Gymraeg yn amlwg yn haws i blant sy'n byw mewn cartrefi lle mae eraill hefyd yn siarad Cymraeg, nid oedd cymhwysedd brodorol na galluoedd iaith L1 yn angenrheidiol nac yn hanfodol er mwyn i rieni a phlant ymgysylltu â'r Gymraeg:

‘Rwy'n credu ei bod yn haws am ein bod y dysgu Cymraeg. Rwy'n credu y byddem wedi cael trafferth pe na fyddem yn gallu deall unrhyw Gymraeg’

4.98 Fodd bynnag, gellir crynhoi safbwyntiau rhieni sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg o ran pwysigrwydd y Gymraeg mewn un dyfyniad:

‘Gwnaethom benderfynu fel teulu pa feysydd i ganolbwyntio arnynt ac roedd y Gymraeg ymhell i lawr y rhestr.’

4.99 Cyfeiriodd rhai rhieni at ddiffygion canfyddedig yn sgiliau Cymraeg llafar eu plentyn/plant:

‘Dirywiodd ei Chymraeg llafar yn ystod y cyfyngiadau symud gan nad oedd yn ei defnyddio’

4.100 Priodolodd eraill y duedd hon i'r diffyg amlygiad i'r iaith:

‘Ni chlywodd fy mhlant y Gymraeg yn cael ei siarad am sawl mis, ac yn sgil hyn roeddent yn ffafrio'r Saesneg’

4.101 Dim ond un rhiant a fynegodd bryder ynghylch ei ddewis o gyfrwng ieithyddol addysg ar gyfer ei blentyn:

‘Roeddem wir yn ystyried newid i ysgol Saesneg ar ôl ein profiad yn ystod y pandemig. Fel rhieni di-Gymraeg, gwnaethom benderfyniad anodd i anfon ein plentyn i ysgol Gymraeg. Roedd yr holl brofiad yn frwydr barhaus ac rwy'n difaru hyn weithiau’

Crynodeb o Thema 6:

- 4.102 Ar y cyfan, effeithiodd amodau'r cyfyngiadau symud ar amlygiad i Gymraeg lafar naturiol a chyfleoedd i ymgysylltu mewn sgysiau ystyrion, naturiol. Effeithiodd hyn ar barodrydd disgyblion i ymgysylltu â'r iaith a dylanwadodd ar benderfyniadau rhai teuluoedd i wthio'r Gymraeg i lawr y rhestr flaenoriaeth (cf. ymatebion athrawon – 3.31-3.33).

Thema 7: Lles

- 4.103 Gwnaed sawl sylw gan rieni yn nodi iechyd meddwl a lles plant mewn perthynas â'r swm llethol o waith a ddosbarthwyd gan ysgolion yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf – yn bennaf gan ysgolion uwchradd – fel y dangosir yn y dyfyniad hwn:

‘Doedd dim angen iddynt osod cymaint o waith i'r plant uwchradd. Roedd yn ormod ac roedd yn anodd i ni sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud ynghyd â gweithio'n llawn amser. A dirywiodd ei lles wrth iddi gael trafferth i gadw ar ben popeth.’

- 4.104 I'r gwrthwyneb i'r hyn a ddeallir ac a gymhwyswyd, nodir canlyniad a phwysigrwydd y thema hon yn y dyfyniad hwn:

‘Mae awtistiaeth fy merch yn golygu ei bod yn mynd yn bryderus iawn wrth adael y tŷ, felly byddwn i'n dweud bod ei hiechyd meddwl wedi gwella yn ystod y cyfyngiadau symud. O ganlyniad, mae ei gallu wedi gwella am nad oedd yn orbryderus. Rhoddodd y gorau i hunan-niweidio.’

- 4.105 Yn fwy cyffredinol, mynegodd ei rhieni bryder ynghylch effeithiau hirdymor posibl y cyfyngiadau symud ar iechyd a lles plant ym mhob achos:

‘Rwy'n credu'n gryf bod lles meddwl y plant wedi cael ei ddiystyru. Gwelwyd cynnydd enfawr yn nifer y bobl ifanc a gafodd fwy o orbryder, crychguriadau'r galon, datblygu ticiau echddygol a llafar, hunan-niwed uniongyrchol a dioddef o anhwylderau bwyta.’

Crynodeb o Thema 7:

- 4.106 Er nad oedd ffocws y sylwadau a drafodwyd o dan Thema 7 yn benodol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, roedd yn ymddangos bod dysgu yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud wedi arwain at ddirywiad mewn iechyd meddwl ymysg rhai

plant, ac wedi cynnig amser teuluol unigryw â ffocws oedd â'r nod o wella iechyd meddwl i eraill. Mae sicrhau cymorth priodol i ddisgyblion, ni waeth beth fo cyfrwng y cyfarwyddyd, yn bwysig, ac mae'n cynnwys ymgysylltiad priodol rhieni yn nysgu eu plant, fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, er mwyn diogelu iechyd meddwl.

Thema 8: Rhieni fel addysgwyr

4.107 Roedd y mwyafrif o'r rhieni yn mwynhau'r profiad addysgu gartref a gwnaethant sylwadau ar y nodweddion cadarnhaol canlynol:

‘Pleser rhan fwyaf nes i fwynhau amser adref gyda nhw a wedi siomi or ochr ora â'u addasiad i addysgu o gartref’

‘Wedi mwynhau'r profiad o fod adref yn addysgu fy mhlentyn yn fawr iawn. Roedd gennym 'routine' cyfarwydd, ond hyblyg. Rhoddwyd ffocws ar ddysgu darllen (Tric a Chlic am ddim) a dysgu cyfri, adnabod gwerth rhifau (Numicon)’

4.108 I rai, roedd addysg yn y cyfyngiadau symud yn gyfrwng ar gyfer lles teuluol gan ganolbwyntio ar faterion allgwricwlaidd:

‘Wnes i ddim addysgu fy mhlentyn gartref drwy gymryd yr awenau lle byddai'r ysgol wedi darparu addysg yn flaenorol. Rwy'n addysgu tosturi i fy mhlentyn, sut i fod yn ymholgar, yn hyderus ac yn wydn. Mae'r ysgol yn addysgu mathemateg a hanes ac ati iddi hi.’

4.109 Wynebodd rhai rhieni fwy o heriau nag eraill pan oedd yr uned deuluol yn cynnwys plant o bob rhan o'r sectorau addysg:

‘Cur pen go iawn... gwaith cyfrifiadur ddim yn 'compatible' a cysylltiad gwe sâl - heb sôn am 3 plentyn yn trio gwneud pethau gwahanol.’

4.110 Roedd rhai rhieni yn gweithio'n llawn amser (o gartref) drwy gydol y ddau gyfnod o gyfyngiadau symud, a gyflwynodd heriau ychwanegol:

‘Anodd iawn gan ein bod fel rhieni yn gweithio llawn amser yn ystod y cyfnod gyda pwysau gwaith uchel ac felly yn gweithio mwy o oriau na 37 awr yr wythnos yr un ac felly heb amser i wneud gwaith gyda'r plant. Oedd hyn yn anodd iawn ac yn bwysau mawr arnom ar y pryd. Ond wedi dod yn ei blaen yn

grêt nol yn yr ysgol. Hefyd oedd y ferch yn cychwyn yn yr uwchradd fis Medi ac felly ychydig anoddach iddi hi'

- 4.111 Caiff hyn ei ategu gan ddyfyniad arall sy'n sôn am deimladau o euogrwydd yn gysylltiedig ag ymrwmiadau ac arferion addysgu gartref:

'roedd cynnig cymorth addysgol ar yr aelwyd yn ystod oriau call yn amhosib. Mae hynny'n arwain at euogrwydd o fethu â'i dal hi bob pen'

- 4.112 Roedd rhai rhieni yn dal i weithio yn eu gweithle arferol sy'n gwneud addysgu gartref yn heriol:

'Roedd yn anodd cael yr hogie i weithio, gan nad oeddwn adre i'w cefnogi ac i sicrhau eu bod yn gweithio!'

- 4.113 Soniodd un arall am heriau addysgu gartref pan oedd eu hamser eisoes wedi'i neilltuo i'w swydd:

'Gan ein bod yn gweithio i'r gwasanaethau brys, doedd gennym ni ddim yr amser i addysgu gan fod gennym ni ein swydd ein hunain. Dylai addysg ein plant fod wedi cael ei gyflawni gan yr ysgol o hyd a dylent fod wedi cadw at yr amserlen a'r diwrnod ysgol.'

- 4.114 Mynegwyd safbwyntiau cryfach gan rai:

'nid yw'r rheini yn athrawon/addysgwyr hyfforddedig felly ni ddylid disgwyl iddynt addysgu eu plant fel pe byddent yn mynd i'r ysgol'

- 4.115 Cafodd y profiadau hyn eu herio ymhellach mewn teuluoedd lle roedd gan o leiaf un plentyn ADY:

'Roedd yn anodd addysgu'n dda a gweithio'n dda. Roeddech chi bob amser yn teimlo os byddech chi'n rhoi eich amser i un, byddai'r llall yn colli allan.'

'Ychydig iawn o addysgu a wnaed oherwydd dyletswyddau gwaith ac nad oedd cefnogaeth teulu yn sgil y cyfyngiadau. Roedd hyn yn arbennig o heriol a doedd Hwb ddim ar gael ... gan fod gan un plentyn ADY felly nid yw'n hoffi newid, a hefyd heriau o ran ymddygiad oherwydd diffyg trefn gyson a bod y ddau riant yn gweithio o amgylch ei gilydd ac yn darparu gofal plant'

Crynodeb o Thema 8:

- 4.116 Er nad yw Thema 8 yn gysylltiedig â materion iaith Gymraeg yn uniongyrchol, mae'n tynnu sylw at yr heriau ychwanegol a wynebwyd gan wahanol deuluoedd, yn benodol y rheini sydd â sawl plentyn sydd angen gallu defnyddio cyfrifiaduron ar yr un pryd, a'r rheini lle roedd rhieni'n gweithio'n llawn amser. Gall yr heriau hyn waethygu pan gaiff anawsterau cyfathrebu eu hychwanegu, sy'n awgrymu bod cymorth priodol yn hanfodol ar gyfer y teuluoedd hyn.

Thema 9: Ffactorau economaidd gymdeithasol andwyol

- 4.117 Tynnodd nifer bach o ymatebion sylw at heriau cudd addysg yn y cartref, yn cynnwys y gofyniad i greu adnoddau (argraffu) ac ymarferoldeb gallu defnyddio cyfrifiadur:

'Mwy o waith trwy Hwb i ysgolion cynradd yn hytrach nag argraffu pob darn ac yna i lan lwytho, llawer o bapur ac inc wedi cael ei brynu a'i wastraffu. Bydd e'n well cael y taflenni ar lein a modd i gwblhau y gwaith yna'

'Roedd yn anodd cael 4 plentyn a dim cyfrifiadur'

'Wnaeth yr ysgol ddim dangos cydymdeimlad tuag at ein problemau gyda gliniadur. Ffoniodd y dirprwy i ofyn pam nad oedd fy mhentyn yn e-bostio gwaith yn ôl. Dywedais fod ein gliniadur wedi arafu cymaint fel na ellir ei ddefnyddio, a dywedodd y dylwn i archebu un arall o Amazon ac y byddai'n cyrraedd y diwrnod canlynol! Dim ymwybyddiaeth o brinder arian pobl. Rydym yn ymdopi ar un cyflog oherwydd fy anabledd. Dywedodd wrthyf hefyd y dylwn i argraffu'r gwaith a doedd hi ddim i weld yn ymwybodol o bris inc argraffydd. Doeddem ni ddim yn gallu dilyn y gwaith felly roeddwn i'n tueddu i'w haddysgu o'r llyfrau addysgol oedd gennym ni eisoes. Roedd yr ysgol yn gofyn am flogiau drwy'r amser ynghylch sut roeddent yn teimlo am y pandemig. Mae fy mhentyn yn casau gorfod bod ar fideo a doeddwn i ddim am ganolbwyntio ar y pethau negyddol. Roedden nhw'n ddigon pryderus eisoes gyda rhiant sy'n weithiwr allweddol. Gofynnwyd i mi ble rydym yn byw ond dywedwyd ein bod yn byw yn rhy bell i gael benthycy cyfrifiadur. Roedd yn ymddangos mai dim ond teuluoedd Cymraeg oedd yn gallu benthycy cyfrifiaduron. Dim mwy o

godau QR chwaith diolch. Roeddent yn gosod gwaith yn gofyn iddynt wneud pethau, a heb lawer o gyflenwadau celf, roedd yn amhosibl'

4.118 Cafodd materion tebyg eu rhannu gan rieni oedd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Saesneg:

'Roedd yr holl brofiad yn anodd iawn heb gyfrifiadur na gliniadur er gwaethaf y ffaith fy mod wedi dweud wrth yr ysgol na chawsom unrhyw daflenni gwaith tan gyfyngiadau symud y cyfnod atal byr'

Crynodeb o Thema 9:

4.119 Mewn lleiafrif o achosion, ni allai'r rhieni helpu eu plentyn/plant i ymgysylltu â'r gwaith a ddarparwyd gan yr ysgol oherwydd problemau o ran argaeledd cyfarpar, yn cynnwys cyfrifiaduron ac argraffwyr.

5. Canfyddiadau o Gyfweiliadau a grwpiau ffocws gyda staff a myfyrwyr AGA

Cyflwyniad.

- 5.1 Cynhaliwyd nifer bach o gyfweiliadau (6 i gyd) gyda thiwtoriaid AGA a chynhaliwyd 3 grŵp ffocws hefyd gyda myfyrwyr AGA o'r tri sefydliad SAU a oedd yn rhan o'r prosiect hwn (Prifysgol Bangor, Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant). Er mwyn gwarchod hunaniaeth unigolion a sefydliadau, dyrannwyd cod i bob cyfweilai (gweler y tablau isod).

Tabl 5.1: Codau Tiwtoriaid AGA ac Arbenigedd Sector

	Cod Cyfweilai	Tiwtor Cynradd/Uwchradd
1	TA1	Cynradd
2	TB1	Cynradd ac Uwchradd
3	TB2	Cynradd ac Uwchradd
4	TB3	Cynradd ac Uwchradd
5	TC1	Cynradd ac Uwchradd
6	TC2	Uwchradd

Tabl 5.2: Codau Myfyrwyr AGA

	Cod Grŵp Ffocws	Cod Cyfweilai
1	FGA (5 cyfranogwr)	SA1; SA2; SA3; SA4; SA5
2	FGB (8 participants)	SB1; SB2; SB3; SB4; SB5; SB6; SB7; SB8
3	FGC (5 cyfranogwr)	SC1; SC2; SC3; SC4; SC5

- 5.2 Cafodd pob cyfweiliad a grŵp ffocws ei drawsgrifio a chynhaliwyd dadansoddiad thematig o'r themâu allweddol a'r is-themâu. Nodwyd naratif o'r themâu a gellir gweld data ansoddol a gymerwyd o'r cyfweiliadau a'r grwpiau ffocws isod a cheir crynodeb o'r themâu yn Nhabl 5.3.

Tabl 5.3: Themâu o Gyfweiliadau AGA (Staff) a Grwpiau ffocws (Myfyrwyr).

Themâu

1	Hyfforddiant
2	Adborth a Chanllawiau
3	Tasgau Llafar
4	Heriau darpariaeth ar-lein
5	Goblygiadau ar gyfer Darpariaeth yn y Dyfodol

5.3 Fel y nodir yn y tabl uchod, nodwyd themâu cyffredinol tebyg a chânt eu trafod ymhellach yn y naratif canlynol.

Thema 1: Hyfforddiant

5.4 Cyfeiriodd pob ymatebydd at ryw agwedd ar hyfforddiant staff a gynhaliwyd i sicrhau bod y staff yn gallu ymgyswrtu ag adnoddau ar-lein. Roedd y sesiynau hyfforddiant hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol ar ddysgu cydamserol/anghydamserol, yn ogystal â hyfforddiant ar y defnydd o lwyfannau amrywiol sydd ar gael h.y. Zoom/Microsoft Teams. Gwnaeth un SAU hefyd gydnabod rôl yr awdurdod lleol yn darparu cymorth allweddol i staff AGA a'u cyflwyno i adnoddau digidol amrywiol a ddefnyddir gan ysgolion yn yr awdurdod lleol:

‘gafon ni gefnogaeth wedyn gan tîm addysgu trwy dechnoleg gwybodaeth, a nathon nhw gynnal sesiynau i ni i ni gael ymgyswrtu fel tiwtoriaid ar ba fath o bethau sydd allan ‘na ar gyfer athrawon i addysgu, a rhyw fath o beth gallen ni fod yn gwneud o ran addysgu.’ TA1

5.5 Cyfeiriodd sawl cyfwelai mewn SAUau hefyd at rannu arferion diddorol a chefnogi ei gilydd wrth ymgyswrtu â'r dechnoleg newydd:

‘...helpu'n gilydd mewn ffordd hefyd yn de, mynd trwy'n gilydd a helpu'n gilydd a os yden ni wedi gweld arfer dda den ni'n mynd ar ôl y bobol yna a gofyn fasa modd cael rhyw fath o hyfforddiant.’ TB1

5.6 Cyfeiriodd un cyfwelai hefyd at fodlu arferion da ar gyfer hyfforddeion AGA a'r modd yr oedd eu dysgu/hyfforddiant eu hunain wedi'u cynorthwyo yn hyn o beth. Gwnaethant hefyd gydnabod y byddai'r hyfforddiant hefyd yn atgyfnerthu eu gwybodaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf,

'...dw i wedi bod yn trio modelu a rhannu syniadau o beth ellith rhywun wneud yn y maes o fewn y pwnc neu'r maes dysgu i osod gwaith i'r plant boed o'n gydamserol neu'n anghydamserol ...dwi wedi dysgu lot flwyddyn yma yn cydweithio efo fi'n hun a cael cydweithio efo cydweithwyr sydd yn dysgu yn yr ysgol, Dwi'n gobeithio erbyn y flwyddyn academaidd nesa fyddan ni mewn lle cryf rili.' TB3

5.7 Fodd bynnag, cyfeiriodd un sefydliad hefyd at y ffaith bod yr adnoddau a ddefnyddir a'r hyn y gellir ei gyflawni yn amrywio'n fawr drwy'r sectorau cynradd/uwchradd:

'...so beth wnaethon ni fel criw oedd derbyn hyfforddiant ein hunain i wybod sut i addysgu'r myfyrwyr, ond mae'r sgil a'r technegau o addysgu'r disgyblion, boed e'n cyfnod allweddol dau, cyfnod sylfaen a cyfnod allweddol 3, yr uwchradd, yn gwbl gwbl wahanol pan ydych chi'n ystyried y rhai 3 mlwydd oed i rhai 18 mlwydd oed.' TA1

5.8 Cyfeiriodd pob sefydliad at ryw agweddau ar hyfforddiant ar-lein ychwanegol ar gyfer hyfforddeion AGA, hyfforddiant a allai fod wedi cynnwys sesiynau mewnol a drefnwyd gan staff neu sesiynau allanol â chonsortia/awdurdod lleol. Mewn un enghraifft, penododd sefydliad hefyd aelod unigol o staff AGA i arwain y gwaith o hyfforddi athrawon dan hyfforddiant ar lwyfannau digidol. Er bod yr hyfforddiant a ddarparwyd yn y sefydliadau yn amrywio o ran eu hymdrech i baratoi athrawon dan hyfforddiant i ddefnyddio llwyfannau ar-lein, cyfeiriodd sawl un at hyfforddiant ar lwyfannau fel Microsoft Teams a Google Classroom, a meddalwedd/apiau fel Seesaw, Mood Board, Adobe Spark, Flipgrid, ac ati.

5.9 Cafwyd gwahaniaethau eraill mewn hyfforddiant AGA mewn sefydliadau yn ystod y cyfnod hwn (yn bennaf yn sgil COVID-19 ac yn unol â chanllawiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru). Mewn rhai sefydliadau, roedd rhai myfyrwyr allan ar leoliad cyn y Nadolig ac aeth darparwyr AGA eraill ati i ddiwygio strwythur eu cwrs yn y gobaith y byddai mwy o gyswllt wyneb yn wyneb ar ôl y Nadolig. Gall y newidiadau hyn yn strwythur y cwrs fod wedi galluogi rhai sefydliadau i lunio rhagor o gyfarwyddiadau cyn y Nadolig a gallai myfyrwyr eraill fod wedi dysgu sut i ddefnyddio llwyfannau yn ystod eu lleoliad ynghyd ag athrawon eraill yn ysgolion eu lleoliadau.

5.10 Gwnaeth darparwyr AGA hefyd gydnabod y bydd profiadau unigol a'r defnydd o llwyfannau a meddalwedd ar leoliadau yn anochel yn amrywio ymysg hyfforddeion, ond y gall y gwahaniaethau hyn fod yn fwy amlwg wrth addysgu ar-lein:

'...mae profiad pawb, fel arfer ta beth efo unrhyw ymarfer dysgu yn wahanol, ond oherwydd y sefyllfa yma mae'r gwahaniaethau yn amlygu. Dydi hynna ddim yn ddrwg o beth achos mae e jest yn adlewyrchu'n gwahaniaeth. Ni wedi ceisio paratoi pawb ar gyfer hyn ond wrth gwrs mae eu sgiliau nhw'n datblygu wrth i amser fynd yn ei flaen.' TA1

5.11 Fel y nodwyd yn flaenorol, wrth drafod hyfforddiant staff, cyfeiriodd pob ymatebydd at yr angen i addasu, a hysbyswyd hyfforddeion bod ysgolion unigol yn defnyddio llwyfannau gwahanol a bod angen i hyfforddeion addasu yn unol â hynny. Gan fod gan ddarparwyr AGA gysylltiadau agos ag ysgolion gwnaethant lwyddo i sicrhau bod ysgolion yn cael eu hysbysu y byddai angen arweiniad penodol ar hyfforddeion, ynghyd â rhagor o hyfforddiant ar llwyfannau efallai, gan yr ysgolion eu hunain er mwyn iddynt gydymffurfio â pholisi yr ysgol ei hun. Felly, byddai rhywfaint o drafodaeth wedi digwydd ond roedd angen hyblygrwydd gan yr athrawon dan hyfforddiant hefyd:

'...paratoi grid ar eu cyfer nhw gyda rhyw fath o top tips a gadael gwaelod y grid yn rhydd i nhw feddwl am ba brofiadau roedden nhw wedi derbyn gyda darlithwyr eraill. Roedd e'n cadw'r meddwl yn agored.' TC1

5.12 Cyfeiriodd sawl darparwr AGA at yr her o greu cydberthynas â'r disgyblion wrth addysgu ar-lein a rhoddwyd arweiniad ar sut y gellid cyflawni hyn i'r athrawon dan hyfforddiant. Nododd un ymatebydd hefyd eu bod wedi trafod y modd y gall addysgu ar-lein effeithio ar ymdeimlad o gyflawniad athrawon dan hyfforddiant sy'n digwydd ar ôl i wers benodol ddod i ben;

'...mae hi yn anodd i siarad gyda sgrin...Mae'r oriau rhyfedda'n mynd i mewn i baratoi, ond o'n mhrofiad i be bynnag o oriau chi'n rhoi mewn i rhywbeth chi'n gael e'n ôl fel gwefr achos bod pethe'n mynd yn dda. Anaml iawn ar ol ymdrechu mor galed ... ges i ddim y wefr 'na a dyna beth yw dysgu. O'n i'n treial esbonio iddyn nhw efallai bydden nhw ddim yn cael yr un gwefr oherwydd bod ffin y sgrin 'na yn cau'r emosiwn i lawr ychydig a oedden nhw'n

poeni am ddiffyg gweld plant. Hynny yw, bod y plant am gadw eu camerâu i ffwrdd, felly be oeddwn i'n dweud oedd beth efallai oedd y ffordd ymlaen oedd defnyddio'r posts a'r chat yn y sgwrs er mwyn cynnal perthynas gyda'r disgyblion a gofyn iddyn nhw os oedden nhw'n hyderus i droi eu camera ymlaen bod hynny'n iawn hefyd. O ran cyfarwyddwyd pellach, oedd rhaid iddyn nhw ddilyn protocol bob ysgol yn unigol yn doedd.' TC1

- 5.13 Yn ôl yr ymatebwyr, nid oedd yn ymddangos bod unrhyw arweiniad penodol wedi'i roi i athrawon dan hyfforddiant ar gefnogi plant o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg (er i sawl un gyfeirio at yr angen i addasu i anghenion disgyblion unigol). Roedd yn ymddangos bod y neges gyson ar draws y sefydliadau'n canolbwyntio ar ddibynnu ar ysgolion unigol i gael rhagor o arweiniad ar gefnogi'r disgyblion hyn, ac i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn dilyn polisi'r ysgol ar y mater hwn:

'Be den ni'n gofyn i'r myfyrwyr wneud ydi cadw at polisi penodol yr ysgol wrth wneud hynny a mae hynna'n dod yn fwy a mwy amlwg wrth iddyn nhw gael trafodaeth gyda'u mentoriaid nhw wedyn.' TA1

- 5.14 Yn gyffredinol, cytunwyd bod hyfforddiant ar gefnogi disgyblion o deuluoedd di-Gymraeg yn hanfodol i hyfforddeion, a gwnaeth ambell ymatebydd hefyd gydnabod bod disgwyl i ysgolion chwarae eu rhan yn darparu hyfforddiant:

'...bydden i'n pwysu'n drwm ar yr ysgolion i gynnig arweiniad... fi'n credu bod y myfyrwyr wedi symud gam ymlaen ond mae nhw wedi defnyddio ei gilydd ac arferion da o'i gilydd er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth.' TC2

'... I would put a lot of pressure on the schools to offer guidance ... I think the students have made a step forward but they have used each other and good practice to develop better understanding.'

- 5.15 Yn unol â'r ymatebion gan staff AGA, nododd sawl athro dan hyfforddiant eu bod wedi cael rhyw fath o hyfforddiant gan y brifysgol ar ddefnyddio llwyfannau ar-lein:

'Ia, gafon ni arweiniad gan y brifysgol ar sut i weithio ar wahanol raglenni ar-lein achos cyn hyn doedd gen i'm syniad o unrhyw raglen fel Teams na flipgrid

na dim fel 'na. Mae nhw wedi rhoi arweiniad i ni. O ia, a gafon ni ymarfer meicro-ddysgu hefyd, oedd hwnna'n help.' SA3

5.16 Nododd un ymatebydd ei fod wedi cael llawer o arweiniad pwnc benodol:

...dw i'n teimlo gafon ni lot o arweiniad gan y brifysgol yn enwedig yn ein sesiynau pwnc' SB6.

5.17 Hefyd, cyfeiriodd ambell ymatebydd at sesiynau hyfforddiant penodol a gawsant, naill ai gan yr awdurdod lleol neu drwy'r consortia yn ogystal â'r arweiniad gan yr ysgolion eu hunain:

'Hefyd efo'r ysgol dwi ynddo, mae'r mentor yn wych a 'den ni'n cael llawer o hyfforddi gan [awdurdod lleol] ar sut i ddefnyddio wahanol raglenni.' SA2

'Dwi hefyd wedyn wedi bod yn mynd i sesiynau [consortai] yn ychwanegol ar sut i ddysgu mathemateg ar-lein a mae rheina wedi bod yn ddefnyddiol iawn.' SB6

5.18 Fodd bynnag, nododd hyfforddeion eraill eu bod yn teimlo dan bwysau mawr ar y dechrau a'u bod wedi '*...cael ein taflu yn y deep end pryd athon ni mewn [i ysgolion]*'. Hefyd, nododd un ymatebydd *Ni ddim wedi cael hyfforddiant fel petai just sort of 'learn by doing', dysgu wrth y job*. SC5. Gall y gwahaniaeth hwn mewn ymatebion (fel y nodwyd yn nata'r staff AGA) adlewyrchu'r gwahaniaeth mewn amserlenni ar draws darpariaeth AGA yn ystod y cyfnod hwn.

5.19 Un maes y nododd ymatebwyr bod angen iddynt gael rhagor o hyfforddiant ynddo (cyn mynd ar leoliad) oedd dysgu cydamserol ac anghydamserol:

'...ni wedi bod mewn grwpiau bach neu beth bynnag yn y breakout rooms yn dangos sut mae rhannu pwerbwynt, gwneud hyn a cwisiau gwahanol a fi'n teimlo fel bod ni wedi cael digon o ymarfer fanna ond efallai dim gymaint o ran y gwersi sydd ddim yn fyw.' SA5

5.20 Fodd bynnag, roedd hyfforddai arall yn anghytuno, gan dynnu sylw unwaith eto at y gwahaniaethau rhwng profiadau hyfforddeion mewn SAUau gwahanol:

'Dw i'n rili falch bod ni di cael y hyfforddiant gafon ni gan y brifysgol a dwi yn teimlo fatha bod ni wedi cael hyfforddiant teg i wersi cydamserol ac i wersi

anghydamserol. Dw i'm di gwneud dim gwersi anghydamserol o gwbl, mond rhai byw a mae bob dim den ni'n neud ar google classroom a google meet.'

SB7

'Rwy'n falch ein bod wedi cael yr hyfforddiant gan y brifysgol, ac rwy'n credu ein bod wedi cael hyfforddiant teg ar gyfer gwersi cydamserol ac anghydamserol. Dydw i ddim wedi cynnal unrhyw wersi cydamserol, dim ond rhai byw a phopeth sy'n cael ei gynnal drwy google classroom a google meet.'

- 5.21 Fel y nodwyd uchod, nododd ambell hyfforddai y byddai wedi bod yn well iddynt gael rhagor o hyfforddiant ar sesiynau anghydamserol. Yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn, cyfeiriodd sawl hyfforddai hefyd at yr angen i addasu eu sgiliau yn dibynnu ar y llwyfannau ar-lein a ddefnyddir gan ysgol benodol:

[Gofynnodd ysgol] 'Ti'n meindio gwneud rhan fwyaf o'r esboniad yn ddwyieithog ar fideo fel tros lais i'w uwch lwytho wedyn mae rhieni a plant yn medru mynd a gwyllo fo'n ôl drosto'. Do'n i ddim wedi cael lot o hyfforddiant ar sut i wneud 'na.' SA1

- 5.22 Nododd ymatebydd arall y byddai wedi bod yn fuddiol cael rhagor o arweiniad ar ddefnyddio taflenni gwaith ar-lein:

'Oedd y taflenni gwaith oeddwn i'n ei roi allan yn cael eu cyflawni yn anghydamserol ar ôl y wers, felly dwi'n teimlo bod y hyfforddiant 'den ni wedi ei gael ddim yn gwbl ffitio mewn i'r dysgu ar-lein ond 'den ni wedi cael hyfforddiant ar sut i gyflwyno ar-lein.' SB1

- 5.23 Nododd ambell ymatebydd hefyd y byddai wedi bod yn ddefnyddiol cael rhagor o arweiniad gan y brifysgol ar sut i gyfathrebu â darn penodol o waith mewn modd cyfannol er mwyn cynnwys gwybodaeth am y dasg ei hun a diben a chwmpas y sesiwn ar-lein (yn benodol wrth ystyried rôl y rhieni yn y broses ddysgu):

'Dwi'n teimlo efo'r taflenni gwaith neu'r tasgau, bod angen 'chydig bach mwy o eglurhad ar be fasa'n digwydd yn y gwersi wyneb yn wyneb oherwydd bod angen fwy o gymorth ella arnyn nhw i ddeall y tasgau'n well.' SB8.

Thema 2: Adborth a Chanllawiau

- 5.24 Gwnaeth sawl ymatebydd gydnabod bod angen addasu er mwyn rhoi adborth ar-lein drwy lwyfannau amrywiol, er bod pob un ohonynt wedi nodi bod egwyddorion sylfaenol yr adborth yr un fath,

‘...mae’r egwyddorion yn un peth yn dydi ond technegau gwahanol den ni’n dysgu rŵan ar-lein felly mewn ffordd ellwch chi roi adborth drwy e-bost, defnyddio Google classroom mae’r rhan fwyaf yn gwneud efo hynny rŵan, mae ‘na ffordd o roi adborth ar Google classroom, a fel dwi di son yn barod y Mood a ballu. Hefyd, yn y cynradd mae ‘na see-saw yn does wedyn, jest, mae rhoi adborth yr un peth yn dydi, mae’r egwyddor hollol yr un peth ond mae nhw’n defnyddio technegau gwahanol a dyna sy’n bwysig.’ TB1

‘...mae’r egwyddorion o asesu ar gyfer dysgu, asesu fel dysgu ar fideo yr un peth yn union ar-lein neu wyneb yn wyneb neu ar bapur’. TB2

- 5.25 Roedd adborth ar gael hefyd ar lwyfannau a rhaglenni gwahanol h.y. defnyddio Flipgrid, Whiteboard ar Teams yn ogystal ag anogaeth/canmoliaeth ar lafar fel ffordd o roi adborth anffurfiol ar-lein. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, roedd lefel yr adborth oedd yn ofynnol a’r modd y rhoddwyd yr adborth yn dibynnu’n bennaf ar ofynion y lleoliad, polisi’r ysgol a natur y dasg. Roedd hon yn neges gyson a chryf yn y cyfweiliadau.

‘Cyfeiriodd ambell ymatebydd at hyfforddiant ar adborth llafar effeithiol hefyd – h.y. y defnydd o mote (sylwadau llais mote ar gyfer google classroom)’

‘...gallu clywed o’n syth bin a mae rhai pobol fel dach chi’n gwybod o ran y Gymraeg, mae eu dealltwriaeth nhw pan mae nhw’n clywed rhywbeth yn well na ** (darllen?) yn de.’ TB1

- 5.26 Hefyd, soniodd un ymatebydd am annog athrawon dan hyfforddiant i sicrhau eu bod hefyd yn dilyn arferion diddorol ac yn modelu iaith gywir yn eu hystafell ddosbarth:

‘Mae hi’n bwysig bod ni yn...modelu iaith cywir i’r plant, i’r dysgwyr bob tro.’
TB1

5.27 Fodd bynnag, gwnaeth ymatebydd gwahanol gydnabod y gall rhoi adborth llafar neu adborth o fath arall ar-lein, ar gyfer disgyblion cynradd/cyfnod sylfaen fod yn fwy o her y tu hwnt i ganmoliaeth fer a defnyddio wyneb hapus.

5.28 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at yr angen i sicrhau bod unrhyw adborth a roddir yn gadarnhaol ac yn adlewyrchu'r anawsterau a wynebir gan ddysgwyr gwahanol. Felly, roedd yr adborth yn tueddu i fod yn fyr ac yn Gymraeg yn unig) h.y.

'da iawn, ti wedi deall y gwaith' SA1

'beth am drïo hyn tro nesaf?' SA1

5.29 Yn unol ag ymatebion gan staff AGA, ac fel y nodwyd gan rieni yn Adran 4 uchod, nododd pob hyfforddai AGA bod adborth a chanllawiau yn dueddol o fod yn Gymraeg yn unig ac yn bennaf ar gyfer y disgyblion (yn hytrach na'r rhieni) ond bod addasiadau'n cael eu gwneud wrth addysgu ar-lein:

'Ar y dechre o'n i jest yn neud e yn Gymraeg, ond ar ôl cael sgwrs gyda'r ysgol mae'n rhaid i ni nawr neud e'n ddwyieithog oherwydd mae'r plant yn dysgu o bell felly mae'r teuluoedd yn siarad Saesneg adref felly mae'n rhaid i ni neud e'n ddwyieithog ar hyn o'r bryd.' SA2

'Mae o'n orfodol bod ni'n rhoi'r Gymraeg yn gyntaf a wedyn bod ni'n rhoi y Saesneg. Hefyd pan 'den ni'n rhoi'r cyfarwyddiadau ar lafar yn ystod y wers, dwi'n gorfod rhoi'r cyfarwyddiadau'n Saesneg hefyd achos bod y rhieni yna yn eistedd gyda'r disgyblion a mae'r rhan fwyaf o'r rhieni yn Saesneg.' SA3

5.30 Hyd yn oed pan nad oedd polisi'r ysgol yn gofyn am ganllawiau dwyieithog, nododd un ymatebydd ei fod wedi dewis rhoi canllawiau dwyieithog beth bynnag oherwydd ei brofiadau personol ei hun:

'Mae'r ysgol dwi ynnddi ar hyn o'r bryd wrthi'n cael ei rhestru i fod yn ysgol Gymraeg yn hytrach 'na ysgol ddwyieithog felly mae 'na lot o bwyslais ar wneud yn siŵr fod lot o'r gwaith yn cael ei gyflwyno'n y Gymraeg felly does dim rhaid i mi yrru'r gwaith allan yn ddwyieithog i lot o'r dosbarthiadau yn enwedig y rhai sy'n cael eu cyfri fel dosbarth Gymraeg ond dwi fel unigolyn wedi penderfynu gwneud oherwydd mod i'n gwerthfawrogi oedd fy mam i pan o'n i'n iau yn siarad Saesneg hefyd, er bod hi'n rhugl erbyn rwan a dwi'n

gobeithio drwy wneud hynny, fel mae'r genod wedi son, bod pawb yn medru cael help o adre. Mae o'n lleihau fy llwyth gwaith i hefyd oherwydd dydyn nhw'm yn gyrru e-byst i mi left right and center.' SA5

- 5.31 Nododd un myfyriwr dan hyfforddiant ei fod hefyd wedi darparu cymorth a chanllawiau ychwanegol h.y. rhestr o derminoleg ac adnoddau eraill i helpu myfyrwyr a rhieni:

'Dwi 'di bod yn gwneud gwersi byw ar powerpoint yn Gymraeg, a...mae gen i'r termau allweddol yn Saesneg hefyd ar bob sleid ond fel arall mae bob peth drwy'r Gymraeg a mae nhw'n ymateb yn ol i fi yn ystod y wers, yn fyw, yn Gymraeg. Dwi'n gosod gwaith cartref yn Gymraeg a dwi'n rhoi adnoddau sy'n gallu helpu nhw i gwblhau'r gwaith cartref yn Gymraeg. Dwi hefyd yn ddiweddar, ers neud gwaith ymchwil i'r asesiad diwethaf ar bwysigrwydd rol y rhieni adref, dwi 'di bod yn rhoi y links yn Saesneg hefyd just rhag ofn fod 'na sawl rhiant sydd ddim yn siarad Cymraeg.' SB6

- 5.32 Yn gyffredinol, y gydnabyddiaeth oedd bod addysgu disgyblion ar-lein, gyda'r rhieni yn aml yn goruchwyllo'r sesiwn, yn her benodol i athrawon dan hyfforddiant,

'...athrawon dan hyfforddiant ydyn nhw ond mae nhw'n addysgu lot ohonyn nhw gyda rhieni yn yr un un stafell, sydd, bois bach, yn beth mawr.' TA1

- 5.33 Un neges gyson a chryf a nodwyd gan yr ymatebwyr oedd mai at ddisgyblion nid rhieni roedd adborth yn cael ei dargedu, ac y dylai hynny ddigwydd, sy'n her i'r rhieni sy'n ymwneud â'r broses o gyd-adeiladu addysgu eu plentyn:

'Oedd yr adborth ar gyfer y plentyn yn benodol. Yn fan hyn roeddwn i'n pwysleisio ac oeddwn i'n gwneud ymarferion o adborth gwahaniaethol hefyd o ran y math o iaith oedd yn cael ei ddefnyddio wrth osod adborth a'r math o dargedau, a dwi'n sôn yn fwy penodol am dargedau ieithyddol yn fan hyn, ddim ar dargedau cynnwys ond oedd yr adborth yn benodol ar gyfer y disgyblion. Mi oeddwn i hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd fod 'na ddeialog yma rhwng y disgybl a'r athro a bod 'na dasg ddilynol unigol i bob un plentyn. Ond doedd yr adborth ddim yn mynd i fod yn cynnwys y rhiant.' TB2

5.34 Nododd ymatebydd gwahanol hefyd os byddai rhieni yn gofyn am gymorth, yna gellid gwneud trefniadau,

‘...fyse fe ddim yn ddwyieithog, achos mae’r adborth ar gyfer y disgybl, nid ar gyfer y rhiant ond os oes angen trafod rhywbeth ymhellach neu fod angen trafod rhyw agwedd falle fasa nodyn yn iaith y cartref yn gwahodd rhiant i ddod i mewn.’

5.35 Awgrymodd un ymatebydd nad oedd rhieni bob amser yn deall tasgau penodol (yn benodol os yw'r hyn sy'n ofynnol yn wahanol i'w profiad eu hunain), gan nodi y gall fod angen rhagor o arweiniad ar adegau:

‘Mae ‘na sefyllfaoedd lle mae myfyrwyr, athrawon dan hyfforddiant yn dweud ‘wel, dwi’n gwybod bod y plant yn gallu gwneud y gwaith achos mae nhw wedi gwneud o wythnos diwethaf ond dydi’r rhieni ddim yn deall be mae nhw’n neud felly mae nhw’n dweud bod y plant ddim yn deall’ a ‘fel hyn oeddwn i’n arfer neud o yn yr ysgol’ mae’r rhieni yn dweud.’ TA1

5.36 Fodd bynnag, er bod sawl ymatebydd wedi nodi nad oedd adborth gwahanol yn cael ei roi i ddisgyblion neu rieni o aelwydydd di-Gymraeg o anghenraid, nododd ambell ymatebydd bod eu bod yn annog adborth dwyieithog a oedd yn unol â sgiliau iaith y disgyblion:

‘...dwi yn sicr yn arwain nhw i roi adborth dwyieithog, neu dibynnu ar allu’r plant ** mae rhai yn well na’i gilydd yn dydi. Mae’r athrawon dan hyfforddiant yn adnabod y plant ac yn medru teilwra’r adborth yna o ran y Gymraeg iddyn nhw.’ TB1

‘...oeddwn i’n dweud bod chi’n medru rhoi adborth yn hanner Cymraeg hanner Saesneg, code-switching felly, mae o’n dibynnu pa batrymau iaith oedd gan y dysgwyr wedyn oeddech chi’n perthnasu’r adborth i allu eich dysgwyr mewn ffordd. Mae hynny’n rhywbeth ti yn gweld hyfforddeion yn meddwl am hefyd.’ TB1

5.37 Nododd ymatebwyr eraill y gellir cynnig terminoleg yn ddwyieithog i ddechrau, nes i'r disgybl ymgyfarwyddo â'r term Cymraeg. Hefyd, cafwyd cydnabyddiaeth y gall fod angen arweiniad dwyieithog ar gyfer tasgau penodol os oedd angen cefnogaeth

rhieni ond roedd y cyfathrebu'n digwydd â'r disgybl drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig,

'Roedd yr arweiniad oeddwn i'n ei roi iddyn nhw yn fod y cyfathrebu efo'r disgyblion yn gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mi gawson nhw arweiniad o ran ** yn ymgorffori termau, terminoleg newydd er enghraifft achos bod nhw unwaith yn dysgu terminoleg yn ddwyieithog ond wedyn yn bwydo'r term Gymraeg, a hefyd os oedd rhiant yn gofyn a'u bod nhw'n ymwybodol bod nhw'n mynd i helpu, bod nhw'n methu helpu drwy gyfrwng y Gymraeg felly rhiant yn cael arweiniad yn Saesneg ar gyfer y dasg yna. Ond efo cyfathrebu efo'r plentyn ei hun yn digwydd 100% drwy gyfrwng y Gymraeg.' TB2

- 5.38 Nododd un ymatebydd hefyd ei bod yn bwysig bod yr adborth a roddir i ddisgyblion yn effeithiol ac yn cyflawni diben h.y. mae'n galluogi'r disgybl i ddatblygu'r gwaith ymhellach yn hytrach na sicrhau bod y rhieni'n hapus:

'...o ran yr adborth sydd yn cael ei rannu, ond sut mae'r adborth yna'n cael ei rannu'n effeithiol hefyd, beth yw pwrpas yr adborth. Mae'n rhaid bod yn wiliadwrus wrth osod adborth mewn sefyllfa o'r fath bod ni'n gosod yr adborth er mwyn datblygu gwaith pellach yn hytrach na jest clodfori a sicrhau fod rhieni'n hapus.' TA1

- 5.39 Yn unol â'r dyfyniad uchod, gwnaeth yr ymatebydd hwn gydnabod yr angen a'r pwysau ar athrawon dan hyfforddiant i fod yn gadarnhaol hefyd. Gan fod yr athro dan hyfforddiant yn parhau i feithrin cydberthynas â disgyblion, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng adborth effeithiol a chalonogol

'...mae dal isio bod yn bositif oherwydd mae isio sicrhau lles y disgyblion, ac efallai os yden nhw wedi cael rhyw ymateb negatif, efallai nawn nhw ddim cymryd rhan yn y sesiwn nesa am ba bynnag reswm felly mae y balans. Dydi'r myfyrwyr wedi cael y cyfle i greu perthynas go iawn gyda'r disgyblion cyn y pwnt yma.' TA1

- 5.40 Caiff yr anawsterau a wynebwr gan athrawon ac athrawon dan hyfforddiant fel ei gilydd wrth geisio cyflawni'r cydbwysedd hwn rhwng adborth effeithiol, cymeradwyaeth rhieni a lles disgyblion eu cyfleu yn effeithiol yn y vignette canlynol,

'...mae 'na deimlad fod y rhieni'n cymryd fwy o ddiddordeb, rhai rhieni, yn addysg eu plant. Oedd 'na drafodaeth wythnos diwethaf gyda un athrawes dan hyfforddiant oedd wedi rhoi maes trafod penodol ar gyfer ei dosbarth hi a mi oedd rhiant wedi gwneud cwyn oherwydd cynnwys y wers. Mi fasa cynnwys y wers fel arfer, mi oedd o wedi cael ei gytuno gyda'r ysgol ac yn y blaen, ond fel arfer, oherwydd fasa hynny wedi cael ei addysgu yn yr ysgol fasa'r rhiant efallai ddim yn cwestiynu hynny ondyfe. Fel mae un o'n prifathrawon un o'n ysgol arweiniol ni wedi dweud, mae nhw'n addysgu gyda 30 o blant a 30 o rieni neu mwy hefyd yn enwedig yn y cyfnod sylfaen. Mae'r sefyllfa yna'n un anodd ond mae o'n gwestiwn wedyn, dylai'r gwir adborth nodi yn elfennol yn iaith mae'r plentyn yn dysgu, beth mae nhw wedi gwneud yn iawn a beth yw'r ffordd ymlaen nesa, y feed forward 'ma yn lle feed back yn de ond mae o'n anodd. Mae o'n anodd oherwydd dech chi ddim isio gosod dim byd, ddim fasa chi ta beth, ond gosod rhywbeth sydd yn mynd i gael ei gamddechongli i fod yn rhywbeth negatif a tanseilio hunanhyder y disgybl hefyd.' TA1

- 5.41 Fodd bynnag, nododd un ymatebydd fod pryder pellach os oedd adborth yn cael ei roi'n ddwyieithog (at ddibenion rhoi adborth i'r adborth i'r rhiant hefyd) byddai'r disgyblion hefyd yn cyfeirio at yr adborth Saesneg ac, felly, y bu'n rhaid teilwra natur ddwyieithog yr adborth ar gyfer anghenion unigol y disgybl,

'...i ddisgybl o gefndir di-Gymraeg mi oedd 'na arweiniad. Mi nes i sicrhau bod geirfa'n cael ei gynnwys, taflenni gwaith yn cael eu cynnig yn Saesneg, ddim ddwyieithog oherwydd natur ddynol iaith disgybl hefyd i ddarllen y gwaith yn Saesneg, felly oedd, a mi oedd hwnnw yn gorfod bod yn reit unigol a wedi ei deilwra ar gyfer y disgybl yn unigol, a oedd hynny'n cael ei bwysleisio yn gryf iawn iawn.' TC1

- 5.42 In regards to oral feedback, there was some recognition that feedback may be more effective when offered verbally rather than in writing,

'Dwi'n meddwl bod o'n fwy effeithiol rhoi adborth llafar iddyn nhw achos does gen i ddim syniad os yden nhw'n darllen yr adborth ysgrifenedig a hefyd os dwi'n rhoi adborth llafar elai ofyn cwestiynau wrthyn nhw hefyd...a i'r rhai sydd

yn siarad Saesneg adref dim ond pan dwi'n siarad Cymraeg mae nhw'n clywed Cymraeg felly dwi'n trio neud o mor Gymraeg a phosib. Weithiau nai roi bach o Saesneg os ydi'r rhieni yn eistedd efo nhw.' SA3

Thema 3: Tasgau Llafar

- 5.43 Fel y nodwyd yn thema yr adborth blaenorol, trafododd sawl ymatebydd bwysigrwydd adborth llafar a modelu arferion diddorol i hyrwyddo iaith lafar. Roedd pennu tasgau llafar i ddisgyblion hefyd yn rhan o'r hyn a drafodwyd yn y cyfweiliadau a thrafodwyd llwyfannau fel ystafelloedd/gweithgareddau ar wahân ar teams, gan foddelu adborth llafar drwy seesaw/blackboard collaborate/mood, gan greu grwpiau iaith. Nododd un ymatebydd:

'...mae pethau sy'n digwydd o ran tasgau llafar yr un peth eto, ond y technegau sy'n wahanol efo cyflwyno rheiny, podcast, ellwch chi neud o efo flipgrid. Dwi di bod yn darlithio a dwi 'di bod yn rhoi canllawiau efo voice clips mewn ffordd neu audio clips i rannu geirfa ** (8'01ish). Dyna dwi di bod yn neud a dangos i'r myfyrwyr iddyn nhw neud hefyd o ran y gwaith llafar, bod nhw'n modelu y gwaith iddyn nhw hefyd drwy wneud podcast, pethe ar flipgrid a pwyntiau pŵer. Y pethe dwi di bod yn trio gwneud yn fy nysgu fy hun ydi modelu i'r hyfforddeion felly, be fasa nhw'n medru neud efo'r plant dan yr amgylchiadau.' TB1

- 5.44 Wrth gefnogi disgyblion i ddatblygu eu sgiliau llafar, nododd un ymatebydd y gall fod angen mynd i'r afael â'r ymwybyddiaeth o ddwyieithrwydd ymysg athrawon dan hyfforddiant a thiworiaid cyswllt, ond bod angen ffocws ychwanegol ar y modd y gall y rhiant hefyd gefnogi'r disgybl:

'O ran dwyieithrwydd, mae bod yn ymwybodol o sefyllfa ddi-Gymraeg nifer o'n disgyblion ni yn bwysig i ddeffro yr ymwybyddiaeth o hyn efo'r myfyrwyr, yr athrawon cysylltiol, ond mae'n rhaid rhoi y ffocws ar ddatblygu sut mae'r rhiant yn medru helpu trwy rhoi adnoddau i'r rhiant, cyfeirio'r rhieni at wefannau dysgu Cymraeg, cyfeirio nhw at wefannau ar sut i ynganu ac ati, ymadroddion syml i rieni a cynnwys y rhieni yn y dysgu ond peidio ** lawr y llwybr o droi bob dim i'r Saesneg a bod ni'n helpu'r rhieni hefyd i fod yn lled-ddwyieithog neu dechrau ar y daith o fod yn ddwyieithog wrth helpu'r plant' TB2

5.45 Cyfeiriodd hyfforddeion AGA amrywiol at ddefnyddio strategaethau gwahanol i geisio annog disgyblion i gyfrannu ar lafar mewn sesiynau ar-lein:

'...mae'r un un disgyblion wastad yn barod i siarad felly den ni yn trio annog y rhai efallai 'chydig mwy distaw a llai hyderus i neud hefyd, ella dechrau galw enwau allan yn lle just gofyn yn agored 'pwy sy'n gwbod hyn' neu 'pwy ellith ymateb i hyn'.' SB6

'I ddechrau efo, oedden ni'n defnyddio olwyn dewis enwau ar hap er mwyn trio ysgogi nhw i geisio ymateb ar lafar ond mi oedden ni wedi sylwi fod 'na ambell un yn dueddol o adael y sesiwn pan oedden nhw'n gweld yr olwyn 'ma yn ymddangos felly... den ni'n gorfod bod yn ofalus rwan pwy den ni'n gynnwys yn yr olwyn neu mae 'na rai plant yn ypsetio.'" SB5

5.46 Aeth un ymatebydd mor bell â gwahardd y defnydd o'r cyfleuster sgwrsio yn y sesiynau ar-lein er mwyn gorfodi'r disgyblion i gyfathrebu ar lafar,

'...ond dwi wedi bannio'r defnydd o chat Saesneg yn fy ngwersi i felly os mae nhw eisiau siarad neu gofyn cwestiwn neu beth bynnag, oni bai fod ganddyn nhw broblemau technegol mae nhw'n gorfod dod ar microffon i siarad. Mae gen i un dosbarth ddwyieithog lle mae 'na rhaid i mi neud yn siŵr mod i'n cynnwys Saesneg ac yn derbyn atebion Saesneg ond fel arall, ddim mod i'n gwrthod derbyn atebion Saesneg y dosbarthiadau eraill ond mi nai ofyn yn y Gymraeg hyd yn oed os ydw i'n cael ateb Saesneg, ac yn aml iawn mae nhw'n sylwi mod i'n eithaf ystyfnig a ddim yn mynd i newid fy meddwl felly mae nhw'n ymuno efo fi wedyn.'

5.47 Cyfeiriodd sawl hyfforddai AGA hefyd at y diffyg hyder o ran defnyddio'r Gymraeg ymysg carfan benodol o fyfyrwyr, yn ogystal â chyfeiriadau at gyfyngiadau'r hyn y gellir ei gyflawni ar-lein,

'Diffyg hyder yn y Gymraeg yn benodol efo'r disgyblion sydd gynna i. Mae lot ohonyn nhw yn deud 'ga'i ddeud o'n Saesneg yn lle' a wedyn wrth gwrs, dwi'n meddwl gawn nhw ddeud o'n Saesneg ond wedyn na'i ailadrodd be nathon nhw ddeud ond na'i ailadrodd o'n y Gymraeg. Dwi'n teimlo efo cyfnod allweddol 2 ellwch chi'm rili gwneud breakout rooms, mae o'n rhy gymhleth

iddyn nhw. Mae 'na gyfyngiadau ar be 'dech chi'n gallu gwneud ar-lein ond ella yn y dosbarth fasa fo'n lot haws.' SA3

'...oedd disgyblion yn amharod iawn i recordio'u hunain ond oedd 'na lot ohonyn nhw hefyd wrth fynychu gwersi byw yn teimlo bod eu Cymraeg nhw ddim yn ddigon da i ateb ar lafar, felly oedd rheina'n fwy tebygol o ateb yn y chat, ond dech chi'n teimlo bod chi methu'u cwestiynu nhw yn fwy estynedig fel yna yn aml iawn oherwydd nawn nhw ddim ymateb ar lafar.' SB5

5.48 Fodd bynnag, nododd ambell ymatebydd y gallai fod o fantais defnyddio Teams gyda'r disgyblion hefyd,

'...rhoi nhw mewn i breakout rooms achos mae e'n llai o bwysau ar blant, achos fi'n meddwl bydde nhw'n gweld e bach yn *gwneud gwyneb* bod nhw'n gorfod siarad o flaen y 30 disgybl arall, felly drwy roi nhw mewn breakout rooms, falle 4 neu 5 o nhw fyddde i mewn 'na bydde nhw lot fwy hyderus i siarad wedyn.' SA5

5.49 Hefyd, nododd rhai ymatebwyr bod rhai myfyrwyr yn fwy hyderus yn cyfathrebu ar lafar nag yn ysgrifenedig (eto, gall hyn fod yn ddibynnol ar y garfan o fyfyrwyr yn y dosbarth),

'Mae mwy o hyder gyda nhw mewn siarad 'na beth sydd gyda nhw yn ysgrifennu achos hefyd dwi'n teimlo gyda plant yn cyfnod allweddol 2 mae e'n gloyach iddyn nhw siarad na mynd i mewn i'r chat ac ysgrifennu. Er bod nhw'n gwybod beth i'w ysgrifennu a sut i'w sillafu fe mae'n well gyda nhw i siarad ar lafar.' SA2

5.50 Caiff y gwahaniaeth rhwng carfannau o fyfyrwyr ei nodi hefyd yn y dyfyniad canlynol, lle cafodd myfyriwr leoliad mewn ysgol mewn ardal Gymraeg yn bennaf,

'Sai'n credu bod diffyg hyder yn broblem gyda fi achos mae'r ardal ble mae fy ysgol lleoliad yn eithaf Cymreigaidd so mae'r plant gyda digon o hyder i siarad y iaith.' SA1

5.51 Her arall a nodwyd gan sawl myfyriwr wrth bennu tasgau llafar ar-lein oedd yr her o sicrhau bod disgyblion yn canolbwyntio ar y tasgau,

‘...os ydw i’n rhoi nhw i mewn i breakout rooms falle bydden nhw ddim yn siarad am y cwestiwn o gwbl a wedyn, fel r’yn ni gyd yn gwneud, bydden ni’n gweld yr athrawes yn dod i mewn a ni’n dechrau siarad am y cwestiwn.’ SA5

‘Ond gyda’r oedran, mae’r pwnc yn hollol newydd, allen i fod yn gofyn cwestiwn, a fel mae meddyliau plant yn gweithio, bydden nhw’n mynd off a meddwl am rhywbeth arall i siarad amdano. Mae’r pwnc yn gallu newid yn eithaf clou ar Teams. Mae angen tipyn o ddisgyblaeth fi’n credu.’ SA1

5.52 Gellid gweld gwahaniaethau yn y defnydd o dasgau llafar ymysg ymatebwyr sy'n fyfyrwyr sy'n addysgu mewn lleoliad cynradd neu uwchradd gyda chyfraniadau ymysg disgyblion yn lleihau wrth iddynt fynd yn hŷn, h.y. mewn lleoliad cynradd,

‘Mae o’n ofynnol iddyn nhw siarad yn ystod y gwersi ar lafar a mae nhw yn neud hynna, yn enwedig blwyddyn 3 + 4, mae nhw’n siarad lot a wedyn 5 + 6 dech chi’n gweld bod nhw’n fwy, dwi’m yn gwbod os mai swil ydi o neu os ydyn nhw jest yn meddwl bod nhw’n rhy cool i siarad, dwi’m yn gwbod, ond dech chi’n gweld y gwahaniaeth rhwng blwyddyn 3 a 6 yn bendant.’ SA1

5.53 Also in secondary,

‘...dw i wedi bod yn arsylwi gwersi lle mae nhw wedi bod yn cyflwyno podlediadau, a’r her fwyaf mae nhw’n ei weld efo hynny ydi cael y plant, am bod o’n natur y podlediad, mae’n rhaid iddyn nhw recordio’u hunain yn siarad a’i gyflwyno fo a mae plant yn amharod iawn i recordio’u hunain yn siarad.’ SB5

5.54 Yn ogystal, nododd un ymatebydd ‘*Yn yr uwchradd mae ‘na fwy o ffocws ar y disgyblion i weithio’n annibynnol felly ella bod ‘na llai o bwyslais ar rhoi adnoddau ar gyfer y rhieni.*’ “At secondary level there is a greater focus on the pupils to work independently so there may be less emphasis on resourcing the parents.” SB7

5.55 Cyfeiriodd ambell fyfyrwr hefyd at y problemau technegol a gafwyd wrth bennu a chyflwyno tasgau llafar. Yn aml, roedd y problemau hyn yn codi oherwydd cysylltedd gwael, ond hefyd oherwydd diffyg caledwedd briodol,

'y problemau fasa chi'n ddisgwyl, problemau wifi, oedd y sain yn torri i fyny i dipyn ohonyn nhw felly doeddech chi'm yn clywed nhw cystal a fasa chi wedi licio.' SB5

'ges i chydig o drafferth wrth roi tasgau i fyny yn gynta wrth recordio fideo bod y flipgrid yn rhoi fatha subtitles ar y gwaelod ag oedden nhw'n andros o anghywir wrth gyfieithu i'r Gymraeg felly oedd hynna'n bach o issue o ran cyflwyno i'r plant a'r geiriau yn cael eu cuttio allan mewn ffordd.' SB2

'Dwi 'di sylweddoli fod lot o ddisgyblion yn gwneud pethau ar eu ffonau symudol, dwi'n gwbod bod 'na rhai disgyblion wedi cael laptops a ballu gan y Llywodraeth ond ddim pawb, a felly, ddim jest llafar, lot o agweddau gwahanol, den nhw methu gwneud oherwydd dydi ffons ddim yn caniatáu iddyn nhw wneud.' SB7

Thema 4: Heriau darpariaeth ar-lein

- 5.56 Un o heriau allweddol addysgu ar-lein ac un o'r ymatebion cyffredin ymysg athrawon dan hyfforddiant oedd meithrin cydberthynas â'r disgyblion yn eu dosbarth,

'Mae o'n anodd, fel oedd rhywun yn deud cynt, bod ni heb allu magu perthynas gyda'r disgyblion, felly 'den ni ddim yn nabod nhw, den ni ddim yn gwbod yn union pwy ella, os fasa ni'n gwbod yn y dosbarth 'mae'r person yma'n dod o gefndir mwy Seisnigaidd', felly mae hi'n anodd pin-pointio pwy sydd angen y help 'na a pwy sydd ddim.' SB7

- 5.57 Nododd ambell ymatebydd hefyd fod cyngor wedi'i roi i fyfyrwyr o SAUau,

'...mae'r brifysgol wastad yn gofyn, mae nhw wastad yn dweud wrthon ni i ofyn cwestiynau ar ddechrau gwersi fel bod ni'n dod i nabod y disgyblion yn well ond os na fydden ni'n gofyn y cwestiynau yna mewn ffordd bydde'r plant ddim yn ymateb trwy'r gwersi wedyn mewn ffordd ond wrth ofyn y cwestiynau 'na ar y dechrau wedyn mae nhw'n fwy, wel mae plant moyn ymateb mwy wedyn ond dydy nhw achos mae nhw'n gwbod bod chi moyn dod i adnabod nhw'n well.' SA5

- 5.58 Yn ogystal, nododd sawl ymatebydd nad oeddent wedi paratoi a'u bod yn ansicr ynghylch sut i gyfathrebu â rhieni,
- 'Hefyd, efo sut i siarad efo rhieni, dwi'm yn teimlo bod fi'n barod i gynnal noson rieni 'na ddim byd fel 'na, dwi'm yn teimlo gaethon ni ddigon o hyfforddiant fel 'na, ond ella bod hwnna'n rhywbeth ga'i fwy o hyfforddiant o fewn lleoliad ysgol.' SA3
- 5.59 Gwnaeth sawl myfyriwr hefyd gydnabod bod addysgu ar-lein yn heriol pan oedd y rhieni'n gwrando:
- 'beth oedd y her fwyaf oedd bod rhieni yna yn gwrando a fi'n credu oedd e'n gwneud i chi doubtio'ch hunan mewn ffordd fel 'sa'i ddigon da i wneud hwn' achos bod chi newydd, chi'n gwbod, dim ond hyfforddi r'yn ni'n gwneud, fi'n gwbod bod ni'n hyfforddi wrth i ni ddysgu nawr.' SC4
- 5.60 Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y ffocws (yn ôl myfyrwyr AGA) ar annog unrhyw fath o gyfathrebu,
- 'Mae'r pwyslais wedi bod o ran cael disgyblion i ymateb o gwbl, ym mha bynnag iaith oedden nhw'n penderfynu ateb, felly os oedden nhw'n ateb yn Saesneg yn y sgwrs mi oedden ni'n rhyw fath o gyfieithu a wedyn yn parhau o hynny, dim ond bod ni'n cael unrhyw ateb'. SB5
- 5.61 Cyfeiriodd sawl ymatebydd at anawsterau o ran mynd i'r afael ag ymgysylltiad rhieni a chymhelliant wrth addysgu ar-lein,
- 'Mae rhai plant sydd gyda problemau technegol yn mynd mas o'u ffordd i roi neges yn y chat yn dweud 'miss, fi methu danfon gwaith, ydw i'n medru danfon o dros ebost?' neu beth bynnag ond wedyn dwi'n gwbod bod y plant 'ma, rhai o nhw, ddim moyn gwneud e o gwbl.' SA5
- 5.62 Wrth ymuno â gwersi ar-lein, roedd yn ymddangos bod presenoldeb yn amrywio rhwng lleoliadau gyda rhai yn nodi mai dim ond tua hanner y disgyblion oedd yn mynychu eu sesiynau o gymharu ag eraill oedd yn nodi y byddai'r rhan fwyaf o'r ddisgyblion yn mynychu'r sesiynau ar-lein. Roedd presenoldeb disgyblion mewn sesiynau ar-lein, yn ôl rhai ymatebwyr, hefyd yn dibynnu ar ymgysylltiad a chefnogaeth rhieni,

'Yn y gwersi cydamserol faswn i'n dweud bod tua tri chwarter y dosbarth arferol yn ymuno bob bore. Yn sicr oedd hyn yn dibynnu ar eu rhieni nhw, bod eu rhieni nhw'n codi'r plant i gael brecwast ac i fod yn barod i gychwyn erbyn 9 o'r gloch.' SB1

'...y mwyaf o gymorth sydd gyda nhw y mwya o gwaith sy'n cael ei wneud. Unwaith r'ych chi'n colli'r plentyn yna wedyn a mae'r plentyn yna'n mynd mewn i habit o ddim troi lan i'r gwersi 'na dyw'r cynnydd ddim yn cael ei weld ac o'n i'n teimlo fel athro, a fel darpar athrawes, o'n i wastad yn teimlo fel o'n i'n poeni am y person yma nawr oherwydd dyn nhw ddim wedi bod i'n ngwersi i, beth mae nhw'n gwneud gartre?' SC1

- 5.63 Nododd ambell ymatebydd hefyd fod gwahaniaeth mewn ymgysylltiad rhwng grwpiau o ddysgwyr,

'dwi'n meddwl bod o'n deg dweud bod y setiau uwch yn ymateb yn well, efo nhw mae 'na fwy o waith yn cael ei wneud fel arfer. Mae 'na llai o ddiddordeb ella o'r setiau is.' SB7

Thema 5: Goblygiadau ar gyfer Darpariaeth yn y Dyfodol

- 5.64 Mae'r ymatebion canlynol wedi'u casglu gan staff AGA yn unig. Nododd sawl aelod o staff AGA y gall fod cyfyngiadau symud yn y dyfodol, yn gysylltiedig â'r pandemig presennol a rhai yn y dyfodol a bod angen iddynt addasu'r ddarpariaeth a'r cymorth AGA ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yn y dyfodol,

'...mae'n rhaid i ni fod yn fwy ymwybodol yn y coleg hefyd o'r adnoddau sydd ar gael er mwyn hyrwyddo'r dysgu cydamserol ac anghydamserol yn effeithiol.' TB2

'...rhaid i ni fod yn barod rwan wrth fynd ymlaen a rhaid i ni addasu rhywfaint er mwyn y sefyllfa sydd yn newid, a weithiau mae o'n newid er gwell i ni gymryd rhywbeth cadarnhaol.' TB2

- 5.65 Yn ogystal, (fel y nodwyd yn y thema flaenorol), nododd yr un ymatebydd fod angen rhagor o hyfforddiant ar gyfer tiwtoriaid/mentoriaid cyswllt mewn ysgolion,

'Dwi wedi gweld hefyd bod 'na angen mwy o hyfforddiant ella neu godi ymwybyddiaeth o addysgu yn y sefyllfa ddwyieithog unwaith yn rhagor ar

athrawon cysylltiol a sut i ddatblygu'r Gymraeg yn y sefyllfa ddwyieithog yn de. Dwi wedi bod yn gwneud sesiynau ar y cyd efo'r mentor yn yr ysgol, mae o'n rhan o rôl y mentor.' TB2

- 5.66 Cafwyd cydnabyddiaeth gan ymatebydd arall mewn prifysgol wahanol bod rhagor o hyfforddiant ar gyfer athrawon dan hyfforddiant fel rhan o ddarpariaeth AGA yn y dyfodol yn bwysig, yn enwedig ar ôl i'r staff AGA allu uwchsgilio eu hunain,

'Mae hi'n bosib eto mod i wedi defnyddio'r amser i ddatblygu fy sgiliau fy hun i addysgu a bod yn gyfforddus gyda hwnna yn hytrach na falle ei hyfforddi nhw ynglŷn â sut i ddefnyddio hwnna. Mae'r cwestiynau ti'n codi yn hyfryd oherwydd wy'n credu bod e'n adnabod bwlch yn ein darpariaeth ni yn enwedig o symud ymlaen yn y dyfodol a dysgu deul.' TT2

- 5.67 Nododd ymatebydd arall y gall fod angen i ddarpariaeth bresennol a darpariaeth yn y dyfodol ar gyfer hyfforddi athrawon a recordio gwersi ar-lein ystyried y ffaith y gall hyn roi pwysau ychwanegol ar athrawon dan hyfforddiant. Bydd hyn wedi yn golygu y bydd yn rhaid i sefydliadau addasu eu disgwyliadau, i raddau, i adlewyrchu hyn.

'Be sy'n ddiddorol ydi, dwi newydd gael cyfarfod tiwtora efo un o'n myfyrwyr, a be oedd o'n boeni, mae o'n recordio'i wers, mae o'n creu adnoddau a mae o'n marcio wedyn, a'r broblem yn fan hyn ydi fod y broses yna'n cymryd amser hir achos mae na nifer o fyfyrwyr yn meddwl, os yden nhw'n recordio mae'n rhaid i bob peth fod yn gywir gywir gywir achos os ydech chi'n y dosbarth dech chi ddim yn cael ail gyfle felly mae o'n cymryd lot lot mwy o amser. Mae'n cymryd mwy o amser i wneud yr un math o beth faswn i'n dweud. Mae'n rhaid i ni gydnabod hynny fel cwrs hefyd ac ella lleihau y disgwyliadau. Mae 'na rai yn dysgu efallai 4 gwers yr wythnos, mae 'na rai yn cynyddu wythnos yma i rhyw 12 gwers yr wythnos ond mae hynny fwy efo'r criw uwchradd sy'n addysgu ar-lein drwy teams neu beth bynnag.' TA1

Crynodeb

Mae'r data gan staff a myfyrwyr AGA yn ein helpu i gael cipolwg pellach ar yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y pandemig a'r anawsterau penodol o wynebir wrth gefnogi dysgwyr o deuluoedd di-Gymraeg.

Trafodir y goblygiadau penodol ar gyfer darpariaeth AGA a rhanddeiliaid eraill yn y ddwy adran olaf.

6. Prif Ganfyddiadau

Cyflwyniad

- 6.1 Ceisiodd yr astudiaeth hon archwilio ymgysylltiad dysgwyr â'r Gymraeg a'u defnydd ohoni yn ystod pandemig COVID-19, gan ganolbwyntio'n benodol ar yr heriau sy'n wynebu siaradwyr di-Gymraeg sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Drwy archwilio profiadau rhieni, athrawon, staff AGA a myfyrwyr AGA yn cefnogi disgyblion i ddysgu yn ystod y pandemig, mae'r astudiaeth yn tynnu sylw at rai o'r prif heriau a wynebir a'r modd y gwnaeth ysgolion, SAUau a rhieni addasu i'r heriau hyn o dan amgylchiadau anodd iawn. Mae cyflwyno cwricwlwm cyfan drwy ddefnyddio dull cwbl newydd yn her hyd yn oed i'r athrawon mwyaf profiadol. Cafodd y cyfleoedd ar gyfer ymarfer arloesol eu hatal yn bennaf oherwydd y cyfyngiadau yn sgil y rheoliadau diogelu, posibiladau o ran TG, cyllid ac awtomatigiaeth Saesneg ar gyfer disgyblion Saesneg eu hiaith pan gânt eu rhoi mewn amgylchedd Saesneg, i ffwrdd oddi wrth eu pau arferol o ddefnyddio'r Gymraeg. Er hyn, o'r data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn, mae'n amlwg bod llawer o ysgolion wedi gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol i gefnogi teuluoedd drwy'r cyfnod hwn, er gwaethaf y ffaith na chawsant llawer o gyfleoedd dysgu proffesiynol penodol i gefnogi eu gweithredoedd, os o gwbl, yn benodol mewn perthynas â chefnogi disgyblion Cymraeg. Er bod yr adroddiad yn tynnu sylw at lawer o enghreifftiau gwych o gefnogaeth i deuluoedd di-Gymraeg sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac enghreifftiau gwych o gefnogaeth i ddatblygiad parhaus sgiliau Cymraeg ar gyfer plant sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg, nid oedd hyn yn wir bob amser, ac mae angen datblygiad a chefnogaeth bellach mewn sawl ardal.
- 6.2 Er ei bod yn bosibl y ceir symudiad yn ôl i fodel o addysgu yn y dosbarth yn barhaol yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd ysgolion yn parhau i ddefnyddio sawl llwyfan digidol i ategu dysgu yn y dosbarth yn y dyfodol. Bydd dysgu beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio'r llwyfannau hyn i gefnogi Cymraeg disgyblion – yn yr ystafell ddosbarth a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth – a bydd cynnwys rhieni yn fwy canolog yn y broses o ddysgu a ddatblygir ar y cyd yn sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfleoedd a'r

anogaeth i barhau i ymgysylltu â'u Cymraeg y tu allan i'r ysgol, yn ystod y pandemig a thu hwnt.

- 6.3 Yn unol â gofynion y Cwricwlwm newydd i Gymru, mae'r adroddiad hwn yn cynnig cipolwg pwysig ar y camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod sgiliau iaith Gymraeg pob disgybl yn cael eu cefnogi, eu datblygu, eu meitrin a'u gwella mewn modd effeithiol fel rhan o'r newidiadau addysgol sy'n digwydd, ac yn unol â nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 6.4 Mae'r adran ganlynol yn amlinellu canfyddiadau allweddol yr astudiaeth sy'n bwydo i gyfres o argymhellion a amlinellir o dan Adran 7.

Paratoi athrawon a hyfforddeion ar gyfer arferion da wrth gefnogi teuluoedd di-Gymraeg

- 6.5 Ar y cyfan, roedd rhieni'n eithaf bodlon bod ysgolion yn deall yr heriau a oedd yn eu hwynebu fel rhieni di-Gymraeg, a'u bod wedi gwneud gymaint ag y gallent i'w cefnogi i helpu eu plentyn/plant i ymgysylltu â'r gwaith a osodwyd gan yr ysgol, o dan amgylchiadau anodd iawn.
- 6.6 Fodd bynnag, yn gyffredinol, ni wnaeth ysgolion drafod canlyniadau ymarferol posibl sefyllfaoedd lle roedd rhieni di-Gymraeg yn cefnogi addysg eu plentyn/plant gartref mewn unrhyw fanylder yn fewnol, ac ni chafodd athawon unrhyw sesiynau dysgu proffesiynol pwrpasol. Gall hyn olygu nad oedd athrawon wedi paratoi ac nad oeddent yn cael cefnogaeth yn hyn o beth.
- 6.7 Yn y rhan fwyaf o achosion, ni wnaeth ysgolion fynd ati i drafod y broblem iethyddol â rhieni, a oedd yn golygu bod rhai rhieni yn teimlo eu bod wedi'u gadael i ymdopi, er bod llawer o athrawon a hyfforddeion AGA (yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan ysgolion) yn hapus i roi cymorth pan godwyd unrhyw bryderon.
- 6.8 Parhaodd nifer o athrawon a hyfforddeion AGA i gyfathrebu â disgyblion a'u teuluoedd yn iaith yr ysgol, a oedd yn golygu bod llawer o rieni di-Gymraeg sydd â phlant yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg yn teimlo na allent gefnogi datblygiad eu plentyn yn ddigonol yn ystod y cyfnod hwn.

- 6.9 Roedd y rhan fwyaf o'r atharwon yn ansicr ynghylch a oedd gan eu hysgol bolisiâu iaith penodol o ran cyfrwng ieithyddol dulliau cyfathrebu y dylid ei fabwysiadu â'r rhieni.
- 6.10 Yn yr un modd, ni roddwyd unrhyw arweiniad penodol (ar y dechrau o leiaf) i athrawon dan hyfforddiant ar gefnogi plant o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg (er i sawl un gyfeirio at yr angen i addasu i anghenion disgyblion unigol). Roedd yn ymddangos bod y neges gyson ar draws y sefydliadau'n canolbwyntio ar ddibynnu ar ysgolion unigol i gael rhagor o arweiniad ar gefnogi'r disgyblion hyn, ac i sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant yn dilyn polisi'r ysgol ar y mater hwn.

Cyfathrebu rhwng ysgolion a rhieni

- 6.11 Yn gyffredinol, ychydig iawn o gyswllt a oedd rhwng ysgolion a rhieni. Er bod athrawon yn cysylltu â'r disgyblion bob dydd neu bob wythnos, roedd y mwyafrif o'r athrawon yn cysylltu â'r rhieni bob wythnos neu'n llai aml na hynny.
- 6.12 Roedd yr athrawon yn cysylltu'n llai aml â'r rhieni mewn ysgolion uwchradd, ond, yn aml, roedd yr athrawon hyn yn gyfrifol am ddau ddsbarth â 35 o ddisgyblion ac roedd y disgyblion uwchradd yn cael eu trin yn fwy fel dysgwyr annibynnol.
- 6.13 Yn y rhan fwyaf o achosion, nododd rhieni/gwarcheidwaid sydd â phlant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog fod yr ysgol yn cyfathrebu â nhw'n ddwyieithog wrth osod gwaith i'w plenyn/plant ei gwblhau. Fodd bynnag, roedd nifer o achosion o hyd lle na allai'r rhieni gefnogi eu plentyn am fod y gwaith wedi'i osod yn Gymraeg.
- 6.14 Roedd cyfran yr athrawon a oedd yn gwahaniaethu gwaith dosbarth ac unrhyw wybodaeth gysylltiedig am y gwaith dosbarth ar sail iaith aelwyd y disgyblion yn gymharol isel.

Cyfrwng ieithyddol y gwaith

- 6.15 Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd ymdrechion i gyfathrebu'n ddwyieithog yn digwydd drwy gyfieithiad uniongyrchol – o'r tasgau eu hunain gan fwyaf, ond

weithiau o'r cyfarwyddiadau ac awgrymiadau ychwanegol – ac yn aml nid oedd yn cynnwys gwybodaeth am y deilliannau dysgu neu ddiben y gweithgaredd. Teimlwyd bod y dull hwn o gyfathrebu dwyieithog yn fwy o ymgais arwynebol i gefnogi rhieni yn hytrach nag adnodd a ddatblygwyd yn bwrpasol i gefnogi rhieni di-Gymraeg a'u plant. Mewn rhai achosion, nododd y rhieni ei bod yn anodd dilyn y cyfieithiad i'r Saesneg.

- 6.16 Cafodd y mwyafrif o'r plant adborth ar eu gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg, er gwaethaf y ffaith bod ysgolion yn darparu'r gwaith yn ddwyieithog ac yn rhoi cyfarwyddiadau Saesneg pan fo angen. Roedd staff a hyfforddeion AGA o'r farn y dylai adborth fod wedi'i anelu at y disgybl yn hytrach na'r rhiant.
- 6.17 Yn aml, roedd y rhieni'n ei chael hi'n anodd dilyn arweiniad a deall yr hyn oedd yn ofynnol wrth gwblhau tasgau penodol, yn enwedig os oedd hyn yn wahanol i'w profiadau eu hunain a'u gwybodaeth am y pwnc (roedd hyn yn wir am bob rhiant yn cynnwys rhieni o aelwydydd di-Gymraeg).

Adnoddau

- 6.18 Roedd y rhan fwyaf o'r atharwon o'r farn nad oedd digon o adnoddau i gefnogi datblygiad disgyblion yn Gymraeg. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag adnoddau sy'n addas ar gyfer datblygu sgiliau iaith llafar. Nododd eraill fod bylchau amlwg, yn benodol mewn perthynas â rhaglenni ac adnoddau llythrennedd i ddatblygu llafaredd.
- 6.19 Roedd y rhieni a oedd eisoes yn meddu ar adnoddau cyfrwng Cymraeg neu a brynodd rai yn ystod y cyfyngiadau symud yn tueddu i fod yn rhieni Cymraeg eu hiaith. Felly, roedd y disgyblion sy'n byw mewn cartrefi di-Gymraeg yn bennaf mewn amgylcheddau lle roedd mynediad i'r Gymraeg – ar lafar neu'n ysgrifenedig – yn gyfyngedig iawn, lle nad oedd y gefnogaeth ychwanegol y bydd disgyblion fel arfer yn ei chael mewn perthynas â'r Gymraeg yn y dosbarth (gan gyfoedion ac athrawon a thrwy adnoddau) yn bodoli.

Dulliau cyflawni

- 6.20 Soniodd rhieni ac athrawon am y cyfyngiadau yn sgil y pandemig ar eu gallu i feithrin sgiliau iaith Gymraeg llafar y disgyblion yn benodol.
- 6.21 Er bod y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd yn cynnig sesiynau addysgu byw, dim ond nifer bach o ysgolion cynradd oedd yn gwneud hyn. Roedd hyn yn golygu ei bod yn bosibl nad oedd rhai disgyblion wedi cael y cyfle i gymryd rhan mewn sesiynau cydamserol byw lle byddent yn gallu meithrin ac ymarfer eu sgiliau iaith Gymraeg llafar ymnhellach.
- 6.22 Oherwydd gwahaniaethau mewn amserlenni a dulliau addysgu rhwng SAUau, awdurdodau lleol a chonsortia, cafodd athrawon dan hyfforddiant mewn lleoliadau gwahanol brofiadau ychydig yn wahanol.
- 6.23 Un dull cyflawni oedd yn peri problemau i sawl un oedd rhannu taflenni gwaith ar-lein. Prin iawn oedd y rhieni a nododd eu bod wedi argraffu unrhyw daflenni gwaith Cymraeg a ddarparwyd, er gwaethaf y ffaith bod gan y rhan fwyaf o rieni argraffydd.

Ymgysylltu

- 6.24 Roedd y graddau roedd disgyblion wedi ymateb i waith a gynlluniwyd yn benodol er mwyn gwella eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfyngiadau symud ac ymgysylltu â'r gwaith hwnnw wedi amrywio o un ysgol i'r llall.
- 6.25 Nododd ambell athro, yn enwedig y rheini mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, nad oedd y Gymraeg yn flaenoriaeth iddynt o gwbl yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd hyn er gwaethaf y ffaith bod y rhan fwyaf o'r athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg wedi nodi y byddent, dan amgylchiadau arferol, yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau yn eu haddysgu i ymgorffori'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob rhan o'r cwricwlwm.
- 6.26 Yn aml, nodwyd problemau cysylltedd a phrinder caledwedd briodol fel rhwystrau a oedd yn atal disgyblion rhag cyfrannu'n effeithiol mewn sesiynau ar-lein. Roedd hon yn broblem yn y ddwy iaith (gweler hefyd Prosiect Covid 1). Fodd bynnag, mewn perthynas â datblygu a gwella sgiliau iaith Gymraeg, mae hyn yn cyflwyno her

benodol pan na fydd disgyblion yn gallu ymwneud ag unrhyw Gymraeg ar lafar na chyfrannu ar lafar eu hunain.

- 6.27 Canfuwyd bod dylanwad rhieni ar ymgysylltiad a chymhelliant disgyblion yn allweddol i'w llwyddiant (gweler hefyd y Prosiect Covid a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru ar y defnydd o ddysgu cyfunol a dysgu o bell a'r Prosiect Covid ar brofiadau dysgwyr yn ystod y cyfyngiadau symud). Felly, mae cyfathrebu'n glir â rhieni, mewn iaith y maent yn ei deall, yn hanfodol er mwyn cyrraedd y disgyblion a chefnogi eu teithiau dwyieithog.
- 6.28 Mae'n bosibl ei bod wedi bod yn anoddach gwahaniaethu'n briodol – yn ieithyddol ac yn academiaidd – o dan yr amgylchiadau. Fodd bynnag, roedd disgyblion mewn setiau is yn tueddu i ddangos llai o ddiddordeb ac ymgysylltiad â'r Gymraeg o gymharu â disgyblion mewn setiau uwch, ac roedd disgyblion mwy abl a thalentog yn tueddu i gollu diddordeb yn gyflym gan nad oedd y gwaith yn ddigon heriol iddynt yn aml.

Effeithiau'r cyfyngiadau symud ar sgiliau iaith Gymraeg disgyblion

- 6.29 Effeithiodd y pandemig ar nifer o blant mewn ffyrdd gwahanol o ran eu sgiliau iaith Gymraeg. Parhaodd rhai plant i ffynnu, yn enwedig y rheini sydd â siaradwyr Cymraeg eraill yn y cartref, ond roedd angen i lawer o blant nad oeddent yn dod ar draws y Gymraeg yn rheolaidd drwy gydol y dydd gael cymorth ychwanegol i adfer eu sgiliau. Roedd llawer o athrawon o'r farn bod y pandemig wedi effeithio ar Gymraeg y disgyblion.
- 6.30 Fodd bynnag, fel y nodwyd mewn rhai o'r ymatebion a gafwyd yn yr astudiaeth hon, llwyddodd y plant i adfer eu gallu yn gyflym pan oedd y cymorth priodol ar waith.
- 6.31 Ar ôl arsylwi ar allu ieithyddol y disgyblion ar ôl iddynt ddychwelyd ar ôl y cyfyngiadau symud, roedd y rhan fwyaf o'r athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o'r farn bod y profiad hwn yn tynnu sylw at yr angen i ysgolion ddatblygu ymyriadau penodol er mwyn helpu disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg i ailymgysylltu â'u Cymraeg ar ôl y gwyliau haf arferol.

Anghenion dysgu ychwanegol

- 6.32 Mynegodd rhieni plant ag ADY batrymau barn gwahanol mewn perthynas â'r cymorth roeddent yn ei gael a'u gallu i gefnogi eu plentyn/plant i weithio yn Gymraeg.

Ystyriaethau penodol ar gyfer darpariaeth AGA

- 6.33 Oherwydd yr amrywiad mewn llwyfannau ar-lein a ddefnyddiwyd mewn ysgolion amrywiol, roedd angen i athrawon dan hyfforddiant addasu'n gyflym i'w hamgylchedd. Ar y cyfan, ymatebodd y rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn dda i'r amrywiad hwn gan addasu i ofynion yr ysgol. Nodwyd yr addaswydd hwn gan ddarlithwyr a hyfforddeion AGA fel un o nodweddion allweddol athro llwyddiannus.
- 6.34 Nododd ambell ymatebydd y gall y pandemig presennol fod wedi effeithio ar ymdeimlad athrawon dan hyfforddiant o foddhad a chyflawniad sy'n digwydd ar ôl i wers benodol ddod i ben. O ystyried mai rhywbeth newydd yw addysgegau dysgu digidol a'r amrywiaeth o lwyfannau digidol sydd ar gael, gall myfyrwyr AGA deimlo'n siomedig pan fydd dull penodol yn methu ac roedd angen anogaeth a chefnogaeth gan staff AGA ar adegau.

7. Argymhellion

<p>Argymhelliad 1: Hyrwyddwr Dysgu Digidol</p>	<p>Dylai partneriaethau AGA ystyried penodi aelod priodol o staff i oruchwylio anghenion dysgu digidol staff ym mhob rhan o'r bartneriaeth – 'hyrwyddwr dysgu digidol' – a all gysylltu â rhanddeiliaid gwahanol er mwyn sicrhau profiad cyfartal i bawb. Dylai'r unigolyn hwn feddu ar wybodaeth ardderchog am y datblygiadau technolegol diweddaraf yn y byd addysg a'r gallu i ddefnyddio'r wybodaeth hon i roi'r nodweddion addysgegol hyn ar waith, yn benodol mewn perthynas â strategaethau i feithrin sgiliau iaith Gymraeg disgyblion.</p>
<p>Argymhelliad 2: Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol</p>	<p>Yn y dyfodol, dylai Llywodraeth Cymru ystyried dull cenedlaethol o gefnogi dwyieithrwydd mewn ysgolion yng Nghymru, gan gynnig sesiynau dysgu proffesiynol a chyfleoedd dysgu ar y cyd ar draws rhwydwaith o fathau gwahanol o ysgolion, athrawon a disgyblion ledled Cymru. Byddai hyn yn meithrin cyfleoedd gwell i rannu arferion a chyfleoedd diddorol i ysgolion nad ydynt yn dod i gysylltiad â'i gilydd i feithrin cysylltiadau a dysgu gan ei gilydd.</p> <p>Dylai dysgu proffesiynol gynnwys cyfuniad unigryw o wybodaeth dechnolegol, addysgegol a chynnwys sy'n helpu athrawon i ddylunio a datblygu eu harddull dysgu cyfunol eu hunain. Dylai'r hyfforddiant hwn roi strategaethau i athrawon allu defnyddio technoleg yn effeithiol mewn cyd-destunau dysgu yn yr ysgol ac ar-lein, a gwybodaeth am y ffordd orau o fanteisio ar y gorau o'r ddau fyd er budd disgyblion unigol a chyd-destunau dysgu unigol. Mewn perthynas â chyd-destun y Gymraeg, mae angen i'r strategaethau hyn ganolbwyntio ar arferion iaith llafar a ffyrdd o sicrhau bod myfyrwyr yn parhau i ymgysylltu â'r Gymraeg.</p>
<p>Argymhelliad 3: Defnyddio'r Gymraeg bob dydd wrth roi adborth</p>	<p>Mae angen cydbwysedd gofalus rhwng rhoi adborth – yn ysgrifenedig neu ar lafar – sydd wedi'i anelu'n ofalus at gefnogi cynnydd academaidd (cyfuno adborth a naratifau 'adrodd ymlaen') yn iaith yr addysg, a rhoi adborth sydd â'r nod o sicrhau bod rhieni yn gallu asesu lefel gwaith eu plentyn, mewn iaith y maent yn ei deall.</p> <p>Dylai sesiynau dysgu proffesiynol pwrpasol gynnwys trafodaethau ynghylch priodolrwydd defnyddio adborth Cymraeg yn unig ar gyfer disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a nodiadau dwyieithog/Saesneg yn unig ar eu cynnydd i rieni. Yn yr un modd, dylai sesiynau i athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg gynnwys trafodaethau ynghylch defnyddioldeb cynnwys y Gymraeg bob dydd mewn adborth i ddisgyblion, yn cynnwys mewn nodiadau ar gynnydd i rieni er mwyn normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i'r ysgol ac amlygu rhieni i dermau Cymraeg, yn benodol ynghylch canmoliaeth ac anogaeth.</p>

	<p>Mewn adborth i ddisgyblion, dylai ysgolion ystyried defnyddio rhaglenni fel <i>Mote</i> (nodiadau llais <i>Mote</i> ac adborth ar gyfer <i>Google Classroom</i>) a <i>Flipgrid</i> sy'n cynnig y cyfle i roi adborth llafar – yn y ddwy iaith – ar unrhyw dasgau a gwblhawyd, a gallu helpu i fodelu defnydd cywir a dilys o iaith. Dylai sesiynau dysgu proffesiynol pwrpasol gynnwys cyfeiriadau at y ffordd orau o roi adborth ar lafar.</p>
<p>Argymhelliad 4: Cymorth i gyfathrebu'n ddwyieithog</p>	<p>Mae cyfathrebu â rhieni yn ddwyieithog yn arfer da. Fodd bynnag, pan wneir hyn mewn modd arwynebol, gall olygu y bydd rhieni a fyddai fel arfer yn barod i ddarllen Cymraeg ac sy'n gallu gwneud hynny yn dewis darllen y testun Saesneg, ac y bydd y rheini sydd ond yn edrych ar y Saesneg fel arfer yn parhau i wneud hynny heb fod angen annog eu plentyn i ymgysylltu â'r Gymraeg. Mae'n cymryd mwy o amser i ddarparu unrhyw agwedd ar waith yn Gymraeg ac yn Saesneg o gymharu â darparu'r gwaith hwnnw mewn un iaith, ac nid yw'r ffaith bod unigolyn yn siarad iaith yn golygu bod ganddo sgiliau cyfieithu. Fodd bynnag, o ystyried y diffyg adnoddau yn Gymraeg, yn aml, gofynnir i athrawon lunio eu hadnoddau eu hunain, ac, yn ystod y pandemig, maent wedi gorfod cyfathrebu'n ddwyieithog â'r rhieni yn amlach.</p> <p>Mae angen cymorth ychwanegol ar athrawon mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn addasu i ffordd gwbl ddwyieithog o weithio.</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru archwilio ffyrdd o gynnwys cefnogaeth ar gyfer gweithio'n ddwyieithog fel gwasanaeth craidd fel rhan o'i phroses o ddatblygu ysgolion bro¹⁵ er mwyn helpu i ddiwallu anghenion rhieni, athrawon a disgyblion sy'n gweithio mewn amgylchedd Cymraeg a/neu ddwyieithog. Byddai hyn yn golygu cyllido swyddi llawn amser a fyddai'n cynnig cymorth penodedig er mwyn helpu i fynd i'r afael â gofynion ychwanegol cyfieithu, caffael adnoddau priodol, a helpu i ddatblygu adnoddau Cymraeg a dwyieithog. Dylai AALLau nodi ysgolion lle dylid blaenoriaethu cymorth o'r fath.</p> <p>Fel mesur amgen, dylai Llywodraeth Cymru ystyried addasu'r gymhareb athrawon a disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn sicrhau y gall y system ymdopi â'r baich ychwanegol sy'n gysylltiedig â gweithio'n ddwyieithog.</p>

¹⁵ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/27-ysgolion-bro.pdf>

<p>Argymhelliad 5: Defnyddio cyfathrebu dwyieithog yn effeithiol</p>	<p>Yn yr un modd, dros dro, dylai Llywodraeth Cymru ac AALLau ystyried ffyrdd o sicrhau cyllid parhaus ar gyfer Athrawon Bro, lle y bo'n gymwys, sy'n rhoi cymorth arbenigol wrth ddatblygu strategaethau i gefnogi datblygiad disgyblion o'r Gymraeg mewn cyd-destunau ysgol cyfrwng Saesneg.</p> <p>Dylid annog ysgolion i ystyried mabwysiadu strategaethau amgen yn lle cyfieithu'n uniongyrchol, lle y bo'n bosibl, gan hyrwyddo dwyieithrwydd mewn ffordd nad yw'n galluogi unigolion i optio allan o un iaith yn llwyr. Gan ddefnyddio egwyddorion cyfryngu, gallai hyn olygu ymgorffori mwy o Gymraeg wrth gyfathrebu yn Saesneg â rhieni a disgyblion, ond gyda chymorth (fel cyfieithu geiriau cynnwys allweddol; cyfeiriadau darlun ac ati), a/neu fabwysiadu ffyrdd amgen o roi cyfarwyddiadau ac adborth a all gymryd llai o amser – e.e. ar ffurf fideo yn lle yn ysgrifenedig (gweler Argymhelliad 3 uchod). Mae angen sesiynau dysgu proffesiynol pwrpasol i gefnogi athrawon ac i rannu arferion da yn hyn o beth.</p>
<p>Argymhelliad 6: Cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref</p>	<p>Mae gan rieni/gwarcheidwaid ddylanwad cryf ar ymgysylltiad rhieni â'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Yn absenoldeb cyd-destunau naturiol ar gyfer cyfathrebu yn y cartref, dylai ysgolion/AALLau/Gwasanaethau Rhanbarthol Gwella Ysgolion gydweithio i feddwl yn arloesol am ffyrdd o gyflwyno'r defnydd o'r Gymraeg mewn gweithgareddau allgyrsiol lle mae cyfathrebu'n digwydd yn naturiol. Yn y dyfodol, mae'n allweddol ein bod yn datblygu dull mwy integredig a ddatblygir ar y cyd o ddysgu, gan fynd y tu hwnt i ddulliau traddodiadol o osod gwaith cartref, er mwyn sicrhau parhad y dysgu y tu hwnt i gyd-destun yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â datblygu a meithrin sgiliau iaith Gymraeg, ac yn bwysicaf yn y cyd-destunau hynny lle nad yw'r Gymraeg yn hygyrch y tu allan i'r cartref oni chaiff cyfleoedd eu creu fel estyniad o'r profiad ysgol.</p> <p>Dylid annog ysgolion i ystyried ffyrdd arloesol o gysylltu agweddau ar weithgareddau dysgu disgyblion yn yr ysgol a'r cartref mewn ffyrdd sy'n normaleiddio presenoldeb y Gymraeg a'r defnydd ohoni yn y ddau gyd-destun, ac sy'n fwy dynamig na gwaith cartref traddodiadol. Gallai hyn gynnwys gosod gwaith sy'n cynyddu amlygiad plant i ddefnydd dilys o'r Gymraeg – e.e. cynnwys rhaglenni teledu plant – neu drwy annog y defnydd o lwyfannau cymorth ar-lein i rieni (fel <i>Sôn am Lyfra</i> https://www.sonamlyfra.cymru/) er mwyn helpu i rymuso rhieni i deimlo y gallant helpu i gefnogi ymgysylltiad eu plant â'r Gymraeg. Gallai'r rhain hefyd gynnwys tasgau ar y cyd fel disgyblion yn addysgu Cymraeg i'w plant, ysgrifennu rhestrau siopa bwyd yn Gymraeg a phrofi geirfa bwyd eu rhieni pan fyddant yn y siop, ac ati. Dylai sesiynau dysgu proffesiynol gynnwys trafodaethau ynghylch y ffordd orau o gyflawni hyn.</p>

<p>Argymhelliad 7: Pwynt cyswllt ar gyfer cymorth Cymraeg</p>	<p>Dylai pob ysgol ystyried penodi aelod allweddol o staff fel pwynt cyswllt ar gyfer ymholiadau o ran cefnogi disgyblion yn Gymraeg a gyda'r Gymraeg. Gallai hwn fod yn athro ysgol neu'n unigolyn penodol/grŵp o unigolion ar sail rota a all gysylltu ag athrawon eraill er mwyn rhoi'r cymorth priodol sydd ei angen. Dylai ysgolion sicrhau bod disgyblion a'u rhieni yn ymwybodol o'r gwasanaeth a sut i'w ddefnyddio.</p>
<p>Argymhelliad 8: Polisiâu iaith Ysgolion</p> <p>Argymhelliad 9: Cefnogi Cymraeg rhieni</p>	<p>Gall fod angen addasu polisiâu iaith ysgolion yn sgil y profiadau diweddar yn ystod y pandemig, ac yn benodol yn sgil y newidiadau sydd ar ddod i gategoreiddio ysgolion yn ieithyddol. Mae angen cyfleu polisiâu iaith ysgolion yn glir i'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'u diben a'r disgwyliadau, a dylid cynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol mewn perthynas â'r ffordd orau o roi'r polisiâu hyn ar waith yn ymarferol. Dylai AALLau ddangos adolygiad trylwyr o bolisiâu iaith ysgolion fel rhan o'u ffurflenni blynyddol ar gyfer Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.</p> <p>Mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, dylai'r polisiâu hyn gynnwys ffyrdd o gyfathrebu â rhieni di-Gymraeg sy'n helpu i feithrin eu sgiliau iaith Gymraeg eu hunain a hyrwyddo buddiannau addysgol dwyieithrwydd. Dylid llunio cysylltiadau cryfach rhwng ysgolion a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn cefnogi cyfleoedd i ddatblygu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer meithrin sgiliau iaith Gymraeg rhieni.</p>
<p>Argymhelliad 10: Gwahaniaethu</p> <p>Argymhelliad 11: Trawsieithu</p>	<p>Ceir cyfle i ailgysyniadu gwaith asesu ac adborth gan ganolbwyntio ar wahaniaethu pan fydd angen – e.e. gall fod angen i rai disgyblion gael mwy o fewnbwn ar gyfer Cymraeg llafar a gall fod angen i eraill gael dull mwy cytbwys lle gallant gael gafael ar wybodaeth, ar yr un lefel, yn y ddwy iaith, ac ati. Dylai digwyddiadau dysgu proffesiynol gynnwys sesiynau yn trafod y mater hwn.</p> <p>Mewn rhai achosion, pan ddarparwyd y gwaith yn ddwyieithog, gallai'r disgyblion a'r rhieni ddewis trafod a chwblhau'r gwaith yn gyfan gwbl yn Saesneg. Un dull amgen fyddai mabwysiadu egwyddorion trawsieithu, yn benodol yn CA2 ac uwch, lle bydd disgyblion yn 'receive information in one language [in this case, English] and then use or apply it in the other language [in this case, Welsh]' (Baker a Wright, 2021, t. 464), gan annog disgyblion a phartneriaid dysgu i ddefnyddio dulliau cyfryngu (cymheiriaid, athrawon, brawd neu chwaer neu riant) fel rhan o'r broses. Dylai dysgu proffesiynol pwrpasol sicrhau bod cyfeiriad digonol at ddiben a chwmpas trawsieithu fel bod athrawon yn teimlo y gallant gyfoethogi profiadau dysgu disgyblion y tu hwnt i gyfieithu uniongyrchol.</p>

<p>Argymhelliad 12: Adolygiad o adnoddau Cymraeg</p>	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o adnoddau cyfrwng Cymraeg – ysgrifenedig, digidol ac e-ddysgu – er mwyn nodi meysydd i'w datblygu. Dylai hyn gynnwys adolygiad o adnoddau sy'n canolbwyntio ar sgiliau llythrennedd a llafaredd, ac awgrymu meysydd i'w datblygu, yn benodol mewn perthynas â chefnogi mynediad disgyblion i'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol a'u defnydd ohoni, fel llyfrau sain cyd-ddarllen ac adnoddau dwyieithog sy'n galluogi rhieni di-Gymraeg i gymryd rhan.</p>
<p>Argymhelliad 13: Hyrwyddo arferion iaith llafar</p> <p>Argymhelliad 14: Cysondeb</p>	<p>Mae amlygiad i ddefnydd dilys o iaith a chyfleoedd i gyfathrebu mewn ffyrdd ystyrion yn hanfodol ar gyfer datblygu, a dylai ysgolion nawr fod yn archwilio ffyrdd o ddatblygu addysgu byw, ar-lein, a dull dysgu cyfunol hyd yn oed, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn angenrheidiol er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu rhithwir.</p> <p>Mae angen buddsoddiad strategol mewn technoleg ac adnoddau, a hyfforddiant mewn ffyrdd o alluogi trafodaethau a chyfathrebu ar-lein gyda disgyblion a rhieni.</p> <p>Mae angen ymchwil bellach i'r modd y gellir defnyddio strategaethau gwahanol yn effeithiol (yn y sector cynradd ac uwchradd) sy'n annog disgyblion i gyfrannu ar lafar mewn sesiynau ar-lein.</p> <p>Cynigiodd rhai ysgolion (cynradd ac uwchradd) gyfleoedd dysgu cydamserol (sesiynau addysgu byw, ar-lein) a chynigiodd eraill addysgu anghydamserol yn unig.</p> <p>Mae angen cysondeb yn y negeseuon a roddir i ysgolion gan AALLau ynghylch yr hyn y gallant a'r hyn na allant ei wneud o ran addysgu ar-lein ac ymdrech ar y cyd i sicrhau addysgu byw lle y bo'n bosibl, gan sicrhau diogelwch disgyblion.</p>
<p>Argymhelliad 15: Cynyddu ymgysylltiad yn y Gymraeg/â'r Gymraeg</p>	<p>Mae lefelau isel o ymgysylltu â'r gwaith a gaiff ei osod yn y Gymraeg yn arwain at ddiffyg amlygiad i'r Gymraeg ynghyd â diffyg defnydd ohoni. Mae hyn, yn ei dro, yn effeithio ar sgiliau iaith y disgyblion ac, yn o ganlyniad, ar hyder yn defnyddio'r iaith.</p> <p>Mae angen digwyddiadau dysgu proffesiynol i gefnogi athrawon i roi egwyddorion arferion ail-wneud ar waith, lle caiff gwersi eu cynllunio er mwyn adolygu'r hyn y dylai'r dysgwyr fod yn ei wybod eisoes. Byddai hyn yn helpu'r athro i adnabod y rheini nad ydynt efallai wedi ymgysylltu'n llwyr neu nad ydynt wedi deall y wers neu'r dasg flaenorol a osodwyd yn llwyr, yn enwedig pan fydd y wybodaeth honno wedi'i chyflwyno yn Gymraeg.</p>

<p>Argymhelliad 16: Ail-ymgysylltu ar ôl cyfnodau hir i ffwrdd o'r ysgol</p>	<p>Dylai pob ysgol ystyried datblygu sesiynau gloywi iaith dwys, wedi'u gwahaniaethu yn ôl angen, i'w cyflwyno fel rhan annatod o gwricwlwm yr ysgol pan fydd plant wedi bod i ffwrdd o'r lleoliad ysgol arferol am gyfnodau hir. Mae hyn yn cynnwys y cyfnod o ddychwelyd ar ôl gwyliau'r haf pan fydd plant yn ailaddasu i amgylchedd yr ysgol.</p>
<p>Argymhelliad 17: Cefnogi disgyblion ag ADY</p>	<p>Oherwydd y gall hunanganfyddiadau o allu ieithyddol effeithio ar hyder a hunanhyder disgyblion mae angen i blant ag ADY a'u teuluoedd gael cymorth parhaus sy'n canolbwyntio ar y disgybl er mwyn eu cefnogi i ddysgu Cymraeg a/neu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Dylai gwasanaethau i ddisgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol fel arfer, yn arbennig os yw'r cymorth hwnnw ar gyfer iaith, barhau cymaint â phosibl yn ystod y cyfyngiadau symud.</p>

8. Adran gyfeiriadau

Baker, C. & Wright, W. E. (2021). *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*. 7fed Argraffiad. Bryste: Multilingual Matters.

Binks, H. L., a Thomas, E. M. (2019). Long-term outcomes for bilinguals in minority language contexts: Welsh–English teenagers’ performance on measures of grammatical gender and plural morphology in Welsh. *Applied Psycholinguistics*, 40(4), 1019-1049.

Charmaz, K. (2020) “‘With constructivist grounded theory you can’t hide’”: social justice research and critical inquiry in the public sphere’, *Quantitative Inquiry*, 26(2), 165-176.

Creswell, J. W. a Plano Clark, V. L. (2011). *Designing and Conducting Mixed Methods Research*. Llundain: Sage.

De George-Walker, L., a Keeffe, M. (2010). Self-Determined Blended Learning: A Case Study of Blended Learning Design. *Higher Education Research and Development*, 29(1), 1-13.

Fitzpatrick, T., Morris, S., Clark, T., Mitchell, R., Needs, J., Tanguay, E. a Tovey, B. (2018). *Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Ymagweddau a Dulliau Addysgu Ail Iaith Effeithiol* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 31/2018.

Gathercole, V. C. M. (2007). Miami and North Wales, so far and yet so near: Constructivist account of morpho-syntactic development in bilingual children. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 10, 224–247.

Gathercole, V. C. M., a Thomas, E M. (2009). Bilingual first-language development: Dominant language takeover, threatened minority language take-up. *Bilingualism: Language and Cognition*, 12(2), 213.

Hakuta, K., Bialystok, E., a Wiley, E. (2003). Critical evidence: A test of the critical-period hypothesis for second-language acquisition. *Psychological Science*, 14(1), 31-38.

Harju, V., Koskinen, A., & Pehkonen, L. (2019). An exploration of longitudinal studies of digital learning. *Educational Research*, 61(4), 388-407.

Hart, C. M. D., Berger, D., Jacob, B. Loeb, S. a Hill, M. (2019). Online Learning, Offline Outcomes: Online Course Taking and High School Student Performance. *American Educational Research Association*, 5 (1), 1-17.

Johnson, J. S., a Newport, E. L. (1989). Critical period effects in second language learning: The influence of maturational state on the acquisition of English as a second language. *Cognitive Psychology*, 21(1), 60–99.

Kozma, R. B. (2011). ICT, Education Transformation, and Economic Development: An Analysis of the US National Educational Technology Plan. *E-Learning and Digital Media*, 8 (2), 106-120.

- Leech, B. L. (2002). Asking Questions: Techniques for Semi-structured Interviews. *Political Science and Politics*, 35 (4), 665-668.
- Maratsos, M. P. (2000). More overregularizations after all: New data and discussion on Marcus, Pinker, Ullman, Hollander, Rosen a Xu. *Journal of Child Language*, 27, 183–212.
- McCracken, G. (1988). *The Long Interview* (Vol. 13). Sage.
- Montrul, S. (2008). *Incomplete acquisition in bilingualism: Re-examining the age factor*. Amsterdam/Philadelphia, John Benjamins Publishing Company.
- Pearson, B.Z. (2008). *Raising a bilingual child: A step-by-step guide for parents*. UDA: Random House.
- Thomas, E. M. a Roberts, D. B. (2011). Exploring bilinguals' social use of Welsh inside and out of the minority language classroom. *Language and Education*, 25 (2), 89-108.
- Thomas, E. M., a Gathercole, V. C. Muller (2007). Children's productive command of grammatical gender and mutation in Welsh: an alternative to rule-based learning. *First Language*, 27, 251-278.
- Thomas, E. M., Apolloni, D. a Parry, N. M. (2018). *Dulliau addysgu dwyieithog: cyfeirlyfr cyflym i addysgwyr*. Prifysgol Bangor.
- Thomas, Rhagorol. M., Gathercole, V. C. Mueller, a Hughes, E. K. (2013). Sociolinguistic influences on the linguistic achievement of bilinguals: Issues for the assessment of minority language competence. Yn V. C. Mueller Gathercole (Gol.), *Bilinguals and Assessment: Cyf. 2 Solutions*. Bryste: Multilingual Matters.
- Thomas, E. M., Williams, N., Jones, L. A., Davies, S., & Binks, H. (2014). Acquiring complex structures under minority language conditions: Bilingual acquisition of plural morphology in Welsh. *Bilingualism: Language and Cognition*, 17(3), 478-494.
- Tomasello, M. (2000). First steps toward a usage-based theory of language acquisition. *Cognitive Linguistics*, 11, 61–82.
- Unsworth, S. (2013). Assessing the role of current and cumulative exposure in simultaneous bilingual acquisition: The case of Dutch gender. *Bilingualism: Language and Cognition*, 16, 86–110.

9. Atodiad A: Vignettes o arferion diddorol enghreifftiol

Darparu cymorth yn ddwyieithog gyda'r gwersi anghydamserol er mwyn cynorthwyo gyda galluogi rhieni i ddeall ac i gynorthwyo eu plant gyda'r tasgau. Serch hyn, addysgwyd yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y sesiynau cydamserol.

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wledig

Pan ddychwelodd y dysgwyr i'r ysgol wedi'r cyfnod clo, roedd yn amlwg fod llawer iawn o'r dysgwyr wedi colli hyder wrth gyfathrebu yn y Gymraeg. Gyda dysgwyr blynyddoedd 7ac 8 penderfynwyd creu cardiau Cymraeg a rhoi cyfrifoldeb y Gymraeg i unigolion siaradus yn yr ystafell ddosbarth. Ym mhob gwrs byddai 'Capten Cymraeg' dynodedig ar gyfer pob rhes, gyda'r unigolyn yma yn newid o wers i wers, er mwyn darparu cyfle i bawb gael ymgymryd â'r rhan a'r cyfrifoldeb. Yn hytrach na cheryddu'r dysgwyr am beidio siarad Cymraeg, roedd y cardiau yn gosod y cyfrifoldeb am y Gymraeg ar y disgyblion, yn hytrach na'r athro. Gan fod posibilrwydd o ennill pwyntiau 'Class Charts' yn ystod y wers, roedd y dysgwyr yn ymateb yn dda i'r cyfrifoldeb o annog unigolion eraill ar eu rhesi i drafod yn y Gymraeg. Er bod nifer wedi ymateb yn bositif, roedd angen mwy o anogaeth ar rhai unigolion o fewn y dosbarth, yn enwedig gan fod torri'r patrwm o droi i siarad Saesneg yn arfer mor anodd ei dorri mewn rhai achosion penodol.

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wledig

Roedd y defnydd o *Collaboration Board*, *Nearpod*, gan ddefnyddio gweithgareddau megis 'matching pairs' a chwisiau, mewn gwersi cydamserol, yn annog mwy o ddysgwyr i ymateb yn Gymraeg.

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg wledig

Mabwysiadwyd cyfloed go gyfer 'sgyrsiau' yn y gwersi cydamserol, lle'r oedd modd i'r dysgwyr ymateb ar lafar a thrafod agweddau ar eu gwersi.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Er mwyn cynyddu cymhelliant ac ymateb llafar dysgwyr yn ystod y gwersi cydamserol, defnyddiwyd strategaethau newydd fel *Answer Garden*, *Mentimeter*, *Screencastify* a *Whiteboard.fi*.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Rhwng y ddwy wers gydamserol a gynigiwyd yn ddyddiol, darparwyd cyfleoedd i'r dysgwyr a'u rhieni i ofyn cwestiynau ac i geisio cefnogaeth gyda'r tasgau.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Penderfynwyd cyflwyno strategaeth ysgol gyfan lle'r oedd disgwyl i bob disgybl gwblhau tocyn ffarwel ar *Google Forms* a hynny drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Dechreuodd yr athrawon ddefnyddio *Adobe Sparke* sy'n gyfanwaith o luniau ac esboniadau, yn hytrach na naratif yn unig wrth asesu - gwelwyd bod hyn yn gwella ymgysylltiad -cynyddu hyder y dysgwyr, yn arbennig y rhai hynny o deuluoedd di-Gymraeg.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Darparwyd cwisiau *Kahoot* yn adolygu nodweddion arddull ysgrifennu llythyr; adnabod technegau mynegi barn.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Defnyddio adnodd adborth cryno *Answer Garden* i bennu meini prawf llwyddiant yn annibynnol ar gyfer tasg ysgrifennu blog mynegi barn; i bennu meini prawf llwyddiant yn annibynnol ar gyfer ysgrifennu araith; a recordio araith.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Gwnaed defnydd o 'breakout rooms' ar *Teams* er mwyn annog trafodaeth o blith grwpiau llai o ddysgwyr. Roedd yn llwyddiant nodedig, yn ôl y cyfranwyr, wrth gynyddu hunan hyder dysgwyr.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol

Er mwyn meithrin hunanhyder i ymateb yn Gymraeg yn y gwersi ar-lein, cynyddwyd y pwyslais ar wirio dealltwriaeth a chynnydd drwy'r defnydd o gwestiynu. Datblygwyd techneg lle ofynnwyd i bawb baratoi ateb ysgrifenedig yn y panel 'sgwrs' ar *Teams*, cyn datgan

“3,2,1, danfonwch!” Roedd yn fodd o sicrhau ymatebiad cydamserol dysgwyr, ac er mwyn gwirio eu dealltwriaeth, er enghraifft, mewn perthynas â gwerthfawrogi barddoniaeth a gwirio ystyr geirfa.

Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg drefol